



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales




Gweithgareddau
Cyffredinol a
Dosbarthu Arian
y Loteri

Adroddiad a
Datganiadau Ariannol
am y flwyddyn a ddaeth
i ben 31 Mawrth 2024

Rhif elusen 1034245

Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored a hygyrch a bydd yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw am y Gymraeg a'r Saesneg ar gais. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.



Cynnwys

Yr hyn a wnawn	2
Rhagair y Cadeirydd	3

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a Sylwadau Rheoli

Prif Weithredwr	7
Ein strategaeth deng mlynedd.....	11
Budd i'r cyhoedd.....	22
Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau	25
Ein perfformiad	29
Llywodraethu Corfforaethol	43
Datganiad Llywodraethu.....	48
Adroddiadau'r Cyngor a Phwyllgorau	59
Cydraddoldebau.....	73
Y Gymraeg.....	77
Cenedlaethau'r Dyfodol	80
Perfformiad amgylcheddol	84
Y prif risgiau ac ansicrwydd.....	88
Adolygiad ariannol a busnes.....	94
Adroddiad ar Gydnyddiaeth Ariannol a Staff.....	102
Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio	113
Y flwyddyn i ddod: 2024/25	114

Datganiadau Ariannol

Gweithgareddau Cyffredinol	118
Dosbarthu Arian y Loteri	154

Atodiadau (nad ydynt yn rhan o'r datganiadau ariannol)

Grantiau a ddyfarnwyd – Gweithgareddau Cyffredinol.....	179
Cyfarwyddiadau Polisi'r Loteri Genedlaethol	199
Grantiau a ddyfarnwyd – Dosbarthu Arian y Loteri.....	201

Yr hyn a wnawn

Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r corff cyhoeddus swyddogol ar gyfer cyllido a datblygu'r celfyddydau.

Cawsom ein sefydlu drwy Siarter Frenhinol ar 30 Mawrth 1994 a nod ein bodolaeth yw cefnogi a datblygu'r celfyddydau yng Nghymru er budd pobl ledled Cymru, ac er mwyn cefnogi celfyddydau Cymru yn rhyngwladol.

Rydym hefyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, yn Ddosbarthwr Arian y Loteri Genedlaethol ac yn elusen gofrestredig (rhif 1034245).

Mae ein Siarter Frenhinol yn disgrifio ein hamcanion sef:

- datblygu a gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r celfyddydau a'u hymarfer;
- cynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd;
- gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg; a,
- gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, a Chynghorau Celfyddydau eraill yn y Deyrnas Unedig, i gyflawni'r amcanion hyn.

[Mae copi o'n Siarter Frenhinol ar gael ar ein gwefan.](#)



Rhagair y Cadeirydd

Pleser o'r mwyaf yw cyflwyno Adroddiadau a Datganiadau Ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru. Roedd nodweddion eleni yn cynnwys ein Hadolygiad Buddsoddi, digwyddiadau diwylliannol egniol, a chyllid strategol a wnaeth cyfoethogi ein tirwedd artistig a gyrru ein gweledigaeth o sector celfyddydau sy'n ffynnu yng Nghymru.

Drwy gydol y flwyddyn, arhosodd Cyngor Celfyddydau Cymru yn gadarn yn ei ymrwymiad i feithrin creadigrwydd, amrywiaeth, a hygyrchedd yn y celfyddydau. O gefnogi arddangosfeydd a pherfformiadau arloesol i feithrin talentau a ddaeth i'r amlwg, mae ein hymdrechion wedi parhau i ysbrydoli ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd ledled cymunedau yng Nghymru.

Mae prif ddigwyddiadau fel yr Eisteddfod Genedlaethol, Diwrnod Miwsig Cymru, a Celtic Connections, a'n rhaglenni parhaus Celfyddydau ac Iechyd, a Dysgu Creadigol, wedi arddangos dyfnder ac amrywiaeth celfyddydau a diwylliant Cymru ar blatfform cenedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'r amrantiadau hyn o ddatlu yn brawf o fywiogrwydd a chydnerthedd ein hecosystem creadigol.

Mae ein gwaith rhyngwladol wedi parhau i ffynnu hefyd, fel enghraifft o creadigrwydd Cymru ar y llwyfan byd-eang. O brosiectau cydweithredol i gyfnewidfeydd diwylliannol fel Cymru yn Ffrainc, sefydlasom bartneriaethau ystyrlon sy'n mynd tu hwnt i ffiniau, yn arddangos cyfoeth ac amrywiaeth celfyddydau Cymru i gynulleidfaoedd ledled y byd. Nid yn unig mae'r profiadau hyn yn chwyddo ein cyd-leisiau ond mae hefyd yn meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad traws-ddiwydiannol. Ceir heriau wrth reswm, nid lleiaf yn Ewrop wrth inni ymdrin â goblygiadau ei pherthynas newydd â'r DU wedi Brexit, ond byddwn yn parhau i lywio'r amgylchedd heriol hwn ac yn parhau i eirioli dros newid deddfwriaethol er mwyn sicrhau y caiff lleisiau Cymru eu clywed ar draws Ewrop a'r byd, ac i'r byd cael dod i Gymru. A hyn oll yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd a'n cyfrifoldebau dros gyfiawnder newid hinsawdd.

Ochr yn ochr â hyn, mae ein Hadolygiad Buddsoddi yn ymgrynhai ein mentrau strategol sydd â'r nod o gynnal a chryfhau seilwaith y celfyddydau yng Nghymru. Trwy raglenni ariannu wedi'u targedu, mentrau adeiladau capasiti, a phartneriaethau â sefydliadau diwylliannol, rydym wedi ymdrechu i rymuso artistiaid, gwella mynediad i'r celfyddydau, a meithrin arloesedd a rhagoriaeth.


Wrth inni edrych i'r dyfodol, a llywio cymhlethdodau'r dirwedd bresennol, cydnabyddwn wir her y toriadau i'n cyllid wrth symud ymlaen, a beth y gallai hyn ei feddwl i'r sector.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod wedi ymrwymo i'w genhadaeth o hyrwyddo'r celfyddydau ac etifeddiaeth ddiwylliannol Cymru. Cydnabyddwn rym trawsnewidiol y celfyddydau i gyfoethogi bywydau, sbarduno economïau, ac adeiladu cymunedau cydlynus, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd y buddion hyn yn cyrraedd pob cwr o'n gwlad.

Estynnaf fy niolchiadau diffuant i'n holl bartneriaid, rhanddeiliaid, a chefnogwyr a chwaraeodd rôl hollbwysig yn llunio ein cyflwyniadau eleni. Gyda'n gilydd, rydym wedi gosod sail gref i'r dyfodol, a ymwreiddiwyd mewn creadigrwydd, cynhwysiant, a chynaliadwyedd.

Diolch i chi am eich ymddiriedaeth a'ch cydweithrediad parhaus wrth inni symud ymlaen gyda'n gilydd, wedi'n llywio gan ein cyd-angerdd dros y celfyddydau a'r gred eu bod yn cael effaith parhaus ar gymdeithas.

Dymuniadau gorau,



Maggie Russell

Cadeirydd

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a Sylwadau Rheoli

82.0%

o blant Cymru wedi mynychu digwyddiad celfyddydol yn 2023

Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant (2022: ddim ar gael)



Radio Platform, Canolfan Mileniwm Cymru
(Llun: Polly Thomas)




Prif Weithredwr

Wrth imi edrych yn ôl dros fy neunaw mis yn y swydd, teimlaf yn falch ac yn ddiolchgar am y gefnogaeth ddiysgog a'r ymrwymiad a ddangoswyd gan bawb yn y gymuned gelfyddydol yng Nghymru. Diolchaf yn wresog hefyd am waith caled ac ymrwymiad ein staff yng Nghyngor Celfyddydau Cymru a fu'n gweithio'n ddyfal mewn byd a newidiodd yn gyson wrth inni barhau i ariannu a chefnogi ecoleg celfyddydau Cymru. Mae ein hadroddiad blynyddol yn brawf o lwyddiannau'r flwyddyn ddiwethaf ac yn lasbrint ar gyfer ein hymrwymiad parhaus i'r gwaith o feithrin rhagoriaeth gelfyddydol a bywiogrwydd diwylliannol ar draws y wlad.

Er yr heriau a gyflwynwyd gan gyllideb ddigyfnewid yn 2023/24, arhosodd ein cefnogaeth o'r celfyddydau yn gadarn, a chydabuom eu grym trawsnewidiol i gyfoethogi bywydau a chymunedau. Drwy fuddsoddiadau wedi'u targedu, rydym wedi ymdrechu i feithrin talent a ddaeth i'r amlwg, cynnal sefydliadau sefydlog, a hyrwyddo cynhwysiant yn ein tirwedd ddiwylliannol.

Mae ein gwaith ym meysydd y Celfyddydau ac Iechyd, a Dysgu Creadigol yn arwain y byd ac yn fodel o arfer da. Cymaint yw'r clod i bawb sy'n rhan ohono, yn fewnol ac yn y sector, mae gwledydd eraill yn cysylltu â ni i ddysgu mwy am ein gwaith ym meysydd iechyd ac addysg. Nid dyma'r tro cyntaf i Gymru arwain ac i eraill ddilyn ar ei hôl. Ein cynllun Hynt sy'n sicrhau mynediad i ofalwyr a phobl â gofynion mynediad penodol, a fu'n weithredol ers 10 mlynedd, yw templed cynllun newydd y DU-gyfan o'r enw All In.

Cynhaliwyd ein Harolygiad Buddsoddi yn 2023/24, a gynyddodd nifer y sefydliadau y byddwn ni'n buddsoddi ynddynt ar sail aml-flwyddyn o 67 i 81. Mae cynnydd yn y gefnogaeth i sefydliadau a arweinir gan fwyafrif byd-eang, mwy o weithgareddau Cymraeg, a cohort mwy amrywiol mewn theatr – ond mae gwaith i wneud o hyd. Ar hyn o bryd, rydym yn adnabod yn rhagweithiol unrhyw fylchau mewn buddsoddiad, boed yn gelfyddydol, yn ddaearyddol neu'n ieithyddol, ac yn ymyrryd yn strategol. Roedd hon yn fenter enfawr i'r sector ac i staff Cyngor Celfyddydau Cymru, a hoffwn ddiolch i bawb am eu gwaith caled a'u proffesiynoldeb.



Ochr yn ochr â'r Adolygiad Buddsoddi, parhaom i gefnogi datblygiad y celfyddydau yng Nghymru trwy ein harian loteri, gyda grantiau prosiect i artistiaid llawrydd a sefydliadau. Caiff 90% o'r arian a dderbyniwn ei ddsbarthu ledled Cymru er mwyn gwneud gwahaniaeth, o brosiectau cymunedol bach o ansawdd, i brosiectau llawn uchelgais. Mae ein cronfa Camau Creadigol, sy'n targedu artistiaid neu ymarferwyr creadigol sy'n uniaethu fel pobl ethnig neu ddiwylliannol amrywiol, yn Fyddar neu'n anabl, wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Felly hefyd Llais y Lle, y cynllun sy'n targedu gweithgareddau cymunedol Cymraeg ac yn datblygu ymarferwyr llawrydd a grwpiau cymunedol i ddefnyddio'r iaith yn greadigol.

Mae mwy o leoliadau ar draws Cymru yn derbyn cytundebau ariannu aml-flwyddyn erbyn hyn, ac maent yn chwarae rhan hollbwysig i'r cymunedau a wasanaethwyd ganddynt. Bu'r argyfwng costau byw yn heriol i bawb yn ystod y cyfnod hwn, ond cafwyd effaith benodol ar leoliadau. Mae cynulleidfaoedd yn dychwelyd yn raddol ar ôl Covid, ond mae'r broses yn un araf, ac mae costau'n cynyddu. Ond mae ychydig o arwyddion cadarnhaol o ran cynulleidfaoedd yn dychwelyd, a byddwn yn parhau i weithio gyda lleoliadau wrth iddynt lywio'r ffordd ymlaen.

Mae cred angerddol yng ngwerth cynhenid y celfyddydau i Gymru a'i holl gymunedau wrth wraidd ein cenhadaeth. Tu hwnt i'w heffaith economaidd, sy'n sylweddol, mae'r celfyddydau'n ymgorffori ein hunaniaeth, ein hetifeddiaeth a'n dyheadau fel cenedl. Maent yn gweithredu fel catalydd ar gyfer cydlyniant cymdeithasol, arloesedd, a mynegiant personol, yn codi y tu hwnt i rwystrau ac yn ysbrydoli dychymyg. Byddwn yn parhau i ymdrechu dros hawl bob cymuned yng Nghymru, beth bynnag ei ethnigrwydd, iaith neu grŵp cymdeithasol, i gyrraedd celfyddydau o ansawdd, sy'n briodol ac yn fforddiadwy, a byddwn yn eirioli dros sicrhau mwy o gyllid i'r celfyddydau lle bynnag bo'n bosibl er mwyn helpu i sicrhau y gallwn ni gyflawni ein targedau ar gyfer pobl Cymru.


Yn awr, yn fwy nag erioed, wrth inni lywio byd sy'n newid yn gyflym, mae'r celfyddydau'n chwarae rhan hanfodol yn llunio ein cyd-naratif ac yn meithrin cydnerthedd yn wyneb trallod.

Yn gynnes,



Dafydd Rhys

Prif Weithredwr



84.1%

o blant Cymru
wedi cymryd
rhan mewn
gweithgaredd
celfyddydol
yn 2023

(2022: ddim ar gael) Ffynhonnell: Arolwg Omnibws y Plant

Ein strategaeth deng mlynedd

Ein gweledigaeth

Mae'r celfyddydau'n rhan o fywyd beunyddiol pobl Cymru. Maent yn ein cysylltu â'n gilydd, yn rhan annatod o'n lles ac yn ein hysbrydoli am genedlaethau i ddod.



Ein cenhedaeth

Rôl Cyngor Celfyddydau Cymru yw creu amgylchedd lle gall gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer y celfyddydau ffynnu a lle gall pawb yng Nghymru ymgysylltu â'r celfyddydau.

Ein dyhead yw Cymru o uchelgais a thegwch, lle caiff y celfyddydau mwyaf cyffrous eu creu; celfyddydau sy'n hanfodol i iechyd a llesiant y genedl, yn berthnasol i'r holl gymunedau a lle mae cyfleoedd i leisiau Cymru ysbrydoli'r byd.



Ein hymagwedd

Fframwaith yw ein strategaeth – ni fwriedir iddo fod yn un cyhoeddiad sy'n aros, heb ei gyffwrdd, ar ei wedd bresennol ar hyd ei oes. Dangosodd y blynyddoedd diwethaf sut mae newid, yn aml yn ddirybudd, yn rhan sylweddol o'n bywydau, a sut mae angen arnom addasu ac ail-flaenoriaethu wrth ymateb iddo.

Bwriad ein Strategaeth yw union hynny, i fod y hygyrch ac yn ymatebol i'r newidiadau – wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio – y byddwn yn eu profi'n anochel. Oherwydd hyn, rydym wedi pennu ymrwymadau i'w cyflawni'n syth a rhai y byddwn yn ceisio eu datblygu yn y tymor hirach, pan fydd y seiliau angenrheidiol wedi'u gosod ac y byddant yn gwneud y cyfraniad mwyaf.

Caiff ein Strategaeth ei hadolygu'n rheolaidd drwy gydol ei oes. Caiff effaith y cynnydd ei hadrodd a'i gwerthuso a chaiff tasgau allweddol eu hail-flaenoriaethu er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i symud mewn ffordd wirioneddol effeithiol sy'n addas i gyflawni ein nodau'n llwyddiannus, a bod cyflawni ein cenhadaeth yn amlwg.



Querín Bach
(Llun: Alex Hullah)

Ein hegwyddorion

Mae ein Strategaeth yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor i'r deng mlynedd nesaf, yn sicrhau ac yn datblygu gwerth celfyddydol Cymru yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cafodd ei llunio gan y chwe egwyddor a ddatblygwyd yn ystod ymgynghoriad ein Hadolygiad Buddsoddi. Nhw hefyd yw ein Hamcanion Llesiant cyhoeddedig sef: **creadigrwydd, cydraddoldeb ac ymgysylltu, y Gymraeg, cyfiawnder newid hinsawdd, meithrin talent a thrawsnewid.** Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r egwyddorion, sydd hefyd yn alinio â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru.

Er y disgrifiwn bob egwyddor ar wahân, mae'r chwech ohonynt yn gysylltiedig trwy ein gwaith a thrwy'r gweithgareddau a gefnogwn.



Gan ddefnyddio'r chwe egwyddor hyn, byddwn yn dathlu, datblygu, a chefnogi dyfodol y celfyddydau yng Nghymru, yn ymwreiddio tegwch, amrywiaeth, cynhwysiant, cyfiawnder cymdeithasol a chynaliadwyedd wrth galon ein gwaith. Byddant yn ein tywys ni ac yn ein helpu i ni adrodd hanes y ffordd y gall y celfyddydau wneud gwahaniaeth.



Creadigrwydd

Mae gan gelf y grym i'n cysylltu â'n gilydd a'n helpu i ddeall ein gilydd a'r byd o'n cwmpas. Mae'n herio ein ffordd o feddwl ac yn sbarduno ein dychymyg. Mae'n dod â llawenydd a gobaith i gynulleidfaoedd a chyfranogwyr. Mae creadigrwydd ym mhawb a phopeth rydym ni'n eu cefnogi. Hoffem weld amrywiaeth fawr o ffurfiau ac arferion creadigol, wedi'u datblygu gan ystyried cynulleidfaoedd a chymunedau, yn annog arloesedd artistig o'r ansawdd gorau.

Cydraddoldeb ac ymgysylltu

Mae gan bawb yr hawl i fwynhau a chymryd rhan yn ein diwylliant, iaith, tirwedd a chelfyddydau. Dylai'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru adlewyrchu bywydau'r holl bobl – maent yn perthyn i bawb ohonom.

Byddwn yn ceisio dileu'r rhwystrau a'r heriau a wynebir rhag profi'r celfyddydau. Byddwn yn sicrhau y caiff pobl o gymunedau gwahanol eu cynrychioli'n llawn yn y gweithlu, fel arweinwyr, penderfynwyr, crewyr, ymwelwyr, chyfranogwyr ac aelodau cynulleidfaoedd.

Y Gymraeg

Ein nod yw rhoi'r Gymraeg a diwylliant Cymru wrth galon creadigrwydd; mae'n perthyn i bawb. Mae'n cynnig dathliad creadigol ac yn ysbrydoli cysylltiad rhwng cymunedau.

Byddwn yn annog ac yn rhannu cyfleoedd creadigol sy'n cyfrannu at dwf yn y defnydd a'r berchnogaeth o'r Gymraeg. Byddwn yn cefnogi sector y celfyddydau i osod y Gymraeg wrth galon creadigrwydd drwy ofyn beth sydd ei angen, gwranddo ar ein gilydd a dysgu oddi wrth ein gilydd. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gynyddu'r gwasanaethau a chyfleoedd creadigol Cymraeg sydd ar gael i bawb.

Cyfiawnder newid hinsawdd

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo rôl bwysig y celfyddydau yn trawsnewid ein cymdeithas a'n heconomi i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Wrth wraidd ein hymagwedd yw'r gydnabyddiaeth nad dim ond ôl-ffeithiau amgylcheddol a ddaw o newid hinsawdd – mae'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol ac anghydraddoldeb.

Byddwn yn cefnogi sector y celfyddydau i ddatblygu creadigrwydd sy'n ysbrydoli pobl i weithredu dros gyfiawnder newid hinsawdd, ac yn gweithio tuag at sector celfyddydol amgylcheddol gynaliadwy a chyfrifol yn fyd-eang sydd wedi'i seilio ar gyfiawnder cymdeithasol.

Meithrin talent

Byddwn yn creu amgylchedd i helpu artistiaid i ffynnu.

Mae'n rhaid inni sicrhau bod llwybrau'n bodoli sy'n caniatáu i bobl o bob cefndir ddatblygu gyrfaoedd, sgiliau ac arweinyddiaeth greadigol a chynaliadwy.

Gan weithio'n gydweithredol, byddwn yn gwneud yn siŵr y caiff y cyfleoedd sydd ar gael i artistiaid eu dosbarthu'n deg, yn cyflenwi gwaith teg ac yn gwella canlyniadau i bobl Cymru, yn awr ac yn y dyfodol.

Trawsnewid

Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd newydd ac yn ddigon ystwyth a hyderus i ymateb yn gadarnhaol i'r holl newidiadau sy'n digwydd o'n cwmpas.

Byddwn yn cymryd risgiau, yn adeiladu cydnerthedd ac yn ymatebol i newid, ac yn aros yn berthnasol i bobl a chymunedau Cymru. Hoffem ddod o hyd i'r cyfleoedd gorau ar gyfer y celfyddydau, a dysgu o'r hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol a rhannu'r hyn sy'n gweithio orau.

Byddwn yn cymryd risgiau, yn adeiladu cydnerthedd ac yn ymatebol i newid, ac yn aros yn berthnasol i bobl a chymunedau Cymru. Hoffem ddod o hyd i'r cyfleoedd gorau ar gyfer y celfyddydau, a dysgu o'r hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol a rhannu'r hyn sy'n gweithio orau.



Jukebox Collective

Ein nodau

Mae'r nodau hyn yn deillio o'n Siarter Frenhinol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r weledigaeth hirdymor i'r celfyddydau. Trwyddynt rydym wedi pennu tasgau allweddol a fydd yn rhoi cefnogaeth i sector y celfyddydau ar hyn o bryd ac i'r dyfodol, gan gipio gwaddol y gwaith a'i effaith yn y tymor hirach.

Datblygu Datblygu a gwella gwybodaeth am y celfyddydau, dealltwriaeth ohonynt, a'u hymarfer yn gynaliadwy.

Cysylltu Gwneud cysylltiadau i wella cyfle pobl Cymru i brofi a mwynhau'r celfyddydau.

Hywryddo Cydweithredu â phartneriaid i hyrwyddo Cymru â diwylliant bywiog a Chymraeg ffyniannus.



*Gwreiddiau,
Think Creatively CIC
(Llun: pete takes pictures)*

Llywodraeth Cymru

Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru'n gosod y cyd-destun cyffredinol i'n gwaith. Nodir yr hyn mae Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl gennym yn y Llythyr Cylch Gwaith sy'n rhychwantu cyfnod pum mlynedd y Llywodraeth 2021-2026. Y nodau a rennir gennym yw:

- datgarboneiddio;
- mynd i'r afael â phob anghydraddoldeb a sicrhau Cymru wrth-hiliol;
- gwella mynediad a chyfranogiad i bawb;
- hybu iechyd a lles;
- creu cyfleoedd i bobl ifanc
- dangos delwedd rymus a chadarnhaol o Gymru i'r byd.

A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn gweithredu o fewn rhwydwaith cymhleth o bolisiau, strategaethau a deddfwriaeth cyhoeddus. Y pwysicaf o'r rhain yw deddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae llesiant a chynaliadwyedd yn sylfaenol i'n gwaith. Mae ein gweithgareddau'n rhoi sylw i bob un o'r saith nod llesiant:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Rydym hefyd yn mabwysiadu, wrth gynllunio ac wrth gyflawni ein gwaith, 'pum ffordd o weithio' y ddeddfwriaeth:

- tymor hir
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cyfraniad

19,876

o ddigwyddiadau celfyddydol a gynhaliwyd gan ein portffolio o sefydliadau a ariannwn, gan gynhyrchu

3,703,702

o fynychiadau

84,018

o sesiynau cyfranogol a gynhaliwyd gan ein portffolio o sefydliadau a ariannwn, gan arwain at

779,761

o fynychiadau

13,139

o sesiynau cyfranogol a gynhaliwyd yn Gymraeg gan ein portffolio o sefydliadau a ariannwn, gan arwain at

84,999

o fynychiadau

13,473

o sesiynau cyfranogol a gynhaliwyd gan ein portffolio o sefydliadau a ariannwn oedd wedi'u targedu at bobl yn y grŵp nodweddion gwarchoddedig

2023/24

17,579

o ddigwyddiadau celfyddydol a gynhaliwyd gan ein portffolio o sefydliadau a ariannwn, gan gynhyrchu

3,538,469

o fynychiadau

69,704

o sesiynau cyfranogol a gynhaliwyd gan ein portffolio o sefydliadau a ariannwn, gan arwain at

635,636

o fynychiadau

11,342

o sesiynau cyfranogol a gynhaliwyd yn Gymraeg gan ein portffolio o sefydliadau a ariannwn, gan arwain at

76,854

o fynychiadau

12,735

o sesiynau cyfranogol a gynhaliwyd gan ein portffolio o sefydliadau a ariannwn oedd wedi'u targedu at bobl yn y grŵp nodweddion gwarchoddedig

2022/23

Budd i'r cyhoedd

Mae ein cenhadaeth yng Nghyngor Celfyddydau Cymru wedi'i ymwreiddio'n ddwfn yn y gred bod gan y celfyddydau'r grym i gyfoethogi bywydau, ysbrydoli creadigrwydd, a chryfhau cymunedau. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y celfyddydau'n hygyrch ac yn gynhwysol, ac yn cyfrannu at lesiant a ffyniant holl bobl Cymru.

A ninnau'n stiwardiaid arian cyhoeddus, cydnabyddwn ein cyfrifoldeb i gyflenwi buddion diriaethol ac ystyrlon i'r cyhoedd. Credwn fod y celfyddydau'n chwarae rôl sylfaenol yn y prosesau o wella ansawdd bywyd unigolion, meithrin cydlyniant cymdeithasol, a gyrru twf economaidd.

Wrth bennu ein hamcanion a chynllunio ein gwaith, mae aelodau'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth ddifrifol i ganllawiau cyffredinol y Comisiwn Elusennau ar fudd i'r cyhoedd. Mae budd i'r cyhoedd yn ganolog i bob agwedd ar ein gwaith. Caiff yr ymrwymiad hwn ei gryfhau gan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.





Amped Up Academy, CDCCymru
(Llun: Kirsten McTernan)

A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn dyrannu arian y trethdalwr er budd i'r cyhoedd yng Nghymru.

Mae gan yr arian a ddosbarthwn nifer o ddibenion cyhoeddus:

- mae'n helpu i sicrhau y gall cynulleidfaoedd yng Nghymru fwynhau a chymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol o ansawdd da
- mae'n ei gwneud yn bosibl buddsoddi mewn comisiynu, cynhyrchu ac arddangos y celfyddydau, gan helpu i gynnal gyrfaoedd gweithwyr creadigol proffesiynol yng Nghymru
- mae'n gwneud y celfyddydau'n fwy fforddiadwy, gan ddod â nhw o fewn cyrraedd mwy o bobl
- mae'n hybu arloesi a chymryd risgiau, gan wella ansawdd ac amrywiaeth y celfyddydau sy'n cael eu creu a'u hyrwyddo yng Nghymru
- mae'n hyrwyddo blaenoriaethau diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd y Rhaglen Lywodraethu

Mae arian cyhoeddus hefyd yn helpu i fynd i'r afael â 'bylchau' yn y farchnad drwy fuddsoddi yn y gweithgareddau hynny na wnaiff, neu na all, y sector masnachol eu cefnogi. Ym mhob achos, bwriedir i'r arian a roddwn hybu'r gorau o'r celfyddydau a galluogi cynifer o bobl ag sy'n bosibl i fwynhau a chymryd rhan yn y gweithgareddau hyn.

Rydym yn gwneud gwaith ymchwil manwl bob blwyddyn i asesu i ba raddau yr ydym yn cyflawni'r nodau hyn. Yn y tudalennau canlynol, rydym yn nodi prif uchafbwyntiau ein gwaith yn ystod 2023/24 a'r budd i'r cyhoedd mae'r gweithgareddau hyn yn ei sicrhau.

2,614 o geisiadau am gyllid a broseswyd (2022/23: 1,741)

1,313 o ysgolion a gymerodd ran yn y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau ers 2015

799 o ysgolion a gymerodd ran mewn prosiectau Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol ers 2015

3,873 o ymarferwyr creadigol a gymerodd ran yn y rhaglen Dysgu Creadigol ers 2015

1,300 o ymweliadau â digwyddiadau ansawdd uchel a gefnogwyd drwy Ewch i Weld ers 2015

7,700 o athrawon a gymerodd ran yn y rhaglen Dysgu Creadigol ers 2015

234,000 o ddysgwyr a gymerodd ran mewn gweithgareddau Dysgu Creadigol ers 2015

489 o berfformiadau a gefnogwyd gan gynllun Noson Allan Cyngor y Celfyddydau (2022/23: 402)

8% o gostau rhedeg Cyngor y Celfyddydau fel cyfran o'i holl incwm (y Cyngor cyfan) (2022/23: 5%)

Draig Werdd Lefel 5 Cadwasom achrediad Lefel 5 sef y categori uchaf o berfformiad amgylcheddol

845 o fenthyciadau'r Cynllun Casglu i gynorthwyo â phrynu celfyddyd gyfoes (2022/23: 763)

Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau

Lansiwyd Dysgu creadigol drwy'r celfyddydau: cynllun gweithredu ar gyfer Cymru yn 2015 fel rhaglen pum mlynedd i ddechrau. Drwy wneud y celfyddydau a chreadigrwydd yn ganolog i addysg, mae'r cam cyntaf wedi trawsnewid profiadau dysgu dysgwyr ledled Cymru. Mae'r rhaglen arloesol hon wedi cynorthwyo ysgolion, ac yn dal i'w cynorthwyo, i ddatblygu ymagweddau newydd at gynllunio'r cwricwlwm, yn cynorthwyo athrawon i ymchwilio i ymagweddau arloesol at addysgu ac yn cynorthwyo dysgwyr i dyfu fel dysgwyr creadigol annibynnol sy'n fwy ymgysylltiedig, yn fwy hyderus ac yn cyflawni mwy.

Mae'r rhaglen a gydariannir bellach ar ei thrydydd cam, a bydd yn rhedeg hyd 2025. Mae'r rhaglen yn dal i ganolbwyntio ar ddatblygu creadigrwydd ac ymagweddau creadigol at addysgu a dysgu ledled y cwricwlwm drwy gynnig cyfleoedd i wella Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol.

Mae'n cyd-fynd â'r gwaith o gyflawni Rhaglen Lywodraethu 2021-2026, gan gynnig cyfleoedd i'n pobl ifanc fwyaf agored i niwed gyflawni eu potensial drwy ddysgu a, thrwy ein cynnig cyfoethogi'r cwricwlwm, yn cynnig profiadau diwylliannol i'r holl bobl ifanc drwy Gymru benbaladr.

Datblygu creadigrwydd yw ffocws allweddol y rhaglen o hyd, gan ddefnyddio'r celfyddydau fel yr ymyriad creadigol a dod â sgiliau a phrofiadau ymarferwyr creadigol i'r amgylchedd dysgu er mwyn gweithio mewn partneriaeth ag athrawon a dysgwyr.



Rhowch Gynnig Arni,
Ysgol Cymunedol
Sant Cenydd

Mae'r rhaglen bresennol yn cynnwys:

Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol

Ymyriad dau gam sy'n cefnogi ysgolion i ddatblygu eu hymarfer tra'n archwilio Arferion Creadigol y Meddwl a'r gofod dysgu Gweithredu Lefel Uchel yn unol â phedwar diben craidd y Cwricwlwm i Gymru; gan ddatblygu dysgwyr galluog, uchelgeisiol a hyderus, sydd hefyd yn gyfranwyr mentrus a chreadigol sydd wedi'u paratoi â sgiliau ar gyfer bywyd. Mae'r cynllun yn annog arweinwyr ysgolion i wreiddio newidiadau i addysgeg, ledled eu lleoliad, trwy ddylunio profiadau dysgu creadigol a dilys, gyda chymorth Asiantau Creadigol ac Ymarferwyr Creadigol.

Cynefin: Cymru ddiwylliannol ac ethnig amrywiol

Rhoddir cyfle i ysgolion weithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol creadigol i ymchwilio i amrywiaeth yng Nghymru, yn y gorffennol a'r presennol. Mae athrawon a dysgwyr yn gweithio'n gydweithredol gyda gweithwyr proffesiynol creadigol y mae eu profiad byw yn sicrhau 'cyfleoedd dysgu dilys' sy'n cysylltu'r cwricwlwm â byd go iawn y dysgwyr a'u cymunedau.

Rhaglen Arweinyddiaeth Greadigol

Nod y rhaglen yw hybu hyder mewn ffyrdd newydd o weithio, arloesi, myfyrio a chydnerthedd tra'n datblygu dealltwriaeth o rôl creadigrwydd hefyd yng nghydestun y Cwricwlwm i Gymru, y pedwar diben a'r Safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Dysgu creadigol yn y blynyddoedd cynnar

Wedi'i dylunio i ategu'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin a ariennir, nas cynhelir yng Nghymru, mae'r fenter hon yn creu cyfleoedd sy'n ysbrydoli i artistiaid a lleoliadau blynyddoedd cynnar gydweithredu drwy brosiectau a ddatblygwyd ar y cyd gan weithio gyda dysgwyr 3-4 oed. Mae'n cefnogi creadigrwydd a chwilfrydedd naturiol plant ac yn ysbrydoli ymarferwyr y blynyddoedd cynnar â syniadau a dulliau newydd i alluogi arferion creadigol y meddwl yn eu hymarfer, ar draws y cwricwlwm a ledled eu lleoliad. Mae'r rhaglen hon yn cael ei chyflwyno mewn partneriaeth â Blynyddoedd Cynnar Cymru ac yn cael ei hariannu'n rhannol gan Sefydliad Paul Hamlyn.

Ewch i Weld

Yn cynnig grantiau gwerth hyd at £1,000 y gellir eu defnyddio i dalu am ymweliadau â digwyddiadau celfyddydol ansawdd uchel mewn orielau, theatrau, canolfannau celfyddydau a lleoliadau eraill. Gallai digwyddiadau gynnwys ymweliadau â pherfformiadau ac arddangosfeydd neu ymweliadau i brofi gweithwyr celfyddydol proffesiynol yn datblygu a chreu eu gwaith.

Rhowch Gynnig Arni

Wedi'i dylunio i roi cyfleoedd i ddysgwyr 11-16 oed rhoi cynnig ar weithgaredd neu weithdy ymarferol untro er mwyn cefnogi ysgolion i gyflenwi Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol. Mae'r gronfa'n cynnig grantiau gwerth hyd at £1,500 a chaiff ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth, unedau cyfeirio disgyblion a/neu sefydliadau celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru ymgeisio.



Ers 2015 mae Dysgu Creadigol Cymru wedi:

- ymgysylltu â mwy na 1,313 o ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth (90% o'r ysgolion yng Nghymru)
- cynnwys 799 o ysgolion mewn ymholiadau dysgu creadigol dwys trwy'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol
- cefnogi prosiectau Cynefin mewn 95 o ysgolion
- gweithio gyda 72 o arweinwyr ysgol i archwilio arweinyddiaeth greadigol a rhannu arferion gorau
- cefnogi 37 o leoliadau Blynyddoedd Cynnar yng nghamau un a dau ac yn anelu at gyrraedd cyfanswm o 70
- sicrhau bod 234,000 o ddysgwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu celfyddydol a chreadigol
- galluogi 7,701 o athrawon i gymryd rhan mewn datblygiad a hyfforddiant proffesiynol wedi'i gysylltu â datblygu sgiliau creadigol yn y celfyddydau mynegiannol
- gweld 3,873 yn cymryd rhan gydag ymarferwyr creadigol
- cefnogi mwy na 1,300 o ymweliadau â digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol o ansawdd uchel mewn orielau, theatrau, canolfannau celfyddydau a lleoliadau eraill trwy Ewch i Weld
- wedi ariannu 87 o gyfleoedd i athrawon a dysgwyr yn ein hysgolion i weithio gydag artistiaid a sefydliadau celfyddydol/diwylliannol/treftadaeth ar ystod o weithgareddau'r celfyddydau mynegiannol trwy raglen Rhowch Gynnig Arni

Ein perfformiad

Blwyddyn o berfformiad
cryf yn erbyn ein
hamcanion corfforaethol



CDCymru, Faye Tan o flaen
cerflun gan Cecile Johnson Soliz




Roedd 2023/24 yn flwyddyn drosiannol wedi i'n Cynllun Corfforaethol blaenorol “Er Budd Pawb” ddod i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2023, cyn lansio ein Fframwaith Strategol 10-mlynedd newydd. Mae ein Cynllun Blynyddol 2023/24 yn cyflwyno'r prif dasgau wedi'u mapio yn erbyn ein tri nod – Datblygu, Cysylltu, Hyrwyddo – a'r chwe egwyddor a ddatblygwyd yn ystod ein Harolygiad Ariannol. Dyluniwyd y rhain i adlewyrchu agweddau ar y sector sydd angen newid cadarnhaol, gweithredu a gwerthuso, ac i alinio â 7 nod Llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Nodasom 12 rhaglen waith allweddol gan amlygu'r blaenoriaethau allweddol a'r camau gweithredu cyfatebol ym mhob un. Cafodd pob maes rhaglen ei fapio yn erbyn ein 6 egwyddor gyhoeddedig a 6 blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yn Llythyr Cylch Gwaith y Rhaglen Lywodraethu.

Cafodd cynnydd ei fonitro gydol y flwyddyn drwy adroddiadau cynnydd chwarterol a gyflwynwyd i'r Cyngor ac i Lywodraeth Cymru. Buom hefyd yn cyfarfod pob chwarter â swyddogion Llywodraeth Cymru.

Llwyddasom i gyflawni yn erbyn 9 o'r 12 maes rhaglen allweddol a 69% o'n tasgau. Ar ddiwedd y flwyddyn:

- roedd 33 o 48 o dasgau wedi'u cwblhau'n llwyddiannus
- cafwyd cynnydd mewn 14 tasg
- nid oedd modd bwrw ymlaen ag un dasg, sef dynodi arian o ffynonellau presennol a newydd er mwyn codi proffil y sector trwy waith eirioli parhaus a chymorth ariannol, yn yr hinsawdd ariannol bresennol a gan ystyried y cyhoeddiad yn ystod y flwyddyn o doriad 10.5% i'n cyllid ar gyfer 2024/25 gan Lywodraeth Cymru.



Yr argyfwng ariannol a'r costau byw sy'n cynyddu'n gyflym a wynebir gan bawb ohonom, sydd wedi parhau i fod amlycaf eleni. Rydym yn ymwybodol iawn o'r effaith sylweddol mae hyn wedi'i chael ar y Sector, yn enwedig wrth iddo geisio rheoli ei gostau cynyddol ei hun a dod o hyd i ffyrdd i wella niferoedd cynulleidfaoedd a chyfranogwyr yn dilyn effaith y pandemig diweddar.

Wynebasom ein heriau ein hunain yn ystod 2023/24. Gwnaethom fwrw ymlaen â'n prif feysydd gweithgarwch yn erbyn cefndir o bwysau ariannol a arweiniodd at ail-broffilio ein gwariant ein hun a rhaglen o ddiswyddo gwirfoddol. Daeth ailstrwythuro ar lefel uwch arweinwyr i rym o fis Ebrill 2024.

Datblygu ein Hadolygiad Buddsoddi

- Cyflwynodd yr Adolygiad Buddsoddi hwn y dull newydd o opsiynau ariannu aml-flwyddyn i sefydliadau.
- Asesodd swyddogion 139 o geisiadau dilys, y nifer fwyaf erioed, ar sail a geisiai bwrw ymlaen â'n 6 egwyddor gyhoeddedig a 5 ffactor cydbwysu. Ystyriodd y Cyngor yr argymhellion hyn a chyhoeddi ei benderfyniadau a chynigion cychwynol i 81 o sefydliadau llwyddiannus ym mis Medi 2023. Nid oedd 23 ohonynt wedi sefydlu trefniant ariannol o'r math hwn o'r blaen. Yn dilyn diwedd proses Apelio'r Adolygiad Buddsoddi a chadarnhau ein cyllideb ar gyfer 2024/25 gan Lywodraeth Chymru, cadarnhawyd cynigion terfynol i'r sefydliadau ym mis Chwefror 2024, a dechreuwyd y gwaith o drafod Cytundebau Ariannu newydd gyda phob un ohonynt.
- Hefyd, pennwyd 14 o ymrwymïadau gan yr Adolygiad Buddsoddi a fyddai'n helpu i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth o weithgareddau creadigol ledled Cymru.



Datblygu ein Fframwaith Strategol a chynlluniau ategol



Côr Cenedlaethol Ieuencid Cymru, Celfyddydau
Cenedlaethol Ieuencid Cymru (Llun: Evan Dawson)

- Cymeradwywyd Fframwaith Strategol drafft yn y lle cyntaf gan y Cyngor ym mis Mawrth 2023. Gohiriwyd unrhyw waith pellach arno hyd nes penderfyniadau'r Adolygiad Buddsoddi a datblygu drafft cyntaf y Fframwaith Diwylliant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Fframwaith Strategol drafft a ddiweddarwyd yn cael ei baratoi i gael ei gymeradwyo, cyn ei lansio yn 2024/25.
- Roedd y Cynllun Blynyddol 2023/24 ategol yn adlewyrchu fformat y Fframwaith ac yn blatfform i'r gwaith monitro ac adrodd cychwynnol arno.
- Mae cynlluniau ychwanegol sy'n alinio yn cael eu datblygu. Maent yn canolbwyntio ar Gyfiawnder Newid Hinsawdd yn y Celfyddydau, Cydraddoldeb, Rhyngwladol a'r Gymraeg.
- Yn symud ymlaen, mae ein holl waith yn seiliedig ar ein 6 egwyddor a'n 5 ffactor cydbwysu.

Canfod ffyrdd o gynnal gweithgarwch celfyddydol a datblygu llwybrau gyrfa cynaliadwy a chynhwysol yn y celfyddydau

- Cynigiwyd cymorth strategol **datblygu busnes a chostau byw** i fwy na 80 o unigolion a sefydliadau.
- Yn dilyn yr **Adolygiad Buddsoddi** cyhoeddasom sawl **ymyrraeth strategol** er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r bylchau presennol yn y ddarpariaeth o weithgareddau creadigol ledled Cymru. Defnyddir arian y Loteri i'w datblygu.
- Parhaom i archwilio'r maes gwaith hwn gyda chydweithwyr **Dysgu Creadigol** a phartneriaid allanol fel **Cymru Greadigol a Gyrfa Cymru**. Ystyriwyd camau gweithredu a gododd o'r grŵp **Llawrydd a Sector Cyhoeddus**, ynghyd â'r sgiliau a bennwyd yn flaenoriaeth strategol yn ein Hadolygiad Buddsoddi ac yn ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a chorff Cymru Greadigol, gyda chorff Cymru Greadigol, yr undebau, **Awdurdodau Lleol** a phartneriaid eraill. Rydym yn archwilio'r broses o gysylltu ein gwaith Dysgu Creadigol â chyfleoedd gyda'r diwydiant.
- Mae gwaith eirioli dros gyflog deg a chyfleoedd datblygu proffesiynol a hyfforddiant parhaus yn ystyriaeth allweddol o'n hegwyddor **Meithrin Talent** ac roedd rhaid i ymgeiswyr i'r Adolygiad Buddsoddi rhoi tystiolaeth ohono. Caiff ymrwymadau i'r gwaith hwn eu cynnwys yn y cytundebau ariannu aml-flwyddyn newydd, ac maent hefyd wedi'u hadlewyrchu yn amodau ein rhaglenni a ariennir gan y Loteri.
- Noddwyd dau le yn **Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol** gennym, ar gyfer pobl sy'n gweithio yn y celfyddydau. Cynllun yw hwn ar gyfer arweinwyr ifanc 18-30 oed a gynhelir gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Graddiodd y cyfranogwyr ym mis Chwefror 2024.

Datblygu mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc

- Parhaom i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a'r sector addysg i gyflawni blwyddyn 2 yr estyniad 3-blwyddyn i'n rhaglen flaenllaw **Dysgu Creadigol**, yn cydweithredu ag ysgolion wrth iddynt baratoi, gweithredu a chyflawni Cwricwlwm i Gymru.
- Dechreuasom edrych ar gyfleoedd ychwanegol i blant a phobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uchel ac sy'n wynebu heriau bywyd, a ffyrdd o gynnwys eu lleisiau yn ein gwaith datblygu polisi. Roedd hyn yn cynnwys cyflawni argymhellion **Adroddiad Celfyddydau Ieuentid 2021/22**, cysylltu â **Rhwydwaith Celfyddydau Ieuentid Cymru**, **Celfyddydau Cenedlaethol Ieuentid Cymru** a sefydliadau eraill a ariennir yn aml-flwyddyn. Hefyd, mynychasom **Grŵp Plant a Phobl Ifanc DU-gyfan y Loteri Genedlaethol**.
- Cyfranasom at **Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2023 Llywodraeth Cymru**.



Jukebox Collective x Bleak Fabulous,
Clementine Schneiderman (Llun: Charlotte James)

Bwrw ymlaen â'n rhaglen Celfyddydau ac Iechyd a'n Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'n partneriaeth â Chydffederasiwn y GIG

- Parhaom i gryfhau ein henw da sy'n arwain y byd drwy gynnal ymweliadau rhyngwladol, gan gynnwys dirprwyaeth o **Fflandrys** ym mis Mawrth 2024. Ysgogwyd llawer o ddiddordeb a dysgu gan **Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol** a'r polisiau a arweiniodd at sefydlu'r bartneriaeth rhwng y GIG, Llywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru.
- Parhaodd ein gwaith gyda **Byrddau Iechyd** i dyfu ac ymwreiddio, gyda phrosiectau a ariennir gan y Loteri fel **Lle i Dyfu** (mae'r partneriaid yn cynnwys **Caerdydd a'r Fro** ac **Urban Vertical**) yn dod â'r Byrddau Iechyd yn agosach i'w cymunedau ac yn darparu cysylltiadau hanfodol i gyfranogwyr rhwng gwasanaethau ar bwytiau pontio allweddol. Roedd y rhaglenni'n cefnogi llesiant y rhai ar y rheng-flaen a hefyd yn cynnig i'r rhai a gymerodd rhan brofiad a dysgu llaw gyntaf o effaith y gwaith hwn. Yn ei dro, cyfrannodd hwn at newid diwylliant yn y Byrddau Iechyd o ran croesawu buddion y rhaglen Celfyddydau ac Iechyd.
- Sicrhaom drosglwyddiad **Cwtsh Creadigol**, ein hyb creadigol ar-lein sy'n comisiynu ac arddangos cynnwys creadigol gan artistiaid i weithwyr iechyd a gofal, i **Iechyd Cyhoeddus Cymru** fel rhan o'i rhaglen **Hapus**.
- Buom yn gweithio â **Llywodraeth Cymru** i sicrhau cydgynllun ar gyfer cyflenwi rhaglen celfyddydau, iechyd a llesiant yn y dyfodol.
- Parhaodd ein partneriaeth gweithio agos â **Sefydliad Baring** ar ystod eang o faterion yn ymwneud â'r celfyddydau ac iechyd, yn enwedig mewn perthynas â'r **Celfyddydau ac Iechyd Meddwl**. Canolbwyntiasom ar gwblhau ail flwyddyn ein rhaglen **Celfyddyd a Chrebwyll** gyda'r Byrddau Iechyd. Mae pob Bwrdd Iechyd wedi parhau i gyflawni gwaith mewn partneriaeth â'i Gwasanaeth Iechyd Meddwl dewisol. Rhannwyd llawer o'r gwaith hwn yng nghynhadledd celfyddydau, iechyd a llesiant Gwehyddu **Rhwydwaith Iechyd a Llesiant Celfyddydau Cymru**, ym mis Hydref 2023. Rydym yn cynnal sgysiau cadarnhaol â Sefydliad Baring a'r Byrddau Iechyd i benderfynu ar bamedrau ariannu'r gwaith hwn am 3 blwyddyn arall.

Datblygu ymagwedd at y celfyddydau a diwylliant sy'n hyrwyddo cydraddoldeb yn weithredol ac yn ymestyn ein gwaith ymgysylltu ag unigolion a chymunedau ledled Cymru yn penderfynu beth yw ystyr diwylliant, ble mae'n digwydd a phwy sy'n ei greu ac yn ei brofi

- Roedd anghenion a dymuniadau cynulleidfaoedd a chyfranogwyr yn allweddol i benderfyniadau ein Hadolygiad Buddsoddi. Hoffem i'n harian gefnogi creadigrwydd sy'n manteisio ar gyfleoedd newydd ac yn cymryd risgiau, yn gydnerth ac yn ymateb i newid, ac yn parhau'n berthnasol i bobl a chymunedau Cymru. Byddwn yn cefnogi sefydliadau gall dangos ymrwymiad i roi platfform i gymunedau wedi'u hymyleiddio yng Nghymru.
- Gosododd ein rhaglen loteri **Llais y Lle** 9 unigolyn creadigol mewn 9 cymuned wahanol ledled Cymru i weithio'n gydweithredol ac yn greadigol er mwyn cynyddu'r defnydd a'r berchnogaeth o'r Gymraeg. Bydd asesiad ac adroddiad o'r canfyddiadau'n cael eu llunio ym mis Mehefin 2024. Derbyniodd 17 o unigolion arian yn ystod yr ail flwyddyn o weithredu'r rhaglen.
- Mae llawer o'n prosiectau **Celfyddydau, Iechyd a Lles** o fudd i grwpiau a thangynrychiolwyd ac wedi'u hymyleiddio, gan gynnwys y rhai sy'n ymadfer o gaethiwed; staff y GIG sy'n wynebu risg hunanladdiad; pobl ifanc ag anhwylderau bwyta a gorbryder gwael; rhieni newydd â phroblemau iechyd meddwl; oedolion hŷn wedi'u hynysu, ynghyd â phobl sy'n byw gyda chlefyd Parkinson a dementia.
- Symudom ymlaen â nifer o gamau gweithredu yn ein **Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad** mewn partneriaeth ag **Amgueddfa Cymru**, gan gynnwys cyflawni meysydd hyfforddiant a bennwyd i staff.
- Symudom ymlaen â'n cynlluniau **Camau Creadigol a Hynt**, gan gynnwys gwerthusiad ac adroddiad effaith ar gyfer Hynt wrth i'r cynllun ddathlu ei ben-blwydd yn 10 oed. Mae Hynt hefyd yn sail i waith datblygu a lansiad cynllun cerdyn mynediad DU-gyfan, 'All In'.
- Lansiasom **Safbwynt(iau)**, rhaglen ariannu 2-flwyddyn unigryw i'r celfyddydau gweledol a'r sector treftadaeth yng Nghymru er mwyn datblygu naratifau a ffyrdd o weithio sy'n rhoi hanes cytbwys, dilys a dad-drefedigaethol o Gymru, ac adlewyrchiad o Gymru heddiw.

Bwrw ymlaen â'n hymrwymiad i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y celfyddydau

- Datblygasom gynllun **Cymraeg** i'w lansio yn 2024/25. Cafodd ei lywio gan gyfres o drafodaethau agored a chyfarfodydd unigol â sefydliadau ac unigolion allweddol; gan waith archwiliadol y **Consortiwm Cymraeg**; canfyddiadau'r prif feysydd a bennwyd gan Ysgogydd y Gymraeg, a gan adroddiadau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Bydd asesiad o flwyddyn gyntaf gweithredu Llais y Lle yn llywio'r cynllun hefyd.
- Mae ein hadnodd ymarferol ar-lein i helpu rhoi'r Gymraeg wrth galon creadigrwydd **Synhwyro'r Iaith**, yn tyfu ac yn bwydo i mewn i'r rhaglen **Dysgu Creadigol**.
- Buom yn gweithio gyda **Chyfieithwyr Cymru** a **Chonsortiwm Celfyddydau Cymru** yn archwilio technegau ac anghenion posibl o ran cyfieithu hunaniaeth/cyfieithu creadigol. Mae **Cymraeg yn y Canol** wedi bwydo i mewn i'r gwaith o greu'r cynllun Cymraeg a'r anghenion parhaus a chymorth i sefydliadau trwy anghenion yr Adolygiad Buddsoddi, gan gynnwys y **Cynnig Cymraeg** a chefnogi unigolion i ddysgu Cymraeg.



Cwrdd â'r Artistiaid, Llantarnam Grange

Codi proffil sector y celfyddydau yng Nghymru ac yn rhyngwladol

- Roedd ein **Cronfa Gwranddo**, a ganiatâ i artistiaid yng Nghymru wrando ar ieithoedd ac arferion brodorol ar draws y byd, yn cynnwys gweithdy wyneb yn wyneb gyda mewnbwn digidol gan artistiaid rhyngwladol fel Taloi Havini, enillydd Artes Mundi, yn cipio dysgu artistiaid ar draws y rhaglen.
- Roedd **#pethaubychain**, ymgyrch digidol a guradwyd ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi, yn tynnu sylw at artistiaid a gwaith o Gymru ac yn canolbwyntio ar lesiant. Buom yn cefnogi swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi hefyd, drwy raglennu cynnwys artistig wyneb yn wyneb a digidol megis **Vri** yn India; **Qwerin** ym Mrwsel, a digwyddiadau yn Llundain.
- Buom yn ystyried cwmpas gwaith gyda Llywodraeth Cymru a'r **British Council** ar gyfer **Blwyddyn Cymru yn India Llywodraeth Cymru** er mwyn llywio'r rhaglen gelfyddydol ar gyfer y flwyddyn a chyfranogi at **grŵp Rhanddeiliaid India**. Roedd gweithgareddau'r lansiad yn cynnwys perfformiadau **Vri** ar draws India, a gweithdai a darlenniadau gan **Fardd Plant Cymru** a **Nia Morais**, yn **Ffair Llyfrau Kolkata**.
- **Magnetic 2** oedd ail rifyn y fenter **DU-Ffrainc**, gyda'r artist o Gymru **Tom Cardew** yn preswyllo yn **Frac Bretagne, Rennes/Llydaw** a'r artist o Ffrainc **Maxime Voidy** yn preswyllo yng **Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth**. Cytunwyd ar gyllid ar gyfer **Magnetic 3** gan yr holl bartneriaid ac mae cynlluniau cyfathrebu yn eu lle.
- Yn dilyn yr ymweliad ymchwil llwyddiannus â Llydaw ym mis Hydref 2023 gan aelodau **Grŵp Celfyddydau Gweledol Cymru**, ymwelodd y partneriaid o Lydaw â Chymru ym mis Chwefror 2024. Rhoddodd hyn gyfle iddynt gwrdd ag artistiaid a churaduron o Gymru, i ymweld â detholiad o orielau Cymru, a gweld yr arddangosfeydd **AM10**. Mae trafodaethau ar y gweill fel sail i berthnasoedd a chysylltiadau, gyda rhywfaint o adnoddau ac ymrwymiad cychwynnol gan bartneriaid strategol o **Gymru/Ffrainc y DU**.
- Rhoesom gyngor i **Lywodraeth Cymru** ar lwybrau ariannu i'r dyfodol mewn partneriaeth â **Llywodraeth Quebec** yng Nghanada.
- Paratoesom ar gyfer y **Fforwm Symudedd Diwylliannol**, a gafodd ei gynnal gan **On the Move** a'n tîm Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yng Nghaernarfon ym mis Ebrill 2024.
- Cyflwynasom **Lleuwen** a **Phedair** yn **Showcase Scotland** ym mis Ionawr 2024.

Cefnogi cynllun gweithredu deng mlynedd Carbon Net 0 Llywodraeth Cymru



- Lluniasom ddrafft o **Gynllun Cyfiawnder Newid Hinsawdd yn y Celfyddydau** ar y cyd â chorff **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**, a gaiff ei lansio yn 2024/25. Parhaom i lywio ymchwil Llywodraeth Cymru i'r sector diwylliannol a'r argyfyngau hinsawdd a natur, a buom yn gweithio'n agos i sicrhau aliniad â'n Cynllun Gweithredu Cyfiawnder Newid Hinsawdd.
- Mae ein cyd-fenter â CNC, y **Rhaglen Natur Greadigol**, wedi cyrraedd ei hail flwyddyn. Mae gweithgareddau'r rhaglen 2023-25 yn cynnwys ail gylch **Cymrodoriaeth Cymru'r Dyfodol**, yn canolbwyntio ar y thema 'cysylltiad â byd natur' ac mewn partneriaeth â'r **Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Cwm Elan a Peak Cymru**. Bu 8 artist (o'r 189 o geisiadau) yn llwyddiannus ac mae'r rhaglen wedi hen ddechrau.
- Ychwanegwyd edefyn natur i gronfa'r **Celfyddydau, Iechyd a Lles**. Mae'r prosiectau hyd yma'n cynnwys partner byd natur/amgylcheddol.
- Rydym yn cefnogi elfen Rhaglen Ymgysylltu drwy'r Celfyddydau prosiect blaenllaw adfer natur **CNC, Natur am Byth**.

Archwilio ein ffyrdd gweithio ein hunain er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu ein harferion a'n partneriaethau ein hunain er mwyn cynyddu i'r eithaf ein harbedion effeithlonrwydd a diogelu ein hadnoddau er mwyn datblygu a chefnogi'r celfyddydau yng Nghymru

- Sefydlasom Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu a symleiddio ein prosesau ar ein cyfer ni ac ar gyfer ymgeiswyr grant.
- Dechreuom gymhwyso'r ffactorau cydbwysu a'r data ategol a ddatblygwyd ar gyfer ein Hadolygiad Buddsoddi i feysydd eraill o'n gwaith. Bydd hyn yn llywio ein polisi a'n penderfyniadau, gan greu cyfleoedd i fwy o bobl mwynhau'r celfyddydau mewn ffurfiau newydd a chyffrous. Caiff ein Hadroddiad Blynyddol ei gyflwyno trwy ddangosfwrdd ar-lein Power BI, a fydd yn caniatáu i'r wybodaeth gael ei chwestiynu yn ôl, er enghraifft, ffurf o gelfyddyd, daearyddiaeth, iaith, cyfraddau llwyddiant, ac unigolion/sefydliadau.
- Parhaom i gynnwys Cydweithwyr Celfyddydol yn y gwaith o wneud penderfyniadau ar gyfer ein rhaglenni a ariennir gan arian y Loteri. Cafodd y Cydweithwyr eu penodi a'u cynnwys fel rhan o'r Arolygiad Buddsoddi.
- Mae gwaith ailddatblygu **Theatr Clwyd** yn mynd rhagddo yn dda. Cytunwyd ar Weithred Cyfamod â pherchnogion yr adeilad, **Cyngor Sir y Fflint** er mwyn rhyddhau arian i'r prosiect.
- Rydym wedi parhau i weithio â Chynghorau Celfyddydau y DU ac Iwerddon ar fentrau penodol, gan gynnwys cymryd rhan yn y cynulliad **Nordic Baltic UK Ireland** yn Glasgow a ganolbwyntiodd ar rym cydweithredu rhyngwladol.
- Mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth â chorff **Cymru Greadigol** ar waith ac mae gennym Gytundeb Partneriaeth ar waith gydag **Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru** er mwyn symud ymlaen â'r gwaith o ddatblygu **Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru** gydag arian gan Lywodraeth Cymru.
- Ehangwyd ar ein gweithio mewn partneriaeth â **Chomisiynydd y Gymraeg a'r Ganolfan Dysgu Gymraeg Cenedlaethol**.



Cerdd y Dyfodol, Celfyddydau Cenedlaethol
Ieuencid Cymru, (Llun: Evan Dawson)






- Mae BBC Cymru wedi ymrwymo i roi cefnogaeth barhaus i brosiect **Horizons/Gorwelion** am dair blynedd, felly bydd y cyd-ariannu'n parhau yn 2024/25.
- Rydym yn parhau i ddatblygu ffyrdd newydd i gyrraedd ein gwybodaeth. Mae'r holl ddogfennau a gyhoeddir ar gael yn Gymraeg, Saesneg, Iaith Arwyddion Prydain ac mewn fformatau Hawdd ei ddeall a Phrint bras. Cynhyrchwyd fideos ar gyfer ein prif gyhoeddiadau gan gynnwys yr Adolygiad Buddsoddi. Cafodd ein proses ymgeisio am grant ei wella er mwyn derbyn ceisiadau fideo a sain, gan wella hygyrchedd ein cyfleoedd i gael arian grant.
- Rydym wedi sefydlu **model gweithio hybrid** ac felly wedi edrych ar ein gofynion swyddfa. Rydym wedi lleihau ein gofod yng Nghaerdydd o ddau lawr a hanner i un llawr, a fydd hefyd yn cyflawni arbediad cost sylweddol dros dymor y les sy'n weddill.

Llywodraethu Corfforaethol








Ein Hymddiriedolwyr

Aelodau'r Cyngor a wasanaethodd
ers 1 Ebrill 2022 oedd:





Presenoldeb Ymddiriedolwyr mewn
cyfarfodydd yn ystod 2023/24

	Cyngor	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	Pwyllgor Cyfalaf	Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydabyddiaeth Ariannol	Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol	Pwyllgor y Gymraeg	Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol
	Nifer o gyfarfodydd a gynhaliwyd						
	10	7	4	4	0	3	4
 <p>Maggie Russell Cadeirydd ers 1 Ebrill 2023</p>	10						
 <p>Kate Eden ers 1 Ebrill 2017 i 30 Medi 2023 Is-gadeirydd hyd 30 Medi 2023 Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg hyd 30 Medi 2023</p>	6/7	3/3					
 <p>Lhosa Daly ers 1 Ebrill 2019 Aelod o Bwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol hyd 31 Gorffennaf 2023 Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ers 1 Ionawr 2024</p>	6	2/2					1/1
 <p>Ceri Ll Davies ers 1 Ebrill 2021 Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (Cadeirydd o 1 Hydref hyd 31 Rhagfyr 2023) Aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol</p>	10	7			Amh.		
 <p>Devinda De Silva ers 1 Ebrill 2019 Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol</p>	8				Amh.		

Presenoldeb Ymddiriedolwyr mewn cyfarfodydd yn ystod 2023/24

	Cyngor	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	Pwyllgor Cyfalaf	Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol	Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol	Pwyllgor y Gymraeg	Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol
	Nifer o gyfarfodydd a gynhaliwyd						
	10	7	4	4	0	3	4
 <p>Ruth Fabby MBE ers 1 Ebrill 2021 Aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol</p>	8				Amh.		
 <p>Yr Athro Tudur Hallam ers 1 Ebrill 2019 Cadeirydd Pwyllgor y Gymraeg</p>	7					3	
 <p>Emily Hutchings ers 12 Mehefin 2023</p>	6/8						
 <p>Gwennan Mair Jones ers 1 Ebrill 2019 Aelod o Bwyllgor y Gymraeg Cadeirydd Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol</p>	8					1	3
 <p>Tafsila Khan ers 1 Ebrill 2021 i 31 Mawrth 2024 Aelod o'r Pwyllgor Cyfalaf hyd 31 Mawrth 2024</p>	7		4				
 <p>Alison Mears Esswood ers 1 Ebrill 2019 Aelod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol</p>	9			3			
 <p>Keith Murrell ers 1 Ebrill 2021 Aelod o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol</p>	9			4			

Presenoldeb Ymddiriedolwyr mewn cyfarfodydd yn ystod 2023/24

	Cyngor	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	Pwyllgor Cyfalaf	Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol	Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol	Pwyllgor y Gymraeg	Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol
	Nifer o gyfarfodydd a gynhaliwyd						
	10	7	4	4	0	3	4
 <p>Victoria Provis ers 1 Ebrill 2019 Cadeirydd y Pwyllgor Cyfalaf</p>	8		4				
 <p>Elen ap Robert ers 1 Ebrill 2021 Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol Aelod o Bwyllgor y Gymraeg</p>	10			4		3	
 <p>Prue Thimbleby ers 1 Ebrill 2021 Cadeirydd Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol</p>	7						4
 <p>Dr Sarah Younan ers 1 Ebrill 2019 Aelod o Bwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol</p>	4						3/3

Presenoldeb aelodau annibynnol o Bwyllgorau mewn cyfarfodydd yn ystod 2023/24

	Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg	Pwyllgor Cyfalaf	Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol	Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol	Pwyllgor y Gymraeg	Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol
	Nifer o gyfarfodydd a gynhaliwyd					
	7	4	4	0	3	4
Andrew Butler	6					
Elid Morris	5					
Arwel Thomas	7					
Ruth Cayford		2				
Michael Gwyther-Jones		4				
Jayne Woods		4				
Steve Burton			3			
Wendy Rees			4			
Guto Gwilym-Taylor				Amh.		
Lara Ratnaraja				Amh.		
Shereen Williams (hyd 27 Medi 2023)				Amh.		

Yn unol â Chod Ymarfer Gorau'r Cyngor, mae aelodau o'r Cyngor ac aelodau annibynnol o Bwyllgorau'n gwneud datganiadau o fuddiant mewn perthynas â chyfarwyddiaethau, aelodaeth o fyrddau rheoli (neu gyrff cyfatebol) neu gyflogaeth a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau parthed Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae cofrestr buddiannau Aelodau'r Cyngor ac aelodau annibynnol o Bwyllgorau ar gael i'r cyhoedd ei gweld, o wneud apwyntiad, ym mhob un o swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol.

Caiff pob trafodyn ariannol rhwng aelodau a'r Cyngor, ac eithrio cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd, eu datgelu yn y datganiadau ariannol o dan *Drafodion â phartion cysylltiedig*.

Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Mae gan y Cyngor reolaethau a pholisïau ar waith i sicrhau cyfanrwydd data. Mae systemau TGCh yn sicrhau bod rheolaeth gaeth ar ddiogelwch ffisegol y data. Cafwyd dau achos pitw o dor diogelwch data personol yn ystod y flwyddyn. Cafodd pob un ei asesu'n briodol ac nid oedd yr un ohonynt yn y categori o fod angen rhoi gwybod amdano i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Ein Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

Dafydd Rhys

Ein Swyddfeydd

Canolbarth a Gorllewin Cymru

Yr Egin
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Gogledd Cymru

Parc y Tywysog II
Rhodfa'r Tywysog
Bae Colwyn
LL29 8PL

De Cymru a'r sywyddfa genedlaethol

Plas Bute
Caerdydd
CF10 5AL

Archwilydd – Gweithgareddau Cyffredinol

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Archwilydd – Dosbarthu Arian y Loteri

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain
SW1W 9SP

Archwilwyr ariannol mewrol

TIAA Ltd
Artillery House
Fort Fareham
Fareham
PO14 1AH

Cyfreithwyr

Geldards LLP
Tŷ Dumfries
Plas Dumfries
Caerdydd
CF10 3ZF

Bancwyr

Santander UK p.l.c.
9 Heol y Frenhines
Caerdydd
CF10 2UD

Datganiad Llywodraethu

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn gyfrifoldeb personol i mi, Dafydd Rhys, Swyddog Cyfrifyddu a Phrif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'n disgrifio trefniadau llywodraethu Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae hefyd yn disgrifio sut yr wyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau am sicrhau ein bod yn cynnal ein busnes, o ran gweithgarwch y trysorlys a'r Loteri, yn unol â'r gyfraith. Mae hyn yn cynnwys darparu'r sicrwydd angenrheidiol ein bod yn cadw at y safonau priodol ac yn sefydlu'r trefniadau diogelu angenrheidiol i amddiffyn y defnydd o arian y cyhoedd.

Rwy'n esbonio sut y cyfrifyddir yn iawn am yr arian hwn a sut y caiff ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol i gynorthwyo â chyflawni ein cynlluniau a'n blaenoriaethau.

Y fframwaith deddfwriaethol

Rydym yn gweithredu mewn amgylchedd cyfreithiol sydd wedi'i bennu a'i reoleiddio'n ofalus. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn atebol i Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol. Mae ein gwaith hefyd yn destun craffu gan Bwyllgorau Senedd Cymru. Rydym yn gweithio o fewn fframwaith sy'n nodi'r telerau a'r amodau y mae Gweinidogion Cymru'n darparu ein cyllid cymorth grant o danynt, a sut y gallwn ddefnyddio'r cyllid hwn. Rydym yn rheoli ein harian gydag uniondeb ac er budd y cyhoedd ac, ynghyd â chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, yn cadw at yr egwyddorion a geir yn y ddogfen *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru*.

A ninnau'n ddosbarthwr arian y Loteri o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd), rydym yn atebol i Ysgrifennydd Gwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Cawn ein cyfarwyddiadau ariannol oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol a'n cyfarwyddiadau polisi gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain yn nodi sut mae'n rhaid inni weithredu o ran gweithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

Mae'n ofynnol inni roi cyfrif am ein gweithgarwch dosbarthu arian y Loteri ar wahân i weddill ein gwaith, ac mae gennym drefniadau priodol ar waith i sicrhau y cynhyrchwn ddwy set o gyfrifon cyhoeddedig. Mae ein cyfrifon Dosbarthu Arian y Loteri yn cael eu harchwilio o dan gontract gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol gan Archwilio Cymru. Mae Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol.





A ninnau'n elusen, rhaid inni sicrhau ein bod yn cydymffurfio â gofynion y Deddfau Elusennau. Felly, dilynwn ganllawiau a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusennau, gan weithredu'n unswydd i gyflawni ein hamcanion elusennol a siartredig.

Mae'r gweithgareddau yr ydym yn eu cyflawni mewn cysylltiad â'n **Cynllun Casglu** yn ddarostyngedig i Ddeddf Credyd Defnyddwyr ac i'r canllawiau a gyhoeddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

Rydym wedi dylunio ein systemau, ein prosesau a'n rheolaethau i gymryd i ystyriaeth y gwahanol gyfrifoldebau hyn. O fewn y fframweithiau hyn gwnawn benderfyniadau annibynnol ynghylch cyfeiriad strategol y sefydliad, cyllid grantiau, a phenderfyniadau ariannol eraill.

Mae asesu a rheoli risg yn sylfaenol i'n gweithrediadau a dylid darllen y Datganiad Llywodraethu hwn ar y cyd â'r adran Prif risgiau ac ansicrwydd yn yr Adroddiad ar Berfformiad.

Pe bai'r angen yn codi, gall y cyrff canlynol ymchwilio i fusnes y Cyngor: **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**, y **Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu**, y **Comisiwn Elusennau**, y **Comisiynydd Gwybodaeth**, y **Swyddfa Archwilio Genedlaethol**, ac **Archwilio Cymru**.

Ein trefniadau Llywodraethu

Cawn ein llywodraethu gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr – y Cyngor – sy'n cynnwys Cadeirydd a hyd at ddau ar bymtheg o aelodau annibynnol eraill, a phenodir un ohonynt yn Is-gadeirydd. Caiff ein Hymddiriedolwyr eu penodi gan Weinidogion Cymru drwy broses ddethol agored. Gwneir penodiadau fel arfer am gyfnod o dair blynedd a gellir ei adnewyddu am ddau gyfnod ychwanegol ar y mwyaf.

Daw pob Ymddiriedolwr ag arbenigedd a gwybodaeth benodol i'r broses o oruchwylio a datblygu ein gweithgareddau. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd ein Cyngor yn cynnwys y Cadeirydd a phedwar ar ddeg o aelodau.

Caiff Cadeirydd y Cyngor gydnabyddiaeth ariannol ar raddfa a bennir pob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Mae pob Ymddiriedolwr arall yn rhoi o'i amser a'i arbenigedd yn wirfoddol. Fodd bynnag, cânt eu had-dalu am dreuliau parod yr aed iddynt ar fusnes y Cyngor.

Rydym yn hyrwyddo gwerthoedd llywodraethu da

Rydym yn cadw at saith **Egwyddor yr Arglwydd Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus** ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod pob un o'n cyflogeion, ein Hymddiriedolwyr, aelodau o'n Pwyllgorau a'n Cydweithwyr Celfyddydol yn deall a chymhwyso'r Egwyddorion hyn ac yn cadw atynt.

I gefnogi hyn, mae gennym **God Ymarfer Gorau** sy'n helpu i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau aelodau a swyddogion wedi'u diffinio'n glir. Mae hefyd yn cynnwys y safonau o briodoldeb y disgwylir y dylai aelodau a'r staff gadw atynt. Caiff y Cod ei adolygu a'i ddiweddarau o leiaf unwaith pob dwy flynedd.

Yn unol â'r Cod, mae'n ofynnol i bob aelod o'r Cyngor, pob aelod o bob Pwyllgor a phob un o'n Cydweithwyr Celfyddydol a phob aelod o'n staff gwblhau **Datganiad o Fuddiant** blynyddol, a sicrhau nad oes oedi wrth roi gwybod inni am unrhyw newidiadau yn eu hamgylchiadau. Maent yn gwneud datganiadau o fuddiant mewn perthynas â chyfarwyddiaethau, aelodaeth o fyrddau rheoli (neu gyrff cyfatebol) neu gyflogaeth a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau parthed Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r gofrestr fuddiannau ar gael i'r cyhoedd ei gweld, o wneud apwyntiad, ym mhob un o swyddfeydd y Cyngor yn ystod oriau gwaith arferol. Caiff pob trafodyn ariannol rhwng aelodau a'r Cyngor ei ddatgelu yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol o dan y pennawd Trafodion â phartion cysylltiedig.



Light up the Night,
Artis Cymuned

Cyflawnodd y Cyngor, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol **adolygiad hunanasesu** o'u perfformiad yn ystod y flwyddyn. Roedd canfyddiadau'r gwerthusiadau hyn yn gadarnhaol. Caiff meysydd a nodwyd i'w gwella eu cynnwys mewn cynlluniau gweithredu. Yn benodol, daeth adolygiad hunanasesu blynyddol y Cyngor yntau i'r casgliad bod y mwyafrif helaeth o'i ddangosyddion effeithiolrwydd wedi'u cyflawni.

Roedd y Cyngor yn fodlon ar y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd yn adolygiad y llynedd. Cydnabu'r Cyngor bwysigrwydd sicrhau cymysgedd ac amrywiaeth priodol o arbenigedd a sgiliau celfyddydol ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr wrth i aelodau newydd gael eu penodi.

Nid yw'r ddogfen Corporate governance in central government departments: code of good practice, a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi, yn uniongyrchol berthnasol i Gyngor Celfyddydau Cymru. Fodd bynnag, a finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, rwy'n fodlon bod y trefniadau sydd gennym ar waith yn adlewyrchu arfer da. Rwyf hefyd yn credu bod Cyngor y Celfyddydau wedi cydymffurfio â'r egwyddorion o atebolrwydd, effeithiolrwydd ac arweinyddiaeth a fynegir yng Nghod y Trysorlys, i'r graddau y bônt yn berthnasol i Gyrrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Dosbarthwyr Arian y Loteri. Mae'r Cyngor yn cytuno â'r farn hon.

Chwythu'r chwiban

Mae gan y Cyngor bolisi sefydledig ar chwythu'r chwiban. Tynnir sylw'r staff at hwn yn ystod y cyfnod sefydlu ac mae ar gael ar fewnrwyd y Cyngor. Caiff y polisi ei adolygu o leiaf pob tair blynedd. Ni roddwyd gwybod am unrhyw ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

Gwneud penderfyniadau gwybodus

Mae'r penderfyniadau a wneir gan ein Cyngor a'n Pwyllgorau'n cael eu llywio gan gyngor a ddarparwyd gan staff Cyngor y Celfyddydau. Disgwylir i bapurau ac adroddiadau a gynhyrchir gan swyddogion ddangos yn glir yr holl wybodaeth berthnasol mae ei hangen i alluogi gwneud penderfyniadau gwybodus. Mae'r holl bapurau allweddol yn nodi: goblygiadau ariannol ac o ran adnoddau dynol a 5 ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; risgiau; a datganiad o sicrwydd.

Caiff y papurau eu dosbarthu cyn pob cyfarfod o'r Cyngor a'r Pwyllgorau; ni chaiff eitemau a gyflwynir ac adroddiadau ar lafar eu derbyn ond mewn amgylchiadau eithriadol. Yn ystod y flwyddyn, roedd y Cyngor yn fodlon ar amseroldeb ac ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd ar ei gyfer. Yn yr achosion prin pan nad yw'r wybodaeth a ddarperir yn bodloni'r safonau gofynnol, caiff y papur ei wrthod a chaiff un arall ei gomisiynu yn ei le. Ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o hyn yn 2023/24.

Lle bo'n briodol ac yn berthnasol, mae cyngor gan swyddogion yn cael ei ategu gyda chynghor arbenigol a barn gan gyfreithwyr. Bydd y Cyngor yn parhau i sicrhau bod ganddo ddigon o amser a gwybodaeth i drafod polisi yn iawn ac ystyried cyfeiriad y sefydliad i'r dyfodol. Ymgynghorir â'r cyhoedd ynghylch cynigion polisi allweddol. Mae'r ymatebion a'r adborth yn darparu rhagor o wybodaeth ar gyfer trafodaethau'r Cyngor cyn y rhoddir y wedd derfynol ar bolisiau.

Rydym yn darparu arian i drydydd partion

Un o ddyletswyddau pwysicaf y Cyngor yw dosbarthu arian i ddatblygu a chynorthwyo'r celfyddydau yng Nghymru. Rydym yn ddosbarthwr pwysig o arian – oddi wrth Lywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol a ffynonellau eraill.

Rydym wedi datblygu systemau a gweithdrefnau cadarn ac atebol i gefnogi'r gweithgarwch allweddol hwn. Mae ein prosesau rhoi a monitro grantiau'n cael eu hadolygu pob blwyddyn gan ein harchwilwyr mewnol. Mae Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein gweithgareddau rhoi grantiau pob blwyddyn. Mae'r holl argymhellion a wneir gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol yn cael eu monitro gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith mewn da bryd.

Diogelwch data

Rydym yn dal llawer iawn o ddata ac rydym yn cymryd o ddifrif ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Diogelu Data sy'n ymgorffori'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae ein systemau a rheolau TGCh yn sicrhau bod rheolaeth gaeth ar ddiogelwch data. Rydym yn asesu ein trefniadau diogelwch yn rheolaidd ac wedi cymryd camau i'w gwneud yn gadarnach. Cynhelir profion seiberddiogelwch a hacio TG bob blwyddyn. Rydym yn cydymffurfio â safonau diogelwch IASME.

Nid amlygodd yr adolygiad lefel uchel o reolaethau TG a wnaed gan ein harchwilwyr allanol, na'n rhaglen o adolygiadau archwilio mewnol a wnaed yn ystod y flwyddyn, unrhyw broblemau difrifol. Yn yr un modd, ni thynnodd yr adolygiad diogelwch blynyddol ar ran Llywodraeth Cymru sylw at unrhyw faterion oedd yn peri pryder difrifol yn y maes hwn. Cafwyd dau achos pitw o dor diogelwch data personol yn ystod y flwyddyn. Cafodd pob un ei asesu'n briodol ac nid oedd yr un ohonynt yn y categori o fod angen rhoi gwybod amdano i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Cwynion

Ymchwilir i gwynion am ein gwaith yn unol â'n Polisi Cwynion. Weithiau mae'n ofynnol gan ein polisi i Adolygydd Cwynion Annibynnol ymchwilio i gwyn. Am resymau bod yn agored a thryloyw, rydym yn cyhoeddi'r holl adroddiadau terfynol gan yr Adolygydd. Ni chafodd unrhyw gwynion eu cyfeirio at yr Adolygydd Annibynnol yn 2023/24.


Cyfarwyddiadau gan Weinidogion

A ninnau'n Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn ddarostyngedig i offerynnau anstatudol, sy'n cynnwys Cyfarwyddiadau priodol. Ni chyflwynwyd inni unrhyw Gyfarwyddiadau yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru.

Ein Strwythur Llywodraethu

I helpu i gynorthwyo â'i waith, mae'r Cyngor wedi penodi chwe phwyllgor i ddarparu cyngor arbenigol.

Dyma nhw: y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg; y Pwyllgor Cyfalaf; y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol; y Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol; Pwyllgor y Gymraeg a Phwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hefyd pwyllgor ymgynghorol ar bresenoldeb Cymru yn y Biennale Celf rhyngwladol yn Fenis, a Grŵp Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch.



Mae pob Pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r Cyngor, y mae un ohonynt yn gweithredu fel Cadeirydd, ac mae darpariaeth ar gyfer aelodau annibynnol o'r pwyllgor a benodir drwy broses ddethol agored oherwydd eu sgiliau arbenigol a'u profiad. Darperir cofnodion pob un o gyfarfodydd y Pwyllgorau i'r Cyngor i gael eu trafod a'u nodi. [Gellir gweld cylch gorchwyl pob pwyllgor, sy'n cael ei adolygu pob blwyddyn, ar ein gwefan.](#)

Mae pob aelod newydd o'r Cyngor ac o bob Pwyllgor yn mynd drwy broses sefydlu sy'n briodol i'w rôl, a chaiff ei annog i barhau â'i ddatblygiad yn ystod cyfnod ei benodiad.

Yn ystod y flwyddyn parasom i fanteisio ar wasanaethau a phrofiad ein cohort o **Gydweithwyr Celfyddydol**. Mae'r Cydweithwyr yn cynorthwyo staff gweithredol. Mae eu gwybodaeth arbenigol a'u profiad byw yn cyfrannu at ddatblygu polisiau, rhaglenni gwaith penodol, asesu ceisiadau am grantiau, a chynghor i swyddogion.

Walkie Talkie, Oriel Davies (Llun: Toby Hay)



Rheoli gweithredol


Mae'r Cyngor wedi dirprwyo ei gyfrifoldebau dros weithredu ei strategaeth a materion gweithredol i'r Prif Weithredwr a'r Uwch Tîm Arwain. Awdurdodwyd y Prif Weithredwr gan y Cyngor i gyflawni gweinyddiaeth feunyddiol a rheoli busnes a staff y sefydliad, ac mae'n gyfrifol i'r Cyngor am y materion hyn.

Fel Swyddog Cyfrifyddu Cyngor Celfyddydau Cymru, y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am ei effeithlonrwydd a'i effeithiolrwydd yn gyffredinol ac mae ganddo gyfrifoldeb dros adolygu effeithiolrwydd y system rheoli fewnol. Caiff yr adolygiad hwn ei lywio gan yr archwilwyr mewnol, y Cyfarwyddwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, a sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.



*The First XXXmas,
Canolfan Mileniwm Cymru,
(Llun: Kirsten McTernan)*

Yn ystod y flwyddyn, roedd yr Uwch Tîm Arwain yn cynnwys y Prif Weithredwr a phedwar Cyfarwyddwr.



Mae'r Uwch Tîm Arwain yn cyfarfod yn ffurfiol trwy gydol y flwyddyn i ystyried materion polisi, strategol a gweithredol allweddol, ac i roi cyngor i'r Cyngor. Mae hefyd yn goruchwyllo perfformiad ariannol a rheoli risg. Crëwyd strwythurau rheoli priodol trwy gydol y sefydliad i helpu aelodau'r Uwch Tîm Arwain i oruchwyllo'u hadrannau priodol a'u meysydd cyfrifoldeb.

Caiff yr Uwch Tîm Arwain ei gefnogi gan Fwrdd Rheoli, y mae ei aelodau'n cynnwys Penaethiaid Adran a Rheolwyr Portffolio.

Mae gan y Cyngor a'i bwyllgorau, yr Uwch Tîm Arwain a'r Bwrdd Rheoli gylch gorchwyl ysgrifenedig.

Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gyfeiriad strategol ein sefydliad ac am ei reoli. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau, drwy'r Prif Weithredwr, ein bod yn gweithredu o fewn y gwahanol atebolrwyddau sy'n ofynnol inni.

Mae aelodau'r Cyngor yn gyfrifol am benderfyniadau allweddol ar bolisi corfforaethol: llunio ein Cynllun Strategol a'n Cynllun Blynyddol ac unrhyw newidiadau o bwys i delerau ac amodau gwasanaeth y staff.

Mae'r Cyngor yn pennu'r gyllideb flynyddol, yn penderfynu ar ddyraniad grantiau i sefydliadau a ariennir yn aml-flwyddyn, ac yn cymeradwyo pob grant dros £50,000, neu dros £250,000 yn achos prosiectau cyfalaf a gyllidir gan arian y Loteri. Dirprwyir y penderfyniadau ar grantiau sy'n is na'r trothwyon hyn i aelodau awdurdodedig o'r staff ac i'r Pwyllgor Cyfalaf.

Mae'r aelodau yn cynorthwyo â Phwyllgorau'r Cyngor. Gallant hefyd fynychu digwyddiadau celfyddydol ledled Cymru fel cynrychiolwyr o'r Cyngor.



Side by Side, Cerddorfa Cenedlaethol Ieuencid Cymru a Cherddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC (Llun: Evan Dawson)



Diwrnod Rhyngwladol
y Merched, Theatr Glan
yr Afon Casnewydd,
(Llun: Jo Haycock)

Mae gweithgareddau'r Cyngor yn ystod 2023/24 yn cynnwys:

1. Fel rhan o'i waith parhaus yn craffu ar **Lywodraethu**, paratoi a monitro'r **Cynllun Blynyddol** am y flwyddyn, ac adolygu a chymeradwyo Cylch Gorchwyl pob un o'i **Bwyllgorau** yn flynyddol. Hefyd derbyniodd a nododd y Cyngor adroddiadau diwedd blwyddyn y Pwyllgorau i lywio'i **Ddatganiad Llywodraethu** fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol hwn, a chymeradwyodd **Datganiadau Ariannol Blynyddol 2022/23** a dyraniadau ar gyfer **Cyllideb 2023/24**.
2. Derbyn diweddariadau rheolaidd ar ein **Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol, Cofrestr Risgiau**, a pherfformiad sefydliadau **Portffolio Celfyddydol Cymru**.
3. Cymeradwyo'r penderfyniadau mewn perthynas â'r **Adolygiad Buddsoddi**.
4. Derbyn diweddariadau a chyflwyniadau ar raglenni gwaith allweddol gan gynnwys y **Celfyddydau ac Iechyd, Cyfiawnder Newid Hinsawdd a'r Celfyddydau a'n gwaith yn Ehangu Ymgysylltiad**.

Cynhelir cyfarfodydd Cyngor oddeutu pob chwe wythnos. [Mae copiau o agendau a chofnodion cyfarfodydd y Cyngor ar gael ar ein gwefan.](#)

Cyfarfu'r Cyngor 10 gwaith yn ystod 2023/24 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 123 o weithiau allan o 155 posibl.

Ein hymateb llywodraethu i drefniadau gweithio yn ystod 2023/24

Parasom i weithredu model gweithio hybrid trwy gydol 2023/24. Fel rhan o'n mesurau arbed costau, lleihaom arwynebedd llawr ein swyddfa yng Nghaerdydd.

Mae'r rhan fwyaf o'n prosesau mewnol yn electronig bellach, ac rydym yn parhau i weithio'n dda o bell. Unwaith eto, cafodd ein cynllun archwilio mewnol ei gyflawni o bell heb unrhyw effaith arwyddocaol ar berfformiad neu ganlyniadau.

Defnyddiwn drefniadau hybrid ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau, gan gynnig yr opsiwn i aelodau a'r staff sy'n mynychu i gwrdd wyneb yn wyneb neu ymuno â'r cyfarfod o bell. Nid yw dyletswyddau pob Pwyllgor wedi newid ac nid yw gallu'r Cyngor i wneud penderfyniadau wedi'i beryglu gan y trefniadau hyn.

Rydym o'r farn na chafodd llywodraethu effeithiol ei beryglu gan y trefniadau gweithio hyn.



Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg



*Gludafael / Holdfast, Oriol Gelf
Glynn Vivian (Llun: Polly Thomas)*

“Mae’r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yn elfen hanfodol o drefniadau llywodraethu’r Cyngor. Yn gweithredu yn ôl ein Cylch Gorchwyl, rydym yn craffu ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd ein systemau rheoli mewnl ac yn profi ein trefniadau rheoli risg. Ein rôl yw cefnogi’r sefydliad i fod mor effeithiol â phosibl, a sicrhau bod gwaith cyflawni gweithgareddau’r Cyngor yn effeithiol ac yn croesawu elfennau strategol, llywodraethu, ariannol a gweithredol”

Lhosa Daly

Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

A ninnau'n stiwardiaid arian cyhoeddus, rhaid inni weithredu mewn modd effeithlon ac atebol. Mae'r Cyngor yn cytuno ar ein blaenoriaethau a phenderfyniadau ariannu yn unol â'r polisiau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'n defnydd o arian cyhoeddus. Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymadau hyn, gan wneud hynny mewn ffyrdd sy'n dryloyw, yn atebol ac yn gydnerth.

Mae rhaglen helaeth o waith archwilio mewnol yn ein cynorthwyo gyda'r gwaith hwn, gan asesu ansawdd ein gwaith cyflawni yn erbyn y safonau rydym wedi'u gosod.

Yn dilyn penodiad Maggie Russell yn Gadeirydd y Cyngor ym mis Ebrill 2023, dychwelodd Kate Eden i'w rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor hyd ei hymddiswyddiad o'r Cyngor ym mis Medi 2023 pan ddechreuodd ei rôl newydd fel Cadeirydd Amgueddfa Cymru. Daeth aelod y Cyngor Ceri Davies yn Gadeirydd y Pwyllgor yn ei lle o 1 Hydref i 31 Rhagfyr 2023, ac wedyn aelod y Cyngor Lhosa Daly o 1 Ionawr 2024 ymlaen.

Canlyniadau archwiliadau

Adroddir canfyddiadau archwiliadau blynyddol Archwilio Cymru i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg sy'n ystyried y canfyddiadau ac yn eu monitro i sicrhau y cymerir camau gweithredu priodol yn brydlon. Caiff y rhaglen flynyddol ar gyfer gweithgarwch archwilio mewnol ei chymeradwyo gan y Pwyllgor.

Rhoddodd ein harchwilydd mewnol, TIAA, y farn ganlynol yn ei adroddiad blynyddol:

“Mae TIAA yn fodlon, ar gyfer y meysydd a adolygwyd yn ystod y flwyddyn, fod gan Gyngor Celfyddydau Cymru brosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu rhesymol ar waith.”

Roedd y gweithgareddau a gyflwynodd y Pwyllgor yn ystod 2023/24 yn cynnwys:

1. craffu'n rheolaidd ar ein Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol a'n **Cofrestr Risgiau Corfforaethol**, ac ystyried ac ail-gymeradwyo trefniadau rheoli risgiau'r Cyngor
2. ystyried trefniadau dirprwyo mewnol ac **Adroddiad Sicrwydd Blynyddol TGCh**
3. goruchwyllo cynnydd yr **Adolygiad Buddsoddi**, gan gynnwys craffu ar y gofrestr risg prosiect a chyfarfod arbennig ym mis Awst i ystyried barn yr archwiliad mewnol am y broses asesu a gwneud argymhellion a gyflawnwyd gan Swyddogion, cyn penderfyniadau ariannu'r Cyngor ym mis Medi
4. craffu ar iechyd sefydliadol ac ariannol sefydliadau **Portffolio Celfyddydol Cymru** y Cyngor trwy drefniadau adrodd gwell i asesu graddau effaith yr argyfwng costau byw. Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried y trefniadau monitro diwygiedig a baratowyd ar gyfer y sefydliadau a fyddai'n derbyn **cytundebau ariannu aml-flwyddyn** yn dilyn yr Adolygiad Buddsoddi
5. adrodd i'r Cyngor ar ganlyniad **adolygiadau archwilio mewnol** a gyflawnwyd gan ein darparwyr gwasanaeth archwilio mewnol penodedig **TIAA**, a monitro cynnydd o ran rhoi argymhellion gweithredu'r archwilydd ar waith
6. deall agweddau allweddol ar weithrediadau'r Cyngor, megis ein **Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth** â chorff Cymru Greadigol a'r **Cytundeb Partneriaeth** ar gyfer cyflenwi Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru
7. adolygu ein **Hadroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol** ac argymhell i'r Cyngor eu cymeradwyo
8. deall **Cylch Gorchwyl** y Pwyllgor ei hun, cyn ei gymeradwyaeth flynyddol gan y Cyngor, gan ystyried adborth gan Gadeirydd y Pwyllgor ar ôl iddo fynychu digwyddiad i Gadeiryddion Pwyllgorau Archwilio a Sicrhau Risg a Phenaethiaid Adnoddau a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru.

Cyfarfu'r Pwyllgor 7 gwaith yn ystod 2023/24 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 30 o weithiau allan o 33 posibl.

Pwyllgor Cyfalaf



“Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae’r Pwyllgor Cyfalaf wedi cefnogi ystod o sefydliadau i fwrw ymlaen â nifer o brosiectau cyffrous, neu eu cwblhau. Achoswyd oedi i’r gwaith o roi gwedd derfynol ar ein Strategaeth Cyfalaf ar gyfer 2024-34 ac ymrwymiad i ariannu prosiectau newydd gan yr ansicrwydd ynghylch lefelau arian cyfalaf Llywodraeth Cymru a referniw gan y Loteri Genedlaethol dan ei weithredwr newydd Allwyn. Fodd bynnag, roeddem yn gallu rhoi arian ychwanegol i brosiectau parhaus a wynebhai costau cynyddol trwy Raglen Cymorth Cyfalaf Llywodraeth Cymru. Mae’r cynllun yn rhoi £2.6 miliwn dros ddwy flynedd ac mae’n helpu i gwblhau nifer o brosiectau pwysig yn llwyddiannus.”

Victoria Provis

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfalaf

Ers tri degawd mae'r Cyngor wedi bod yn buddsoddi arian o'r Loteri Genedlaethol mewn prosiectau cyfalaf. Ledled Cymru rydym wedi helpu sefydliadau i wella ac ehangu eu gweithgareddau drwy ariannu'r gwaith o greu adeiladau rhagorol, gan weddnewid y lleoedd yng Nghymru lle mae pobl yn mwynhau ac yn cymryd rhan yn y celfyddydau. Rydym hefyd wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwnnw i ariannu prosiectau a rhaglenni cyfalaf strategol.

Rydym yn parhau i oruchwylio sawl prosiect sydd wedi bod yn cael eu datblygu ers nifer o flynyddoedd, ynghyd ag ystyried ceisiadau newydd am fuddsoddiad wedi'i dargedu i wella mynediad, mentrau ynni cynaliadwy a mân addasiadau.

Mae'r Pwyllgor yn craffu ar brosiectau parhaus ac yn derbyn ceisiadau ar gyfer y prosiectau hynny a gafodd eu cynnwys yn y rhaglen yn flaenorol ac sy'n mynd ymlaen at gamau diweddarach Cynllun Gwaith Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA). Er bod llai ohonynt, mae angen mwy o waith monitro ac asesu manwl ar y prosiectau hyn sy'n cyrraedd y camau diweddarach. I rai sefydliadau, gall hyn gynnwys cryn dipyn o gymorth a chynghor gan staff y Cyngor, yn enwedig i sefydliadau llai o faint sy'n cyflawni eu prosiect cyfalaf cyntaf.





Sabotage, No Fit State
(Llun: Mary Wycherley)

Mae'r prosiectau sydd ar y safle ar hyn o bryd yn cynnwys: Theatr Clwyd, Oriel Myrddin, Canolfan Ucheldre, a Chanolfan Celfyddydau Pontardawe. Mae'r prosiectau cyfalaf mawr a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac sydd bellach ar agor i'r cyhoedd yn cynnwys YMCA Pontypridd a Chwmni'r Frân Wen.

Mae gennym ddau brosiect mawr yn cael eu datblygu ar hyn o bryd: Theatr Bara Caws, ger Caernarfon, ac Impelo yn Llandrindod.

Eleni, mae'r Pwyllgor wedi gallu dosbarthu arian sylweddol gan Lywodraeth Cymru i dalu am gostau chwyddiannol prosiectau presennol, gan gynnwys YMCA Pontypridd, Canolfan Ucheldre a Chanolfan Celfyddydau Pontardawe. Hefyd, mae arian Llywodraeth Cymru wedi cefnogi rhai prosiectau ar wahân: Neuadd y Dref Maesteg; The Met, Abertyleri; Glan yr Afon, Casnewydd; a Theatr Brycheiniog, Aberhonddu. Effaith yr holl brosiectau hyn oedd lleihau ôl-troed carbon y sefydliadau a gwella eu heffeithlonrwydd ynni.

Dyfarnwyd grantiau cyfalaf bach y Loteri i ystod o sefydliadau er mwyn iddynt wneud addasiadau i'w hadeiladau. Roedd y rhain yn cynnwys: Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, Pen-y-bont ar Ogwr; NoFit State Circus; Oriel Elysium, Abertawe; a Theatr Byd Bach.

Roedd gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2023/24 yn cynnwys:

1. rhoi cefnogaeth a chymorth ariannol i'r buddsoddiad cyfalaf mwyaf yn y celfyddydau yng Nghymru sef y gwaith uchelgeisiol i adnewyddu **Theatr Clwyd** yn yr Wyddgrug. Mae'r Pwyllgor yn monitro ein cefnogaeth ni gan y Loteri Genedlaethol a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r prosiect, sef cyfanswm o £28.5 miliwn. Gwelsom gynnydd ardderchog yn ystod y flwyddyn ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda erbyn hyn
2. sicrhau bod yr holl brosiectau cyfalaf mae'r Cyngor yn buddsoddi ynddynt yn bodloni safonau cynaliadwyedd **Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM)**
3. monitro elfennau cyfalaf y rhaglen **Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru**. Rhoddwyd arian cyfalaf i'r orielau canlynol er mwyn sicrhau bod yr adeiladau'n cyrraedd y safon ofynnol i arddangos y casgliadau gan Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru:
 - Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth
 - Oriel Gelf Glynn Vivian
 - Mostyn
 - Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd
 - Oriel Davies
 - Oriel Plas Glyn y Weddw
 - Canolfan Grefftau Rhuthun
 - Storiel

Cyfarfu'r Pwyllgor 4 gwaith yn ystod 2023/24 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau â safleoedd prosiectau: YMCA Pontypridd, Pontypridd; a'r Met, Abertyleri. Mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 18 o weithiau allan o 20 posibl.

Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol



*Waltz gan Marcos Morau, CDCCymru
(Llun: Kirsten McTernan)*

“Mae’r toriad sylweddol i gyllid yn y dyfodol wedi rhoi pwysau ar ein hadnoddau. Mae’r Pwyllgor yn canolbwyntio ar sicrhau bod cymorth ar gael i’r holl staff yn ystod y cyfnod anodd hwn”

Elen ap Robert

Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol

Mae'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei gyfrifoldebau am oruchwyllo gweithgareddau adnoddau dynol.

Mae hyn yn cynnwys.

- gosod a monitro targedau perfformiad blynyddol y Prif Weithredwr
- argymell cydnabyddiaeth ariannol flynyddol y Prif Weithredwr i'r Cyngor
- recriwtio, cadw a rheoli'r staff yn gyffredinol
- monitro tâl ac amodau gwasanaeth
- monitro llesiant y bobl sy'n gweithio i ni
- cefnogi anghenion y sefydliad o ran llywodraethu
- sicrhau bod gweithgarwch adnoddau dynol yn cyfrannu'n effeithiol at gyflawni nodau strategol ac anghenion busnes y Cyngor

Mae'r gweithgareddau a gyflawnodd y Pwyllgor yn ystod 2023/24 yn cynnwys y canlynol:

1. cyhoeddi **Datganiad Polisi Cyflogau**. Mae hwn yn cynnwys dadansoddiad manwl o gyfansoddiad ein staff. Mae hefyd yn rhoi sylw i adrodd ar **Gydraddoldeb Rhywiol a Chyflogau Cyfartal**
2. rhoi cyngor ar y sefyllfa **Cylch Cyflog**
3. gosod lefelau **cydnabyddiaeth ariannol** a monitro perfformiad y **Prif Weithredwr**
4. adolygu **gwybodaeth reoli adnoddau dynol ac adroddiadau archwilio mewnol** perthnasol er mwyn monitro perfformiad, iechyd a llesiant y staff
5. hybu **dysgu a datblygiad** y staff er mwyn cyflawni amcanion corfforaethol trwy gyrsiau iechyd a diogelwch a chydymffurfiaeth gyffredinol
6. trefnu a hwyluso **gweithdai** staff i hyrwyddo parch yn y gweithle
7. rhoi cyngor ar reoli'r broses **ddiswyddo gwirfoddol**

Cyfarfu'r Pwyllgor 4 gwaith yn ystod 2023/24 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 18 o weithiau allan o 20 posibl.

Iechyd a Diogelwch

“Mae’r Grŵp Cyngori ar Iechyd a Diogelwch yn sicrhau bod prosesau cadarn yn eu lle i gadw’r gweithlu’n ddiogel.”

Rebecca Nelson

Cadeirydd y Grŵp Ymgynghorol Iechyd a Diogelwch

Roedd y gweithgareddau a gyflawnwyd gan y Grŵp yn ystod 2023/24 yn cynnwys:

1. adolygu trefniadau yn ein swyddfeydd, gan gynnwys cyfuno Swyddfa Caerdydd ar un llawr
2. gwaith datblygu parhaus o’n polisi Gweithwyr Unigol a’r Polisi Gweithio Hybrid
3. rheoli’r gwaith o adrodd ar ddigwyddiadau a’u monitro
4. adolygu a diweddarau ein Datganiad Polisi Iechyd a Diogelwch
5. adolygu a diweddarau dogfennau a chyfarwyddiadau fel System Rheoli Iechyd a Diogelwch a Chyfarwyddiadau Tân

Cyfarfu’r Grŵp dwywaith yn ystod 2023/24 i gyflawni ei gyfrifoldebau.

Asesiad cyffredinol o lywodraethu a rheolaeth fewnol

Yn fy marn i, mae systemau llywodraethu a rheolaeth fewnol Cyngor Celfyddydau Cymru yn ddigonol i'm galluogi i gyflawni fy nghyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifyddu. Wrth gymeradwyo'r cyfrifon hyn, cefais sicrwydd yn y ffyrdd canlynol:

- cyfarfodydd rheolaidd o'r Uwch Tîm Arwain lle caiff materion perthnasol eu hadolygu a'u trafod;
- cyfarfod â'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes i fynd trwy'r rheolaethau ariannol;
- mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Risg lle caiff adroddiadau archwilio mewnol eu hadolygu a chaiff materion rheoli mewnol eraill eu craffu arnynt.




Dafydd Rhys

Swyddog Cyfrifyddu

18 Hydref 2024

Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:



Maggie Russell

Cadeirydd

18 Hydref 2024

Cydraddoldebau



Deaf Gathering Cymru 2024,
Canolfan Celfyddydau Chapter
(Llun: Grace Springer)

“Bu cynnydd yn ein gwaith Cydraddoldebau eleni a pharhaodd y Pwyllgor i dderbyn adroddiadau diweddarau. Fel Cadeirydd, ac ar ran y Pwyllgor, rydw i wedi parhau i fonitro, cwestiynu a herio ein cynnydd a’n cynlluniau. Yn ystod blwyddyn olaf ein Cynllun presennol eleni, rwy’n dal i fod yn ffyddiog am ein llwybr tuag at newid.”

Devinda De Silva

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb Strategol

Prif ffocws ein gwaith yn y celfyddydau yn 2023/24 oedd ein Hadolygiad Buddsoddi a sicrhau bod yr holl sefydliadau a dderbyniodd cyllid aml-flwyddyn yn dangos ymrwymiad clir a realistig at symud ein agenda cydraddoldebau ac ehangu ymgysylltiad yn ei blaen. Roedd cynyddu nifer y sefydliadau a arweinir gan artistiaid anabl ac artistiaid o gefndiroedd amrywiol yn ddiwylliannol ac yn ethnig yn flaenoriaeth allweddol hefyd, ac roedd ein portffolio'n cynnwys nifer o sefydliadau tebyg o ganlyniad.

Parasom weld cynnydd yn ein strategaeth cydraddoldebau a thrwy ein cynllun Ehangu Ymgysylltiad a fydd yn gwella ac yn cynyddu cyfleoedd i artistiaid, sefydliadau celfyddydol a chymunedau ymgysylltu â'r celfyddydau'n fwy aml ac mewn ffyrdd sy'n bwysig iddynt hwy a'u bywydau.

Mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, rydym wedi parhau i gyfarfod â'r Tasglu Ehangu Ymgysylltiad sy'n gyfrifol am fonitro a goruchwyllo'r gwaith o gyflawni'r Cyd-gynllun Gweithredu. Derbyniodd y Tasglu adroddiadau cynnydd a'u hadolygu, parhau i gefnogi'n gwaith i ddatblygu fframwaith gwerthuso addas, a chychwyn trafodaeth ynghylch cyfathrebu ac ymgysylltu â chymunedau.



Blwyddyn Newydd y Lleud,
Theatr Glan yr Afon Casnewydd,
(Llun: Kamila Jarczak)



Gwelodd ein rhaglen Camau Creadigol ddiwygiedig gynnydd sylweddol trwy gydol y flwyddyn gyda 63 o artistiaid unigol ac 8 sefydliad yn derbyn arian trwy'r cynllun. Mae'r cynllun, sy'n cynnwys ymagwedd fwy hyblyg, ynghyd â mentora a mwy o gymorth i sefydliadau ac unigolion, yn amlwg yn cyflawni ei nodau o leihau rhwystrau ac felly'n annog artistiaid newydd â nodweddion gwarchoddedig i wneud cais am gymorth gennym. Mae cefnogi eu datblygiad personol a busnes trwy raglen Camau Creadigol wedi golygu bod llawer o'r artistiaid hyn wedi derbyn arian i greu gwaith trwy ein cynlluniau ariannu Loteri eraill.

Cwblhawyd y gwaith a gomisiynwyd i greu safonau hygrychedd arferion gorau. Caiff gwaith pellach ei gyflawni trwy gynnal trafodaethau â lleoliadau a defnyddwyr anabl.

Cafwyd mwy o gynnydd wrth weithio gyda Chynghorau Celfyddydol y DU ar ddatblygu cynllun cerdyn mynediad DU-gyfan, gan adeiladu ar lwyddiant cynllun Hynt yng Nghymru. Cyhoeddwyd gwerthusiad o gynllun Hynt gennym a gafodd canmoliaeth a chydabyddiaeth ar draws y DU. Mae'r gwerthusiad yn chwarae rôl allweddol yn llywio datblygiad y cynllun ehangach, *All In*.

Symudodd ein Hasiant er Newid ein gwaith yn ei flaen, gan gwestiynu a herio'n hymagwedd, ein gwaith datblygu strategaeth, a'n broses benderfynu. Roedd hwn yn cynnwys ein gwaith ar yr Arolygiad Buddsoddi, datblygu a gweithredu rhaglen Camau Creadigol, ein hymagwedd at recriwtio a datblygu staff, a chanolbwyntio ar wella cyfleoedd yn y diwydiant cerddoriaeth ar gyfer pobl o gefndiroedd amrywiol yn ethnig ac yn ddiwylliannol, trwy ein partneriaeth â Focus Cymru.

Mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru, parhaom i gyflawni rhaglen Safbwynt(iau), sy'n ceisio newid yn sylfaenol y ffordd mae'r celfyddydau gweledol a'r sector treftadaeth yn adlewyrchu gwahaniaethau diwylliannol ac ethnig ein cymdeithas. Mae'r rhaglen unigryw hon wedi dwyn 7 oriel, 7 amgueddfa genedlaethol a 7 ymarferydd creadigol ynghyd i gyd-greu/comisiynu arddangosfeydd a pherfformiadau.

Hon oedd blwyddyn olaf ein Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol presennol, felly ar ddiwedd y flwyddyn, dechreuom ganolbwyntio ar y gwaith o bennu'r prif flaenoriaethau ar gyfer y pedair blwyddyn nesaf.



Future Creatives,
Jukebox Collective
(Llun: Joe Andrews)

Y Gymraeg



Cymraeg Ddrwg, Ffion Williams, Llantarnam Grange (Llun: Sion Marshall-Waters)

“Dylai pawb gael yr un cyfle i gael mynediad i’r celfyddydau, cymryd rhan ynddynt, eu mwynhau a’u creu drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gweld Cymru a’r Gymraeg yn cael eu dathlu fwyfwy ar lwyfan byd-eang, gyda’r celfyddydau a diwylliant yn chwarae rhan bwysig yn y ffordd mae’r byd yn ein gweld ni, a sut rydym yn ein gweld ein hunain.

Rhan o waith y Cyngor yw creu cyfleoedd i artistiaid o bob cefndir fod yn greadigol drwy gyfrwng y Gymraeg a rhoi i bobl o bob rhan o Gymru a’r byd y cyfle i fwynhau creadigrwydd y Gymraeg.”

Tudur Hallam

Cadeirydd Pwyllgor y Gymraeg

Ein diben, fel y nodir yn ein Siarter Frenhinol 1994, yw datblygu'r celfyddydau a'u gwneud yn fwy hygyrch i'r cyhoedd, gan weithio ag eraill i gyflawni'r diben hwnnw a gweithredu drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. A ninnau'n sefydliad dwyieithog, felly, mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn rhan annatod o'n gwaith ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf dangoswyd yr ymrwymiad hwn ar nifer fawr o lefelau. Mae ein gwaith cyfredol a'n strategaeth i'r dyfodol wedi'u cysylltu'n agos â saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

Yn ei strategaeth Cymraeg 2050, mae Llywodraeth Cymru yn nodi mai ei tharged hirdymor yw sicrhau un filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Credwn y gallwn, wrth weithio drwy'r celfyddydau, gefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni ei themâu strategol yn hyn o beth, yn enwedig o ran:

- cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg
- cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg
- creu amodau ffafriol yn sector y celfyddydau i'r iaith ffynnu

Mae'r Gymraeg yn un o chwe egwyddor Fframwaith Strategol y Cyngor. Ein nod yw gosod y Gymraeg a diwylliant Cymru wrth galon creadigrwydd; i bawb fod yn berchen ar yr iaith, a'i bod yn rheswm dros ddathlu creadigol ac yn gysylltiad grymusol rhwng cymunedau.



Roedd angen i bob sefydliad a wnaeth cais am gyllid aml-flwyddyn i'n Hadolygiad Buddsoddi ddangos ei ymrwymiad i'r Gymraeg fel rhan o'i genhadaeth, gweledigaeth a nodau tymor hirach.

Datblygwyd cynllun iaith Gymraeg newydd mewn ymgynghoriad â'r Pwyllgor ac aelodau o'r Consortiwm Cymraeg. Yr amcanion strategol a nodwyd yw: annog, creu, a rhannu cyfleoedd creadigol a fydd yn cyfrannu at dwf yn y defnydd a'r berchnogaeth o'r Gymraeg. Byddwn yn cefnogi sector y celfyddydau i osod y Gymraeg wrth galon creadigrwydd drwy ofyn beth sydd ei angen, gwrando ar ein gilydd a dysgu oddi wrth ein gilydd. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i gynyddu'r cynnyrch a gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i bawb.

Roedd y gweithgareddau a gyflawnodd Pwyllgor y Gymraeg yn ystod 2023/24 yn cynnwys:

1. monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor o ran y Gymraeg, gan nodi i'r Cyngor ble mae angen mwy o gynnydd
2. sicrhau y rhoddir **Safonau'r Gymraeg** ar waith, a'u cynnal, yn llwyddiannus, a gweithredu pan na fydd y Safonau wedi'u bodloni
3. cefnogi ac annog y gwaith arloesol a ddatblygwyd gan Ysgogydd y Gymraeg, gan gynnwys lansio ail flwyddyn **Llais y Lle**, lansio pecyn adnoddau i ymarferwyr celfyddydol o'r enw **Synhwyro'r Iaith** a datblygu methodoleg **gyfieithu creadigol** i'r sector
4. rhoi cyngor perthnasol mewn perthynas â'r Adolygiad Buddsoddi
5. datblygu ymhellach y bartneriaeth â'r **Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol** i wella neu fireinio sgiliau iaith staff a rhyddgyfranwyr creadigol yn sector y celfyddydau
6. gwneud cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion a nodir yn **Adroddiad Mapio'r Gymraeg**, gan gynnwys ymateb i ymchwil a gomisiynwyd i bennu'r anghenion a chyfleoedd ar gyfer llwybrau datblygiad Cymraeg yn y celfyddydau i weithwyr creadigol a gweithredu datblygiadau gyda'r **Consortiwm Celfyddydau Cymraeg**

Cyfarfu'r Pwyllgor 3 gwaith yn ystod 2023/24 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 7 o weithiau allan o 9 posibl.

Cenedlaethau'r Dyfodol



FRANK gan The Jones Collective & Plastique Fantastique (Llun: Plastique Fantastique)

“Rydym wedi parhau i wneud yn siŵr bod y Cyngor yn mynd ati i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac i wneud yn siŵr bod egwyddorion ac ethos y Ddeddf yn dod yn rhan annatod o'r holl waith a wnawn. Yn ogystal â phob un o'r saith nod llesiant, rydym wedi ymrwymo i weithio'n unol â'r egwyddorion a nodir yn y pum ffordd o weithio, sef: tymor hir; integreiddio; cyfraniad; cydweithio; atal.

Yn hollbwysig, mae'r Ddeddf yn rhoi cyfeiriad clir inni weithio gyda phartneriaid ar draws yr holl sectorau ac i gydnabod cyfraniad pwysig y celfyddydau wrth fynd i'r afael â phroblemau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Yn ystod 2023/24, roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r chwe egwyddor a lywiodd ein Hadolygiad Buddsoddi. Mae egwyddor meddylfryd hirdymor wedi bod yn ganolog i'r broses o greu ein model ariannu aml-flwyddyn newydd. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi rhoi'r sylfaen ar gyfer creu Fframwaith Strategol 10-blwyddyn newydd y Cyngor.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth Natur Greadigol rhwng Cyngor y Celfyddydau a Cyfoeth Naturiol Cymru yn adeiladu ar yr ymrwymiad hwn i ddatblygu ymagweddau traws-sector ac yn ffurfio sylfaen ein hymrwymiad i fabwysiadu ymagwedd sy'n canolbwyntio ar gyfiawnder at fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur drwy'r celfyddydau.”

Prue Thimbleby

Cadeirydd Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLICD)** yn ddeddfwriaeth bwysig sydd â'r nod o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Cyngor Celfyddydau Cymru yw un o'r cyrff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Eleni rydym wedi cyfrannu at y gwaith o gyflawni ein **Hadolygiad Buddsoddi** a arweiniodd at ddewis 81 o sefydliadau a fydd yn derbyn arian aml-flwyddyn. Rydym hefyd wedi monitro'r gwaith o ddatblygu'r **Fframwaith Strategol**, sy'n nodi'r chwe egwyddor a fydd yn llywio gwaith y Cyngor am y deng mlynedd nesaf, a **Fframwaith Effaith Celfyddydau Rhyngwladol Cymru** sy'n mesur effaith ein gwaith rhyngwladol yn erbyn y 7 Nod Llesiant.

Hefyd, rydym wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r **Cynllun ar gyfer Cyfiawnder Newid Hinsawdd a'r Celfyddydau**, sydd wedi'i fframio gan DLICD. Mae'r Cynllun yn hyrwyddo rôl bwysig y celfyddydau yn y gwaith o drawsnewid ein cymdeithas a'n heconomi i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Wrth wraidd ein hymagwedd yw'r gydnabyddiaeth nad dim ond ôl-ffeithiau amgylcheddol a ddaw o newid hinsawdd – mae'n ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol ac anghydraddoldeb. Mae'r cynllun yn nodi sut y byddwn yn cefnogi sector y celfyddydau i ddatblygu creadigrwydd sy'n ysbrydoli pobl i weithredu dros gyfiawnder newid hinsawdd, ac yn gweithio tuag at sector celfyddydol amgylcheddol gynaliadwy a chyfrifol yn fyd-eang sydd wedi'i seilio ar gyfiawnder cymdeithasol.



Carnival Bioamrywiaeth, Catrin Doyle and Lucie Powell, NATURponty (Llun: Lucy Purrington)



Datblygwyd y Cynllun fel rhan o'n partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru a Labordy Arloesi Prydain Di-garbon Canolfan y Dechnoleg Amgen, yn defnyddio elfennau o gyd-ddylunio â sector y celfyddydau.

Yn ogystal â Chyfiawnder Newid Hinsawdd, mae ein gwaith yn y **Celfyddydau ac Iechyd, Cymraeg, Dysgu Creadigol, a Phlant a Phobl Ifanc** wedi'u cysylltu'n annatod â'n hymrwymiad i DLICD. Drwy ein partneriaeth â **Chyddfederasiwn GIG Cymru**, rydym yn parhau i wneud cynnydd sylweddol yn y Celfyddydau ac Iechyd, ac mae ein gwaith gyda'r **Byrddau Iechyd** yn parhau i dyfu ac ymwreiddio yn fewnol yn y Byrddau Iechyd a gan ymestyn allan i'w cymunedau. Rydym wedi parhau i ddarparu ein **rhaglen Celfyddydau, Iechyd a Lles Rhaglen y Loteri**, gan gynnwys edefyn natur newydd sy'n cyd-gysylltu â'n partneriaeth Natur Greadigol â chorff Cyfoeth Naturiol Cymru, wedi cwblhau tair blwyddyn gyntaf ein rhaglen **Celfyddyd a Chrebwyl**, ac wedi sefydlu partneriaeth â chorff Iechyd Cyhoeddus Cymru i drosglwyddo asedau **Cwtsh Creadigol** iddo, fel rhan o'i adnoddau ar-lein **Hapus**.

Penodwyd Rheolwr Portffolio newydd â chyfrifoldeb am blant a phobl ifanc ac mae trafodaethau yn mynd rhagddynt ynghylch sut i recriwtio pobl ifanc i'r Pwyllgorau a sicrhau llais cryfach i genedlaethau'r dyfodol ar y Cyngor.

Roedd y gweithgareddau a gyflawnodd Pwyllgor

Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystod 2023/24 yn cynnwys:

1. parhau i wreiddio **Pum Ffordd o Weithio** Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein polisiau a'n strategaethau ac yn y ffordd y gwnawn ein gwaith
2. cyfrannu at gyflawni'r **Adolygiad Buddsoddi** ac i'r gwaith o ddatblygu'r **Cynllun ar gyfer Cyfiawnder Newid Hinsawdd a'r Celfyddydau**
3. datblygu cynlluniau i roi mwy o lais i bobl ifanc yng Nghyngor y Celfyddydau, gan gynnwys edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu grŵp o **Gydweithwyr Ifanc**
4. noddi 2 le i artistiaid yn **Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol**
5. monitro hyfforddiant ac ymwybyddiaeth y staff o DLICD, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi dan arweiniad Swyddfa LICD
6. dysgu o waith sefydliadau eraill, megis mynychu **cyfarfod Cynghorau Celfyddydau Norwy, Baltig, y DU-Iwerddon** yn Glasgow i drafod themâu'r celfyddydau ac iechyd, amodau presennol artistiaid ac ymarferwyr creadigol, yr argyfwng hinsawdd a gweithio rhyngwladol, hawliau, rhyddid a diogelwch artistiaid, a'r celfyddydau a thechnoleg megis deallusrwydd artiffisial
7. sicrhau ein bod yn cadw ein **Hachrediad Draig Werdd Lefel 5** am gynaliadwyedd amgylcheddol ac adolygu data allyriadau carbon Cyngor Celfyddydau Cymru
8. rhannu profiadau Cyngor y Celfyddydau o wreiddio DLICD mewn cyfarfodydd, rhwydweithiau a digwyddiadau gan gynnwys **Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru + (CDCC+), Dyfodol Diwylliant yng Nghymru** a phanel a drefnwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn yr **Eisteddfod Genedlaethol**

Cyfarfu'r Pwyllgor 4 gwaith yn ystod 2023/24 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Mynychodd yr aelodau gyfarfodydd 11 gwaith allan o 12 posibl.

Perfformiad amgylcheddol

Rydym yn hybu lleihau gwastraff cymaint ag sy'n bosibl ymhlith ein staff drwy eu hannog i leihau, aildefnyddio ac ailgylchu a didoli gwastraff, gan leihau'r hyn a anfonir i safleoedd tirlenwi.

GWASTRAFF Anariannol (tunelli)	2023/24	2022/24
Tirlenwi ¹	0	0
Aildefnyddiwyd/ailgylchwyd ¹	0	0


¹ Cofnodwyd llai na thunnell gan y Cyngor

Rydym yn aildefnyddio neu'n ailgylchu ein hoffer TG a swyddfa sy'n ddiangen neu'n rhy hen i'w defnyddio. Rydym yn defnyddio sefydliadau trwyddedig a phriodol i waredu ein gwastraff.

Mae gan bob un o'n prif gyflenwyr cyfarpar a chyflenwadau swyddfa bolisiau a systemau adrodd amgylcheddol ar waith, ac rydym yn ystyried perfformiad ac ymwybyddiaeth amgylcheddol wrth ddethol contractwyr a chyflenwyr.

Rhoddir adroddiadau misol i'n rheolwyr a'n staff, yn dadansoddi gweithgarwch argraffu a chopio, er mwyn eu hannog i leihau eu defnydd yn gyffredinol. Mae ein systemau adrodd mewnol yn ei gwneud yn bosibl inni gofnodi a mesur manylion ein defnydd o nwyddau traul, gwastraff, ynni a theithio gan ein staff, ac felly ein hallyriadau cyfwerth o garbon deuocsid (CO₂e) er mwyn i'n staff reoli eu defnydd o adnoddau.

Allyriadau CO₂e (tunelli) – tuedd 5 mlynedd



YNNI ¹	2023/24	2022/23
Allyriadau nwyon tŷ gwydr (CO₂e tunelli)		
Allyriadau gros, cwmpas 2 a 3 (anuniongyrchol)	16	17
Defnydd ynni (kWh)		
Trydan (adnewyddadwy)	60,439	72,854
Nwy	10,461	8,285
Dangosyddion ariannol (£)		
Gwariant – ynni	18,022	15,482
Costau cyflenwi dŵr (ystâd swyddfeydd) – methu asesu ar hyn o bryd, wedi'u cynnwys yn y tâl gwasanaeth	N/A	N/A

¹ Swyddfeydd yn unig. Nid yw effaith gweithio gartref wedi'i phennu.

Mae ein swyddfeydd yng Nghaerdydd a Bae Colwyn wedi'u lesio mewn adeiladau sy'n cael eu rhannu ag eraill, gyda rhai costau wedi'u cynnwys yn ein taliadau gwasanaeth. Mae'r trefniadau hyn yn cyfyngu ar ein gallu i asesu'n gywir ein holl effaith amgylcheddol o ddefnyddio ynni. Yn swyddfa Caerdydd mae ein prif ddefnydd ynni, lle mae'r landlord wedi cadarnhau bod 100% o'r cyflenwad yn dod o ffynonellau Adnewyddadwy Naturiol dilysadwy (gwynt, dŵr a hydro).

Rydym yn hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth sy'n ystyrllon o'r amgylchedd, ac yn annog ein staff i deithio yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl, gan roi ystyriaeth i ffactorau amgylcheddol ac ariannol. Rydym yn cydbwysu hyn yn erbyn y gwaith o gyflawni ein blaenoriaethau strategol i ddatblygu'r celfyddydau yng Nghymru, ac i hyrwyddo celfyddydau ac artistiaid Cymru'n rhyngwladol. Mae hyn yn cyflwyno her ymarferol sylweddol. Mae amrywiadau anochel yn lefel yr allyriadau CO₂e y gellir eu priodoli i deithio pan fyddwn yn cymryd rhan mewn prosiectau rhyngwladol.

TEITHIO STAFF	2023/24	2022/23
Allyriadau teithio (tunelli CO₂e)		
Trenau	3	3
Awyrennau ¹	23	24
Ceir/faniau	15	10
Costau teithio (£)		
Trenau	17,909	15,372
Awyrennau	18,703	19,317
Ceir/faniau	24,510	16,943
Teithio (milltiroedd)		
Trenau	51,705	45,407
Awyrennau	75,724	97,664
Ceir/faniau	53,821	36,083

¹ Yn cynnwys dylanwad y newid yn y cydbwysedd ymbelydrol mewn allyriadau teithio mewn awyren i gofnodi'r effaith fwyaf ar yr hinsawdd. Mae'r newid yn y cydbwysedd ymbelydrol yn fesur o effaith amgylcheddol allyriadau NOx (ocsidau nitrus) ac anwedd dŵr o'u hallyrru ar uchder mawr.



*Garden of the Unwanted Monument,
Utopias Bach (Llun: Lindsey Colbourne)*

Y prif risgiau ac ansicrwydd

Rheoli ein busnes yn effeithiol

A ninnau'n stiwardiaid arian cyhoeddus rhaid inni weithredu mewn modd effeithlon ac atebol. Mae'r Cyngor yn cytuno ar ein blaenoriaethau a phenderfyniadau ariannu yn unol â'r polisiau a'r gweithdrefnau sy'n berthnasol i'n defnydd o arian cyhoeddus. Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg yw sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymadau hyn, gan wneud hynny mewn ffyrdd sy'n dryloyw ac yn atebol ac sy'n rhoi gwerth am arian. Mae rhaglen helaeth o waith archwilio mewnol yn ein cynorthwyo gyda'r gwaith hwn.

Diogelu arian y cyhoedd

Rhan bwysig o waith y Pwyllgor yw adolygu ein hamddiffynfeydd yn erbyn Twyll a Seiberdrosedd. Mae ceisiadau i gael mynediad yn anghyfreithlon i'n harian a'n systemau TGCh yn digwydd yn rheolaidd. Mae'r Cyngor yn cymryd y materion hyn o ddifrif ac mae'r Pwyllgor yn edrych yn ofalus ar ein polisiau a'n prosesau er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn ac yn ddiogel. Ni chafwyd unrhyw ymosodiadau llwyddiannus yn ystod y flwyddyn.



Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC
(Llun: Yusef Bastawy)



Bechgyn Ballet Cymru
(Llun: Sian Trenberth Photography)

Cymryd risgiau: dull cytbwys

Mynediad anawdurdodedig i'n systemau yw un yn unig o amrywiaeth o risgiau posibl a allai beryglu ein perfformiad a'n henw da. Disgwylw'n i'r sefydliadau a ariannwn fod wedi'u rheoli'n dda ac iddynt roi gwerth da am arian. Mae ein gwaith monitro parhaus yn asesu i ba raddau mae hyn yn digwydd. Ond rhaid inni beidio â mynd mor ofnus o risg nes inni anwybyddu cyfleoedd pwysig i arloesi a thyfu. Ein nod yw cymryd risgiau priodol ond gwybodus, yn ôl yr amgylchiadau. Fodd bynnag, nid ydym yn ymddwyn yn ddi-hid; ni fyddem chwaith yn gwario arian cyhoeddus yn wastraffus nac yn peryglu ein henw da am gyflenwi mewn modd call ac effeithiol.

Mae ein systemau rheolaeth fewnol yn nodi ac yn blaenoriaethu'r risgiau a allai ein hatal rhag cyflawni polisiau, nodau ac amcanion y Cyngor. Maent yn gwerthuso'r tebygolrwydd y gwireddir y risgiau, yn ystyried eu heffaith pe digwyddent, ac yn ceisio eu rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Rydym yn ceisio gwella ein systemau rheolaeth fewnol o hyd.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu pa mor drylwyr ac addas yw'r agwedd hon ar waith y Cyngor. Craffwyd ar y Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol, a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol sydd ar wahân, yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Rhoddodd hyn fwy o eglurder i'r aelodau am y lefelau sicrwydd sydd ar waith ar draws holl weithgareddau'r Cyngor a'r risgiau cyfatebol a ganfyddir. Adolygodd y Pwyllgor yr adran Sganio'r Gorwel o'r Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol ym mhob un o'i gyfarfodydd.

Risg ariannol a rheoli cyfalaf

Deil y Cyngor offerynnau ariannol yn bennaf i gyllido ei weithrediadau, er enghraifft, dyledwyr a chredydwyr masnachol a balansau arian sy'n deillio'n uniongyrchol o'i weithrediadau. Gwneir y gwaith o reoli risgiau ariannol sy'n deillio o fasnachu offerynnau ariannol, dyledwyr a chredydwyr masnachol yn bennaf, drwy gyfres o bolisiau a gweithdrefnau.

Caiff y risgiau eu rheoli fel a ganlyn:

- **Risg twyll:** mae Cyngor y Celfyddydau, fel y rhan fwyaf o sefydliadau eraill, yn agored i risg twyll ar raddfa gynyddol a mwyfwy soffistigedig. Mae systemau ar waith i ddarganfod dyblygu rhaglenni a manylion talu. Rydym yn cymryd rhan yn ymarfer paru data y Fenter Twyll Genedlaethol. Caiff y staff hyfforddiant ymwybyddiaeth o dwyll bob blwyddyn.
- **Risg hylifedd:** mae'r Cyngor yn fodlon fod ganddo adnoddau hylifedd digonol, ar ffurf arian yn y banc ac arian y cytunwyd arno ar gyfer 2023/24, i fodloni pob ymrwymiad cyfredol a gontractiwyd. Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau yn agored i unrhyw risg sylweddol o ran hylifedd.
- **Risg cyfraddau llog:** delir balansau arian a chyfwerth ag arian mewn cyfrifon banc cyfradd amrywiol sy'n caniatáu cael yr arian ar unrhyw adeg. Ar gyfartaledd 3.18% oedd y gyfradd llog yn y flwyddyn [\(2022/23: 0.88%\)](#).

Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau yn agored i risgiau sylweddol o ran cyfraddau llog.

- **Risg arian tramor:** nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran cyfnewid arian tramor.
- **Risg llif arian:** nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran llif arian.
- **Risg credyd:** nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risg sylweddol o ran credyd gan fod y rhan fwyaf o'r dyledwyr yn ymwneud ag incwm Llywodraeth Cymru.

Y risgiau i'n perfformiad: y risgiau a sut yr ydym yn ymdrin â nhw

Prif risgiau	Camau lliniaru allweddol
<p>Llywodraethu</p> <p>Y Cyngor yn methu â sicrhau bod cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau yn hygyrch trwy ei bapurau a'r ffordd y bydd cyfranogwyr yn eu mynychu (e.e. wyneb yn wyneb neu o bell), yn arwain at anghyfartaledd yn y wybodaeth a rennir ag Aelodau a'r cyfraniadau gall yr Aelodau eu gwneud mewn cyfarfodydd.</p>	<p>Papurau'r Cyngor a phapurau priodol y Pwyllgorau wedi'u fformadu'n fersiynau testun plaen ac yn cydweddu â darllenwyr sgrin. Gwaith ychwanegol ar y gweill i adolygu a diwygio'r templedi presennol yn fersiynau sy'n cydweddu â thestun plaen. Ymwybyddiaeth a hyfforddiant ychwanegol i staff o ran cynhyrchu dogfennau hygyrch.</p> <p>Trefniadau hygyrchedd cyfarfodydd yn sicrhau tegwch i fynychwyr, wyneb yn wyneb ac ar-lein.</p>
<p>Cynllunio, strategaeth a chyflawni</p> <p>Cynllun/Strategaeth Gorfforaethol newydd ddim yn weithredol pan fyddwn yn negodi cytundebau ariannu newydd gyda sefydliadau sy'n derbyn cynigion cyllid aml-flwyddyn ar ôl asesiadau a phenderfyniadau'r Adolygiad Buddsoddi, yn arwain at ddiffyg gwybodaeth/cyfeiriad i ymgeiswyr er mwyn cytuno ar eu cynigion.</p>	<p>Adborth o ymgynghoriad yr Adolygiad Buddsoddi a'r canllawiau terfynol a gyhoeddwyd yn adlewyrchu ein strategaethau hirach dymor a phrif negeseuon ein Cynllun Strategol a gafodd ei ddatblygu ochr yn ochr â gweithgareddau'r Adolygiad Buddsoddi.</p> <p>Cafodd y dudalen Strategaeth ar ein gwefan ei diweddarau i gynnwys gwybodaeth allweddol am ein 6 egwyddor, i alinio â'r wybodaeth a gyhoeddwyd yng Nghanllawiau'r Adolygiad Buddsoddi.</p> <p>Caiff y Cynllun Strategol ei ddatblygu ymhellach gan arwain at ei gymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor ym mis Mai 2024, ynghyd â Chynllun Blynyddol 2024-25.</p>
<p>Rheolaeth ariannol ac adnoddau</p> <p>Mae'r argyfwng costau byw, a'i effaith yn y tymor hirach, yn cael effaith andwyol sylweddol ar y sector ac ar yr adnoddau sydd ar gael inni hefyd, gan gynnwys staffio.</p>	<p>Mewn ymateb i gyhoeddiad Llywodraeth Cymru o leihad 10.5% yn ein cymorth grant yn 2024-25, aethom ati i ail-broffilio ein gwariant, cynnal rhaglen o ddiswyddiadau gwirfoddol, ac ailstrwythuro'r Uwch Tîm Arwain. Cyfyngwyd y toriadau a wnaed i gynigion ariannu aml-flwyddyn y sefydliadau oedd yn llwyddiannus yn yr Adolygiad Buddsoddi i 2.5%. Rydym yn parhau i eirioli achos y celfyddydau i'r Llywodraeth a sicrhau cyllidebu effeithiol a llym. Byddwn yn monitro'r sefyllfa'n agos.</p>

Prif risgiau	Camau lliniaru allweddol
<p>Cyllid</p> <p>Gall newid deiliad trwydded y Loteri cael effaith negyddol ar lefelau incwm o'r Loteri a/ neu darfu ar wasanaethau busnes gan gynnwys derbyn incwm Loteri.</p>	<p>Mae deiliad newydd trwydded y Loteri Allwyn wedi dweud na fydd unrhyw ostyngiad i'r arian sydd ar gael ar gyfer achosion da. Byddwn yn monitro'r sefyllfa'n agos.</p>
<p>Rheoli grantiau</p> <p>Nid yw'r Adolygiad Buddsoddi'n cael ei gwblhau'n llwyddiannus ac mae'n methu i gyflawni canlyniadau targed.</p> <p>Mae'r prosiectau cyfalaf a ariennir ar hyn o bryd yn methu i sicrhau arian ychwanegol i dalu am gostau cynyddol, ac felly'n methu â gorffen.</p>	<p>Cyflawnasom yr Adolygiad Buddsoddi. Cymeradwywyd y penderfyniadau terfynol ym mis Chwefror 2024 ac mae gwaith negodi cytundebau ariannu aml-flwyddyn ar y gweill gyda'r sefydliadau llwyddiannus.</p> <p>Mae un prosiect cyfalaf mawr wedi sicrhau buddsoddiad ychwanegol. Cynaliam arolwg o'n prosiectau cyfalaf er mwyn asesu effaith.</p>
<p>TG</p> <p>Toriadau anrhagweledig neu annisgwyl i'r cyflenwad trydan yn peryglu parhad didor y busnes/</p> <p>Mae achos o dorri ein diogelwch TG.</p>	<p>Mae cynllun Adfer Ar Ôl Trychineb llawn yn bodoli ac yn cael ei brofi pob blwyddyn. Pe bai toriad yn digwydd, mae cyfleusterau TG eraill oddi ar y safle ar gael. Mae gan ein staff yr offer i weithio o bell, ac maent yn gwneud hynny heb unrhyw broblemau sylweddol o ran TG.</p> <p>Cynhelir profion seiberddiogelwch a hacio TG pob blwyddyn. Rydym yn cydymffurfio â safonau diogelwch IASME.</p> <p>Mae gennym drefniadau adrodd ac ymchwilio cadarn ar waith ar gyfer achos o dor diogelwch neu dor diogelwch data.</p>
<p>Data Personal</p> <p>Caiff data personol eu colli, eu peryglu neu eu dwyn.</p>	<p>Mae gan y Cyngor reolaethau a pholisïau ar waith i sicrhau diogelwch a chyfanrwydd data. Mae systemau TG wedi'u hamgryptio'n sicrhau bod diogelwch ffisegol data'n cael ei reoli'n gaeth. Mae staff yn cwblhau sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth yn rheolaidd.</p>
<p>Staffio</p> <p>Pwysau cyson i dorri costau'n lleihau capasiti'r staff i lefel annerbyniol.</p>	<p>Mae cyflawni rhaglen o weithgarwch sy'n ehangu gyda llai o staff yn destun pryder parhaus i'r Cyngor. Mae gwaith ar y gweill i gyflawni prosiectau sy'n cefnogi ffyrdd newydd o weithio. Caiff y cynnydd yn erbyn cynlluniau ei fonitro'n ofalus a'i adolygu pob chwarter, a gwneir pob ymdrech i roi arferion busnes effeithlon ar waith. Rheolwyd diswyddiadau gwirfoddol ac ailstrwythuro ar sail fesul cam er mwyn sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i gwblhau meysydd gwaith allweddol.</p>

Prif risgiau	Camau lliniaru allweddol
<p>Rheoli risgiau</p> <p>Mae ein polisiau a rheolaethau presennol yn methu â'n hamddiffyn rhag gweithgarwch twyllodrus posibl.</p>	<p>Caiff polisiau rheoli risg y Cyngor eu hadolygu'n rheolaidd. Rydym yn rhannu arferion da gyda Chyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru.</p> <p>Mae gweithdrefnau cadarn ar gyfer asesu a monitro ar waith yn ein holl feysydd gweithgarwch er mwyn sicrhau y caiff arian grant ei ddefnyddio at y diben a nodir.</p>
<p>Amgylchedd</p> <p>Caiff ein strategaeth gyhoeddedig i ddatblygu a hyrwyddo'r celfyddydau yng Nghymru ac yn rhyngwladol effaith niweidiol ar dargedau amgylcheddol y Cyngor.</p> <p>Mae gan yr argyfwng amgylcheddol presennol effaith fwy hirdymor ar genedlaethau'r dyfodol.</p>	<p>Mae'n ofynnol i brosiectau a gweithgarwch a gefnogwn yn ariannol trwy geisiadau am grantiau a thrwy gaffael dangos dealltwriaeth neu ddatblygiad o ystyriaethau amgylcheddol.</p> <p>Mae gennym achrediad Draig Werdd lefel 5 ac rydym yn mabwysiadu ystyriaethau cydnerthedd Cenedlaethau'r Dyfodol gan gynnwys ystyriaethau Masnach Deg, argraffu / nwyddau traul, defnydd o ynni ac ailgylchu ledled ein swyddfeydd. Mae ein Polisi Teithio a Chynhaliaeth wedi'i seilio ar arferion a chyfraddau Cyllid a Thollau EF a llywodraethau eraill.</p> <p>Mae trefniadau gweithio hybrid ar waith.</p> <p>Defnyddiwn rhith-gyfarfodydd, lle bo'n briodol, er mwyn arbed teithio ac amser. Rhoddir canllawiau i staff ynghylch mynychu cyfarfodydd a digwyddiadau allanol.</p> <p>Rheolwr Portffolio sy'n arwain ar ein hystyriaethau o ran Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys cyfiawnder newid hinsawdd. Rydym yn datblygu ein cynllun gweithredu cyfiawnder newid hinsawdd ein hunain. Cyfiawnder newid hinsawdd yw un o 6 blaenoriaeth allweddol ein Hadolygiad Buddsoddi a'r Strategaeth newydd.</p> <p>Mae ein Pwyllgor Cenedlaethau'r Dyfodol yn goruchwyllo'r maes hwn.</p>
<p>Cydraddoldebau</p> <p>Ychydig o gynnydd neu ddim o gwbl a wnawn mewn perthynas â'n hagenda cydraddoldeb.</p>	<p>Dan arweiniad ein Hasiant er Newid, rydym yn dal i fwrw ymlaen â'n hagenda trwy'r cydgynllun gweithredu â chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol ni; ynghyd â'r cydgynllun gweithredu Ehangu Ymgysylltiad ag Amgueddfa Cymru.</p> <p>Cydraddoldebau ac Ehangu Ymgysylltiad yw un o'r chwe egwyddor allweddol sy'n sylfaen i'n Hadolygiad Buddsoddi a'n Strategaeth newydd.</p> <p>Rydym yn dal i gefnogi cynllun Hynt i hyrwyddo cynnig cyson i ymwelwyr anabl a'u cynorthwywyr personol/gofalwyr mewn lleoliadau ledled Cymru.</p> <p>Rydym yn parhau i ddarparu'r rhaglen Camau Creadigol, yn cynnig cymorth a dargedwyd i unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol a sefydliadau a arweinir gan a/neu sy'n gweithio â chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn hyrwyddo datblygiadau o ran busnes, sefydliad a gyrfa.</p>

Adolygiad ariannol a busnes

Mae gan y Cyngor ddwy brif ffynhonnell cyllido: cymorth grant gan Lywodraeth Cymru; ac, a ninnau'n un o'r cyrff sy'n gyfrifol am ddsbarthu arian ymhlith achosion da, cyfran o'r arian a godir gan y Loteri Genedlaethol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyfrifyddu ar wahân am ei weithgareddau cymorth grant a dosbarthu arian y loteri.

Polisiau rhoi grantiau

Mae'r Cyngor yn gwahodd ceisiadau am grantiau rheolaidd ac untro gan sefydliadau ac unigolion ac yn monitro'r defnydd priodol ac effeithiol o'r grantiau hynny. Yn ogystal â bodloni amcanion strategol y Cyngor, rhaid i geisiadau ddangos budd i bobl Cymru ledled yr holl sectorau rhanbarthol, diwylliannol ac economaidd. Caiff grantiau rheolaidd eu cyllido o gymorth grant yn unig ond gellir cyllido grantiau untro o gymorth grant neu incwm y Loteri. O dan delerau ei Gyfarwyddiadau Polisi Loteri mae'r Cyngor yn rhoi grantiau i gynorthwyo prosiectau cyfalaf ac eraill o dan gynlluniau refeniw sy'n ymwneud â'r celfyddydau yng Nghymru.

Rhoddir grantiau rheolaidd, neu refeniw blynyddol, i bortffolio o sefydliadau i ddarparu gwasanaethau artistig o ansawdd da – **Portffolio Celfyddydol Cymru**. Mae ystyried statws refeniw unrhyw sefydliad yn dibynnu ar argaeledd cyllid, cynaliadwyedd y sefydliad, a phrawf ei fod yn cydweddu'n gryf â blaenoriaethau strategol y Cyngor. Ar hyn o bryd, mae pob sefydliad refeniw yn ymrwymo i gytundeb cyllido am gyfnod rhwng un a thair blynedd sy'n nodi'r lefel o gyllid a ragwelir, y rhaglen weithgarwch i'w chyflawni, gofynion monitro ac adolygu bob blwyddyn, amodau safonol grant ac unrhyw amodau ychwanegol.

Mae grantiau cyfalaf y Loteri, i sefydliadau yn unig, yn cynorthwyo â phrynu, gwella, adfer, adeiladu neu greu ased a gaiff ei ddefnyddio er budd y cyhoedd i ddatblygu gwaith y sefydliad.



James McVinnie, Tŷ Cerdd, (Llun: Matthew Thistlewood)

Mae'r Cyngor yn dirprwyo ei waith rhoi grantiau Loteri mewn nifer o feysydd strategol i Ffilm Cymru Wales, Nesta, BBC Cymru Wales, Llenyddiaeth Cymru a Thŷ Cerdd. Nodir telerau'r dirprwyo allanol mewn cytundebau ffurfiol a bodlonant amodau Datganiad o Ofynion Ariannol y Cyngor.

Ni newidir rhwymedigaethau Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor gan y dirprwyo. Ond mae wedi'i fodloni ei hun bod y sefydliadau a'u systemau'n addas i gyflawni'r swyddogaethau dirprwyedig, gan gynnwys: asesu ceisiadau am gyllid; dal arian y Loteri a ddyrennir iddynt gan y Cyngor at y diben hwnnw, rhoi cyfrif amdano a'i ddsbarthu; a monitro'r prosiectau a gyllidir.

Mae'r cytundebau dirprwyo'n caniatáu ar gyfer mynediad priodol at y sefydliadau a ddirprwyir iddynt gan archwilwyr mewnol y Cyngor a gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i adolygu gweithrediad y swyddogaethau dirprwyedig.

Mae grantiau untro ar gael i helpu i gyllido prosiectau artistig cyfyngedig o ran amser, o ansawdd da, a fodlona flaenoriaethau cyllido'r Cyngor yn y modd gorau. Mae gwaith i fonitro ein rhaglenni grant yn barhaus yn ein rhybuddio am unrhyw broblemau penodol o ran risg. Mae risgiau a nodir yn arwain at godi lefel y monitro ac, os oes angen, yn gallu arwain at beidio â thalu cyllid a/neu ohirio ei dalu.

Cronfeydd arian parod wrth gefn – Gweithgareddau Cyffredinol

Polisi'r Cyngor ar gronfeydd cyfyngedig yw cofnodi ar wahân grantiau, rhoddion a ffynonellau incwm eraill a geir ar gyfer diben neu brosiect penodol, neu lle bo'r cyfyngiadau a osodir yn gulach nag amcanion cyffredinol y Cyngor. Mae'r holl adnoddau hyn a ddaeth i mewn wedi cael eu defnyddio yn ystod y flwyddyn at eu diben bwriadedig.

Neilltuir y rhan fwyaf o gyllid anghyfyngedig y Cyngor yn ystod y flwyddyn, yn unol ag amodau'r cymorth grant a roddir gan Lywodraeth Cymru. Caiff unrhyw arian dros ben ei gario ymlaen a'i ddefnyddio i hyrwyddo amcanion siartredig y Cyngor yn y flwyddyn wedyn. Nid oedd unrhyw arian dynodedig ar 31 Mawrth 2024.

Cyfyngir ar ein gallu i ddal cronfeydd arian parod wrth gefn gan gyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru ar hyblygrwydd diwedd mis a diwedd blwyddyn. O fewn y paramedrau hynny, ein polisi yw rheoli llif arian drwy dynnu arian i lawr bob mis i dalu gwariant wedi'i gynllunio, gyda lwfans bach ar gyfer gofynion arian parod tymor byr nas rhagwelwyd. Adolygwn y polisi hwn a'n sefyllfa o ran cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn.

Ar 31 Mawrth 2024 £0.384 miliwn oedd y cronfeydd arian parod anghyfyngedig (2023: £0.279m).

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw ac nid oes unrhyw ansicrwydd sylweddol ynghylch ein gallu i barhau i weithredu.

Buddsoddi

Rheolir pwerau buddsoddi gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000, y Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a'r Cyfarwyddiadau Ariannol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Polisi'r Cyngor yw cael yr elw mwyaf posibl o fewn y telerau hyn. Cawn log ar gyfradd wedi'i negodi cysylltiedig â chyfradd sylfaenol y banc ar bob balans credyd yng nghyfrifon cyfredol y Cyngor. O bryd i'w gilydd, gallai cyfraddau uwch fod ar gael ar gyfer cronfeydd cyfyngedig ar adnau hirdymor.

Darperir gwasanaeth bancio'r Cyngor gan **Santander UK plc**.

Caiff yr holl log ac incwm arall o fuddsoddiadau a enillir ar arian parod a balansau banc sy'n codi o ganlyniad i gyllid oddi wrth Lywodraeth Cymru ei ildio i Drysorlys Ei Fawrhydi drwy Gronfa Gyfunol Cymru.


Erys balansau a ddelir yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol o dan stiwardiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, felly, er bod y Cyngor yn cael incwm o fuddsoddiadau ar ei gyfran yntau o'r fath falansau, nid oes gan y Cyngor unrhyw bwerau buddsoddi dros y Gronfa.

Talu credydwy

Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 a Chod Ymarfer Talu Gwell Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n ofynnol i'r Cyngor dalu anfonebau cyflenwyr lle na cheir anghydfod yn eu cylch cyn pen 30 diwrnod ar ôl cael nwyddau neu wasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Ein nod yw talu'r holl anfonebau, gan gynnwys anfonebau y cafwyd anghydfod yn eu cylch ar ôl i'r anghydfod gael ei ddatrys, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, talodd y Cyngor 99% (2022/23: 99%) o'r holl anfonebau yn unol â thelerau ei bolisi talu.

Mae gan y Cyngor nod pellach o dalu anfonebau cyn pen 10 diwrnod. Ar gyfer 2023/24, talwyd 79% (2022/23: 99%) o anfonebau cyn pen 10 diwrnod.



Ni ragwelir y bydd ein polisi'n newid yn y blynyddoedd i ddod a byddwn yn parhau i fabwysiadu targedau perfformiad heriol.

Canlyniadau ariannol – Gweithgareddau Cyffredinol

	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Penawdau o'r cyfrifon Gweithgareddau Cyffredinol:		
Cyfanswm incwm am y flwyddyn	43,580	61,216
Gwarged incwm dros wariant	43	239
Asedau cyfredol net	2,605	2,725
Cyfanswm y balansau arian ar 31 Mawrth	2,701	2,658
Blaenymrwymiadau grantiau ar gyfer y flwyddyn wedyn	25,123	27,180
Dengys y cyfrifon Dosbarthu Arian y Loteri ar wahân:		
Cyfran y Cyngor o'r derbyniadau o'r Loteri Genedlaethol	17,234	17,681
Y cyfuniad:		
Cyfanswm yr incwm ar gyfer gweithgareddau cyffredinol a Loteri oedd	62,343	79,562
a		
Chyfanswm y gwariant elusennol ar y celfyddydau ar gyfer gweithgareddau cyffredinol a Loteri oedd	60,421	78,113

£17.6 miliwn oedd incwm y Cyngor ar gyfer 2023/24, 29% yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

Roedd ein hincwm yn 2022/23 yn cynnwys £23.5 miliwn o gyllid cyfalaf cyfyngedig gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ailddatblygu Theatr Clwyd. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo ac rydym yn parhau i dynnu arian i lawr gan Lywodraeth Cymru, a rhyddhau'r grant i'r awdurdod lleol er mwyn talu costau'r prosiect wrth iddynt ddod yn ddyledus. Mae ein mantolen yn adlewyrchu'r llifau arian ond ni chafodd unrhyw effaith ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol eleni.

Yn dilyn gwaith datblygu cychwynnol ac ymgynghori yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dechreuodd prosiect arwyddocaol arall a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn 2023/24. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gyflenwi Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru. Bydd y prosiect yn rhedeg o 2023-25 a bydd y model dosbarthol yn ariannu 9 oriel yng Nghymru i wella eu hadeiladau ac i sefydlu strwythurau gweithredu priodol. Rydym yn cydnabod £5 miliwn gan Lywodraeth Cymru eleni a dyfarnwyd grantiau gwerth £4 miliwn i'r orielau gennym.

Dechreuasom ymarfer ailstrwythuro staff ar draws y Cyngor yn ystod y flwyddyn, er mwyn mynd i'r afael â'r toriad mewn cymorth grant yn 2024/25 a'r costau gweithredu cynyddol. Yn unol â'n polisi ar gyfer rhannu costau rheoli a gweinyddol rhwng ein gweithgareddau Cyffredinol a gweithgareddau'r Loteri, mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys cyfran o'r taliadau iawndal i staff a fydd yn gadael y Cyngor wedi'u rhannu rhwng y ddau. Mae Llywodraeth Cymru wedi talu'r costau hyn yn llawn, felly cafodd yr incwm ei rhannu yn yr un modd.

Yn gyffredinol, cafwyd cynnydd net o £43,000 yn y Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol; gostyngodd y cronfeydd cyfyngedig £787,000 a chynyddodd y cronfeydd anghyfyngedig £830,000.

Mae'r gostyngiad yn y cronfeydd cyfyngedig yn adlewyrchu ein defnydd o gronfeydd wrth gefn o'r flwyddyn flaenorol ar gyfer y rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau. Cafwyd lleihad anochel mewn gweithgarwch yn ystod y pandemig pan oedd ysgolion yn wynebu llawer o darfu.

Mae'r cynnydd yn y cronfeydd anghyfyngedig yn gysylltiedig yn bennaf â'r oedi yn y gwaith o gyflawni rhai elfennau o'n rhaglenni strategol. Cafodd y cyllid ei drosglwyddo i gyllideb y flwyddyn nesaf.

Ar 31 Mawrth 2024 roedd gennym gronfeydd wrth gefn anghyfyngedig o £1.9 miliwn (2023: £1.1m) a chronfeydd wrth gefn cyfyngedig o £0.8 miliwn (2023: £1.6m). Ceir effaith uniongyrchol ar lefel ein cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig gan bolisi Llywodraeth Cymru ar falansau arian parod diwedd blwyddyn, fel y nodir yn yr adran *Cronfeydd arian parod wrth gefn* uchod. Caniateir i'r Cyngor gario drosodd o'r naill flwyddyn ariannol i'r nesaf ddim mwy na 2% o gyfanswm ei incwm na ddaw o'r Loteri. Roeddem o fewn y cap hwn ar 31 Mawrth 2024.

Canlyniadau ariannol – Dosbarthu Arian y Loteri

	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Penawdau o gyfrifon Dosbarthu Arian y Loteri:		
Cyfran o'r derbyniadau o'r Loteri Genedlaethol	17,234	17,681
Grantiau net a roddwyd	14,661	15,170
Gwariant net am y flwyddyn	(832)	(855)
Balans a ddaliwyd yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol ar 31 Mawrth	18,715	24,399
Cronfeydd wrth gefn ar 31 Mawrth	4,493	5,325

Grantiau a broseswyd

	2023/24	2022/23
Nifer y ceisiadau a ddaeth i law:		
Cynlluniau cyfalaf	11	4
Cynlluniau refeniw	1,367	955
	1,378	959
Nifer y grantiau a roddwyd:	674	502
Gwerth y grantiau a roddwyd:	£'000	£'000
Cynlluniau cyfalaf	444	330
Cynlluniau refeniw	15,544	15,003
	14,988	15,333
Grantiau oedd yn daladwy 31 Mawrth:		
Cynlluniau cyfalaf	7,696	7,471
Cynlluniau refeniw	10,551	12,252
	18,247	19,723

Arhosodd incwm o'r Loteri Genedlaethol yn gyson eleni. Roedd ein cyfran o enillion £0.4 miliwn yn is nag yn 2022/23 ond bu cynnydd o £0.5 miliwn yn incwm buddsoddi ar falansau'r Gronfa Dosbarthu Arian y Loteri.

Daeth Allwyn yn weithredwr newydd trwydded y Loteri Genedlaethol ar 1 Chwefror 2024, y newid cyntaf ers dechrau'r Loteri 30 o flynyddoedd yn ôl. Mae Allwyn wedi ymrwymo i fuddsoddi'n sylweddol dros y 10 blwyddyn nesaf a chyflwyno newidiadau'n raddol a fydd yn arwain at fwy o arian i'r achosion da. Mae arwyddion cynnar yn dangos bod incwm yn dal ei dir o gymharu â thueddiadau hanesyddol. Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro'r arian a dderbynnir gan yr achosion da a'r effaith posibl ar ein rhaglenni a ariennir gan y Loteri yn y dyfodol.

Mae neilltuo cyllid ar gyfer ein rhaglen Gyfalaf barhaus a chynnydd gwaith datblygu'r prosiectau allweddol hynny yn parhau i gael effaith ar ein llif arian blynyddol. Neilltuodd y Cyngor £22 miliwn i'r rhaglen yn 2012/13 am gyfnod o bum mlynedd. Fodd bynnag, mae sawl prosiect blaenoriaeth yn parhau i fod yn y camau datblygu ac mae'r Cyngor yn ei ystyried yn bwysig ei fod yn dangos ymrwymiad iddynt, ac i arianwyr eraill, trwy adael y cynigion cyllido dangosol yn eu lle. Felly mae gweddill ein dyraniad cyllideb cyfalaf sy'n werth oddeutu £1.2 miliwn wedi'i drosglwyddo i 2024/25.

Yn ogystal â'n cynlluniau ariannu parhaus, derbyniasom incwm partneriaeth gan Sefydliad Baring ar gyfer ein rhaglen Celfyddydau, Iechyd a Lles, a gan gorff Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer Cymrodoriaethau Cymru'r Dyfodol.

Dechreuasom ymarfer ailstrwythuro staff ar draws y Cyngor yn ystod y flwyddyn, er mwyn mynd i'r afael â'r toriad mewn cymorth grant yn 2024/25 a'r costau gweithredu cynyddol. Yn unol â'n polisi ar gyfer rhannu costau rheoli a gweinyddol rhwng ein gweithgareddau Cyffredinol a gweithgareddau'r Loteri, mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys cyfran o'r taliadau iawndal i staff a fydd yn gadael y Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru wedi talu'r costau hyn yn llawn, felly rydym hefyd wedi cydnabod y gyfran incwm yn y cyfrifon hyn.

Ar ddiwedd y flwyddyn £18.247 miliwn oedd cyfanswm y grantiau taladwy (2023: £19.723m). £23.348 miliwn oedd cyfanswm yr arian nas tynnwyd i lawr yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol plws arian parod a chyfwerth ag arian parod (2023: £26.819m). Gostyngodd ein cyfran ni o'r balansau a ddelir yng Nghronfa Dosbarthu Arian y Loteri Genedlaethol oddeutu 23% o gymharu â'r diwedd blwyddyn diwethaf, gan adlewyrchu rhyddhad y taliadau grant i nifer o brosiectau cyfalaf sylweddol sydd bellach ar y safle neu'n dod at eu terfyn.

Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff

Cyfle cyfartal

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i bolisi cyfle cyfartal yn ei arferion cyflogi. Yn benodol, nod y Cyngor yw sicrhau nad yw unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai gwirioneddol yn cael triniaeth fwy neu lai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws o ran priodas neu fod yn rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r Cyngor yn cyhoeddi **Datganiad Polisi Cyflogau** bob blwyddyn. Mae hwn yn cynnwys dadansoddiad manwl o gyfansoddiad ein staff. Mae hefyd yn rhoi sylw i adrodd ar Gydraddoldeb Rhywiol a Chyflogau Cyfartal.

Mae'r Cyngor yn sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael i gyflogeion anabl. Mae arwyddion cyhoeddus hefyd yn hyrwyddo'r Cyngor fel sefydliad dwyieithog.

Ein polisiau Adnoddau Dynol

Nod y Cyngor yw bod yn gyflogwr blaengar sy'n ystyriol o deuluoedd. Rydym yn gweithredu polisiau Adnoddau Dynol sy'n adlewyrchu ein rhwymedigaethau cyfreithiol fel cyflogwr. Mae polisiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau perthnasol yn y ddeddfwriaeth. Caiff y ffordd y rheolir polisiau Adnoddau Dynol y Cyngor ei monitro gan y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol.

Cyfathrebu, ymgynghori a negodi â'r cyflogeion

Unite yw'r undeb llafur a gydnabyddir gan y Cyngor, ac mae wedi dod i gytundeb gweithdrefnol ag ef; mae cynrychiolwyr y rheolwyr a'r undeb yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion o bryder cyfredol.

Rydym yn cynnal arolygon staff yn rheolaidd er mwyn canfod unrhyw broblemau neu feysydd ar gyfer gwella.



Cydnabyddiaeth ariannol

Cytunir â Llywodraeth Cymru ar delerau penodi'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Mae'r Cyngor yn talu gweddill y staff yn unol â system gyflog a graddio y cytunwyd arni.

Gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau caiff y Cadeirydd gydnabyddiaeth ariannol ar gyfradd a bennir gan Lywodraeth Cymru sy'n adlewyrchu ymroddiad amser lleiaf i fusnes y Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhoi cyngor ar y cynnydd blynyddol yng nghyflog y Cadeirydd ond ni chaiff daliadau bonws ac nid yw'n aelod o gynllun pensiwn Cyngor y Celfyddydau.

Mae cydnabyddiaeth ariannol y Prif Weithredwr yn cynnwys cyflog sylfaenol a chymhwysedd i gael bonws blynyddol. Mae'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chydnabyddiaeth Ariannol yn argymhell bonysau blynyddol i'r Cyngor ar ôl ystyried perfformiad y Prif Weithredwr yn ôl nifer o amcanion a bennir ymlaen llaw.

Caiff aelodau'r Cyngor eu penodi gan Weinidogion Cymru am gyfnod o dair blynedd a gellir eu hailbenodi am gyfnod pellach. Cymerodd y Cadeirydd presennol, Maggie Russell, y swydd ar 1 Ebrill 2023.

Caiff y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr – yr Uwch Tîm Arwain – eu cyflogi ar gcontractau parhaol yn unol â thelerau ac amodau safonol y Cyngor. Mae hawl ganddynt i gael rhybudd o 13 o wythnosau o derfynu eu cyflogaeth. Dyddiadau dechrau a therfyn y gyflogaeth yw:



Maggie Russell

Cadeirydd
1 Ebrill 2023



Dafydd Rhys

Prif Weithredwr
17 Hydref 2022



Richard Nicholls

Cyfarwyddwr Gweithrediadau
28 Medi 2020 i 6 Ebrill 2024



Rebecca Nelson

Cyfarwyddwr Cyllid a
Gwasanaethau Busnes
17 Mehefin 2019 i 2 Awst 2024



Diane Hebb

Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau
o 1 Chwefror 2012 ymlaen
13 Ionawr 1992



Lleucu Siencyn

Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau
9 Mai 2022 i 8 Ebrill 2024

Mae trefniadau dros dro wedi bod ar waith ers i'r cyfarwyddwyr blaenorol ymadael â'r Cyngor. Mae'r Cyfarwyddwr y Celfyddydau a'r Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes newydd yn dechrau yn eu swyddi ym mis Hydref 2024.

Absenoldeb salwch

Ar draws y Cyngor cyfan:

	2023/24	2022/23
Diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch	1,030	715
Nifer gyfartalog y cyflogeion (cyfrif pennau)	93.58	91.92
Nifer gyfartalog y diwrnodau a gollwyd fesul cyflogai	11.01	7.78

Cyfradd absenoldeb o 4.39% yw hon (2022/23: 3.12%) ar sail 250.5 (2022/23: 249.5) o ddyddiau gweithio.



Trosiant staff

Ar draws y Cyngor cyfan:

	2023/24	2022/23
Nifer gyfartalog y cyflogeion (cyfrif pennau)	93.58	91.92
Ymadawyr	14	8
Dechreuwyr	14	11
Trosiant cyfartalog ²	14.96%	8.70%

¹ Yn cynnwys 3 diswyddiad gwirfoddol (2022/23: Dim)

² Trosiant cyfartalog heblaw gwirfoddolwyr diswyddo 11.75% (2022/23: 8.70%)

Cyfrifir y trosiant cyfartalog fel a ganlyn:

$$\frac{\text{cyfanswm nifer yr ymadawyr yn y flwyddyn}}{\text{cyfanswm cyfartalog y rhai a gyflogwyd yn y flwyddyn}} \times 100$$

Ymgynghoriaeth

Yn ystod 2023/24 ni dalodd y Cyngor unrhyw gostau ymgynghoriaeth (2022/23: £2,000) mewn perthynas â chyngor a barn arbenigol a gafwyd i gynorthwyo â gwneud penderfyniadau strategol. Ni chodir unrhyw beth (2021/22: £1,000) yn y datganiadau ariannol hyn.

Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gyfarwyddo gweithgareddau'r Cyngor. Roedd eu gwir daliadau a'u buddion pensiwn fel y'u dangosir yn y tablau canlynol.

Mae swm y buddion pensiwn am y flwyddyn sy'n cyfrannu at gyfanswm ffigurau unigol cydnabyddiaeth ariannol yn cael ei gyfrifo mewn ffordd debyg i'r dull a ddefnyddir i ddeillio gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth, ac mae wedi'i seilio ar wybodaeth a gafwyd oddi wrth actiwari Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994.

Dyma sut y cyfrifir gwerth buddion pensiwn:

$(\text{gwir gynnydd yn y pensiwn}^* \times 20) + (\text{gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad}) - (\text{cyfraniadau a wnaed gan yr aelod})$

*gan eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu leihad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid swm yw hwn a dalwyd i unigolyn gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn, ond cyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn, e.e. newidiadau yng nghyflog yr unigolyn, a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol at y cynllun pensiwn o'i gyflog ai peidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn gyffredinol.



Ncheta Aurora Trinity Collective,
Artes Mundi, Oriel Gelf Glynn
Vivian, (Llun: Polly Thomas)

Cyfanswm ffigurau unigol cydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Tîm Arwain (wedi'i archwilio):

Enw Swydd	2023/24			2022/23		
	Band taliadau £'000	Buddion pensiwn £'000	Cyfanswm unigol cydnabyddiaeth ariannol £'000	Band taliadau £'000	Buddion pensiwn £'000	Cyfanswm unigol cydnabyddiaeth ariannol £'000
Dafydd Rhys Prif Weithredwr o 17 Hydref 2022 Cyfwerth â blwyddyn lawn	105-110	24	130-135	45-50 100-105	11	55-60
Michael Elliott¹ Prif Weithredwr Dros Dro o 7 Mawrth 2022 i 1 Tachwedd 2022 Cyfwerth â blwyddyn lawn	N/A	N/A	N/A	65-70 100-105	-	65-70
Richard Nicholls² Cyfarwyddwr Gweithrediadau hyd 6 Ebrill 2024	105-110	16	120-125	80-85	17	95-100
Diane Hebb Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau	85-90	(18)	65-70	80-85	(35)	45-50
Rebecca Nelson Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes hyd 2 Awst 2024	85-90	13	95-100	80-85	13	90-95
Lleucu Siencyn³ Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau o 9 Mai 2022 i 8 Ebrill 2024 Cyfwerth â blwyddyn lawn	125-130	19	145-150	65-70 70-75	14	80-85

¹ Dewisodd y Prif Weithredwr Dros Dro beidio ag ymuno â chynllun pensiwn ac nid oedd unrhyw reidrwydd i'w gofrestru'n awtomatig.

² Mae cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Gweithrediadau'n cynnwys iawndal gwerth £21,373 am gollu ei swydd yn 2023/24.

³ Mae cydnabyddiaeth Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau'n cynnwys iawndal gwerth £45,427 am gollu ei swydd yn 2023/24.

Buddion pensiwn yr Uwch Tîm Arwain (wedi'u harchwilio):

	2023/24 £'000	2023/24 £'000	2023/24 £'000	2022/23 £'000	2023/24 £'000
Enw Swydd	Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 65 oed	Cyfanswm pensiwn cronedig yn 65 oed ar 31/03/24, neu ddyddiad ymadael os yw'n gynharach, a chyfandaliad cysylltiedig	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ¹ ar 31/03/24	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/23, neu ddyddiad ymadael os yw'n gynharach	Gwir gynnydd ² yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod
Dafydd Rhys Prif Weithredwr	Pensiwn 0-2.5 Cyfandaliad 2.5-5	Pensiwn 0-5 Cyfandaliad 5-10	32	9	15
Richard Nicholls Cyfarwyddwr Gweithrediadau hyd 6 Ebrill 2024	Pensiwn 0-2.5 Cyfandaliad 2.5-5	Pensiwn 0-5 Cyfandaliad 5-10	30	20	3
Diane Hebb Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau	Pensiwn (2.5)-0 Cyfandaliad (2.5)- 0	Pensiwn 25-30 Cyfandaliad 75-80	428	390	(15)
Rebecca Nelson Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes hyd 2 Awst 2024	Pensiwn 0-2.5 Cyfandaliad 0-2.5	Pensiwn 5-10 Cyfandaliad 15-20	38	28	1
Lleucu Siencyn Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau hyd 8 Ebrill 2024	Pensiwn 0-2.5 Cyfandaliad 2.5-5	Pensiwn 0-5 Cyfandaliad 5-10	18	7	5

¹ Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod – Ystyr Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafol buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd gan actiwari. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw pensiwn amodol a ddeler i'w briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymdrin â'r buddion mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w holl aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnodd yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Caiff Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Gyfadrann Actiwariadaid ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawli'r buddion pensiwn.

² Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod – Dyma'r newid i'r Gwerth heb chwyddiant, cyfraniadau cyflogai (gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â phrynu blynyddoedd ychwanegol) a thaliadau trosglwyddo i mewn.

Caiff y Cadeirydd gydnabyddiaeth ariannol am ei wasanaethau neu ei gwasanaethau ond ni chaiff unrhyw daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn. Nid yw Aelodau eraill o'r Cyngor nac Aelodau o'r Pwyllgorau yn cael unrhyw dâl am eu gwasanaethau. Ad-dalwyd swm crynswth o £7,165 (2022/23: £3,035) i 15 (2022/23: 11) o aelodau'r Cyngor am gostau teithio a chynhaliaeth yr aed iddynt ar fusnes y Cyngor. Y swm crynswth a ddyrennir i Weithgareddau Dosbarthu Arian y Loteri oedd £2,933 (2022/23: £2,033).

Roedd cyfanswm y gwir daliadau i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cynnwys (wedi'u harchwilio):

Cadeiryddion¹

Cadeirydd (ers 1 Ebrill 2023) – Maggie Russell

Cyflog

Cadeirydd (hyd 31 Mawrth 2023) – Phil George

Cyflog

Cadeirydd dros dro (o 1 Hydref 2022 i 31 Mawrth 2023) – Kate Eden

Cyflog

Cyfanswm y Cadeiryddion

Cyflog

2023/24 £	2022/23 £
43,810	-
-	25,556
-	17,524
43,810	43,080

¹ Arhosodd Phil George yn ei swydd hyd ddiwedd ei gyfnod swydd ar 31 Mawrth 2023. Cafodd daliadau am ei wasanaethau hyd fis Hydref 2022 pan benodwyd Kate Eden yn Gadeirydd Dros Dro am weddill y flwyddyn ariannol ddiwethaf oherwydd ei iechyd gwael.

Prif Weithredwyr

Prif Weithredwr (ers 17 Hydref 2022) – Dafydd Rhys

Cyflog

Cyfraniad pensiwn y cyflogwr

Cyn Brif Weithredwr Dros Dro (o 7 Mawrth 2022 i 1 Tachwedd 2022) – Michael Elliott

Cyflog

Cyfanswm y Prif Weithredwyr

Cyflog

Cyfraniad pensiwn y cyflogwr

106,922	46,721
21,277	9,746
128,199	56,485
-	65,643
106,922	112,364
21,277	9,764
128,199	122,128

Caiff 34% (2022/23: 34%) o daliadau'r Cadeiryddion a 28% (2022/23: 28%) o daliadau'r Prif Weithredwyr eu codi ar y datganiadau ariannol hyn, a'r gweddill ar weithgareddau cyffredinol.

Costau teithio a chynhaliadau yr aed iddynt ac a ad-dalwyd ar fusnes y Cyngor:

Cadeiryddion

Prif Weithredwyr

2023/24 £	2022/23 £
1,223	593
12,037	11,050

Caiff 49% (2022/23: 49%) o dreuliau'r Cadeiryddion a'r Prif Weithredwyr eu codi ar y datganiadau ariannol hyn, a'r gweddill ar weithgareddau cyffredinol.

Heblaw aelodau'r Uwch Tîm Arwain a restrir uchod, dyma nifer y cyflogeion (y Cyngor cyfan) a gafodd gydnabyddiaeth ariannol am y flwyddyn, ac eithrio cyfraniadau pensiwn gan y cyflogwr, gwerth mwy na £60,000:

	2023/24	2022/23
£60,000 to £69,999	-	1
£70,000 to £79,000	1	-

Cyflog teg (wedi'i archwilio)	2024	2023
Dyma ystod y gydnabyddiaeth ariannol flynyddol (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth (y Cyngor cyfan):	£26,277 to £106,922	£25,026 to £101,830

Y Prif Weithredwr yw'r aelod staff sy'n cael y cyflog mwyaf. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Prif Weithredwr codiad cyflog o 5% (2022/23: dim newid). Cafodd y staff cyfan godiad cyflog o 5% (2022/23: 4%) hefyd.

Dyma gydnabyddiaeth ariannol flynyddol (cyfwerth ag amser llawn) y cyflogeion a'r cymarebau rhwng pob un o'r rhain a chyflog y Prif Weithredwr ar 31 Mawrth (y Cyngor cyfan):		
Canradd 25	£32,915 1:3.2	£31,348 1:3.2
Canradd canolrifol (50)	£47,861 1:2.2	£45,582 1:2.2
Canradd 75	£47,861 1:2.2	£45,582 1:2.2

Dim ond cyflog yw'r gydnabyddiaeth ariannol flynyddol. Ni thalwyd unrhyw fuddion ac ni thalwyd unrhyw gyflog ar sail perfformiad.

Cyfansoddiad y staff ar 31 Mawrth (cyfwerth ag amser llawn - y Cyngor cyfan)	2024			2023		
	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Uwch Tîm Arwain	2	3	5	2	3	5
Rheolwyr Portffolio/Penaethiaid Adrannau	7	10	17	8	9	17
Uwch Swyddogion	14	22	36	13	22	35
Swyddogion	2	9	11	3	9	12
Cydgysylltwyr Tîmau/Cynorthwywyr Personol	3	15	18	2	16	18
	28	59	87	28	59	87
	32%	68%		32%	68%	

Cynlluniau iawndal – pecynnau ymadael (Cyngor cyfan) (wedi’u harchwilio):

Band cost y pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd		Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost	
	2023/24	2022/23	2023/24	2022/23	2023/24	2022/23
£10,000 i £24,999	-	-	2	-	2	-
£25,000 i £49,999	1	-	4	-	5	-
£50,000 i £99,999	-	-	4	-	4	-
£100,000 i £149,999	-	-	2	-	2	-
Cyfanswm y pecynnau ymadael	1	-	12	-	13	-
Cyfanswm y gost (£'000)	45	-	735	-	780	-

Mae pecynnau ymadael yn cynnwys taliadau diswyddo, a lle bo’n berthnasol, cyflog contractiol yn lle rhybudd, tâl gwyliau cronrus a chyflog cronrus ar gyfer oriau dros ben sy’n ddyledus ar ddyddiad terfynu’r swydd.

Pennwyd taliadau diswyddo yn unol â darpariaethau polisi diswyddo’r Cyngor. Mae’r Cyngor fel arfer yn talu costau ymadael pan ddaw cyflogaeth i ben ond mae’n darparu ar gyfer y costau ymadael llawn ar y pwynt lle mae gwybodaeth fanwl ddigonol ar gael i wneud hynny.

Roedd yr holl ‘ymadawiadau eraill a gytunwyd’ yn ymwneud â cheisiadau am ddiswyddo, lle, yn unol â pholisi diswyddo’r Cyngor, diflannodd swyddi’r cyflogeion yn y strwythur newydd, neu cafodd y swyddi eu llenwi gan gyflogeion eraill a fydda wedi cael eu diswyddo’n orfodol fel arall. Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng hawl gwirfoddolwyr i iawndal a hawl y rhai a gaiff eu diswyddo’n orfodol.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru arian i’r Cyngor er mwyn talu’r pecynnau ymadael yn llawn. Rhannwyd yr arian hwn a’r costau cysylltiedig rhwng cyfrifon gweithrediadau cyffredinol a dosbarthu arian loteri y Cyngor. Caiff 49% ei nodi yn y datganiadau ariannol hyn mewn incwm partneriaeth ac mewn costau staff.

Atebolrwydd Seneddol ac Adroddiad Archwilio (wedi'i archwilio)

Rhwymedigaethau wrth gefn annhebygol

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r Cynllun yn gynllun buddion diffiniedig a gyllidir a hefyd yn gynllun cyflogwyr lluosog lle na all y cyflogwyr sy'n cyfranogi nodi eu cyfrannau o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol.

Pe bai cyflogwr yn tynnu'n ôl, byddai'r ddyled a gâi ei hysgogi o dan adran 75 o Ddeddf Pensiynau 1995 yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio diffyg solfedd y Cynllun cyfan, nid cyfran asedau a rhwymedigaethau'r cyflogwr ei hun. Hefyd, pe câi'r Cynllun ei ddirwyn i ben, gan mai trefniant "y dyn olaf ar ei draed" yw'r Cynllun, byddai'r holl gyflogwyr yn atebol ar y cyd ac yn unigol am gyfanswm y diffyg yn y Cynllun.

Nid yw'n ymarferol amcangyfrif yr effaith ariannol.

Colledion, taliadau arbennig a rhoddion

Ni chafodd y Cyngor unrhyw golledion yn ystod y flwyddyn ac ni roddodd unrhyw daliadau arbennig na rhoddion.

Incwm o ffioedd a thaliadau

Nid oes gan y Cyngor unrhyw incwm perthnasol o'r math hwn.



Dafydd Rhys
Swyddog Cyfrifyddu
18 Hydref 2024

Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:



Maggie Russell
Cadeirydd
18 Hydref 2024

Y flwyddyn i ddod: 2024/25

Gan edrych ymlaen at flwyddyn ariannol 2024/25, mae'r Cyngor yn wynebu heriau a chyfleoedd wrth iddo lywio'i ffordd trwy dirwedd sector y celfyddydau sy'n newid o hyd.



Alia Farid, Amgueddfa Genedlaethol
Caerdydd, Artes Mundi 10
(Llun: Stuart Whipps)

Heriau

Toriadau yn y gyllideb

Fel nifer o sefydliadau cyhoeddus, mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n wynebu cyfyngiadau cyllidebol, gyda thoriad o 10.5% yn y cyllid dangosol craidd. Er bod cyllideb gytbwys wedi'i chreu, mae derbyn llai o arian yn barhaus yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i gefnogi rhaglenni a mentrau presennol, ac yn llesteirio ei allu i fuddsoddi mewn prosiectau newydd.

Ansicrwydd economaidd

Mae amrywiadau ac ansicrwydd economaidd yn effeithio ar ffynonellau cyhoeddus a phreifat i'r celfyddydau. Gallai llai o nawdd corfforaethol neu roddion haelionus rhoi mwy o bwysau ar sefydliadau celfyddydol a fydd yn cynyddu'r galw am gymhorthdal cyhoeddus er mwyn iddynt oroesi.

Trawsnewid digidol

Er bod y maes digidol yn cynnig cyfleoedd i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach ac arferion artistig arloesol, mae hefyd yn gosod her o ran ariannu mentrau digidol, sicrhau mynediad digidol i bawb, a mynd i'r afael ag anawsterau o ran anghydraddoldeb digidol.

Cyfleoedd

Arloesedd ac addasu

Mae sector y celfyddydau wedi dangos creadigrwydd hynod ers y pandemig. Gall y Cyngor manteisio ar y cyfle hwn i gefnogi prosiectau, cydweithrediadau a mentrau arloesol sy'n ymateb i ddiddordebau cynulleidfaoedd ac artistiaid, a'u hanghenion sy'n newid.

Ymgysylltu cymunedol

Gall cryfhau partneriaethau â chymunedau ledled Cymru feithrin gwell gynhwysiant ac amrywiaeth yn y celfyddydau. Drwy flaenoriaethu mentrau ymgysylltu cymunedol, gall y Cyngor sicrhau bod y celfyddydau'n hygyrch ac yn berthnasol i bobl o bob cefndir.

Eirioli a phartneriaethau

Gall adeiladu cynghreiriau â sefydliadau diwylliannol eraill, asiantaethau llywodraeth, a grwpiau eirioli, chwyddo llais y Cyngor a dylanwadu ar y gwaith o eirioli dros fwy o gefnogaeth i'r celfyddydau a chydabyddiaeth ohonynt ar lefel lleol ac yn genedlaethol.

Ehangu digidol

Gall buddsoddi mewn seilwaith digidol, gan gynnwys gwefan newydd i'n cynllun Noson Allan, galluogi'r Cyngor i harneisio potensial technolegau digidol ar gyfer creu, dosbarthu ac ymgysylltu'n gelfyddydol. Gall croesawu platfformau digidol hefyd wella gallu'r Cyngor i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd a hwyluso cyfnewid diwylliannol.

Drwy lywio trwy'r heriau hyn a manteisio ar y cyfleoedd, bydd y Cyngor yn parhau i chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o feithrin rhagoriaeth gelfyddydol, datblygu hyfywedd diwylliannol, a chyfoethogi bywydau pobl ledled Cymru.



Agor Drysau, Arad Goch
(Llun: Helene Goepfert)

Datganiadau Ariannol

Gweithgareddau Cyffredinol

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Erthygl 11 o'r Siarter Frenhinol ddyddiedig 30 Mawrth 1994 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi am bob blwyddyn ariannol ddatganiad cyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a benderfynir gan Weinidogion Cymru. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Cyngor ac o'i incwm a'i wariant, Mantolen a llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio ag egwyddorion cyfrifyddu a gofynion datgelu'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 ac, i'r graddau ei fod yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion y Datganiad, *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a gweithredu polisiau cyfrifyddu addas ar sail gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn y Datganiad a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Cyngor, yn y ddogfen *Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

A finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylaswn ei gymryd i beri fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilydd y Cyngor yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n cadarnhau bod, hyd y gŵyr, yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Mae'n cymryd cyfrifoldeb dros yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r farn sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:

Dafydd Rhys
Swyddog Cyfrifyddu
18 Hydref 2024

Maggie Russell
Cadeirydd
18 Hydref 2024

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i Ymddiriedolwyr Cyngor Celfyddydau Cymru

Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfrifon Gweithgareddau Cyffredinol Cyngor Celfyddydau Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 o dan Erthygl 11 o Siarter Frenhinol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, y Fantolen, y Datganiad Llifau Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu perthnasol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Cyngor Celfyddydau Cymru ar 31 Mawrth 2024 a'i wariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol ag Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Erthygl 11 o Siarter Frenhinol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn yr adran ar gyfrifoldebau'r Archwilydd am yr archwiliad o'r datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Rwyf i a'm staff yn annibynnol o'r corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, nid wyf wedi canfod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amgylchiadau a all, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol dros allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu o ran busnes hyfyw wedi'u disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, heblaw i'r graddau a nodir yn glir fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad o ran sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn yr archwiliad, neu'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw'n achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, y dof i'r casgliad bod yna gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol imi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Barn ar faterion eraill

Y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir sy'n nodi'r gofynion ar gyfer gwybodaeth arall. Fodd bynnag, nid yw'r Datganiad na deddfwriaeth, na'r cyfarwyddiadau a roddwyd i Gyngor Celfyddydau Cymru yn nodi cynnwys a ffurf y Datganiad Llywodraethu na'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff a gyflwynir gyda'r datganiadau ariannol. Felly, ni allaf gadarnhau bod y Datganiad Llywodraethu neu'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff a gyhoeddir gyda'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â chanllawiau.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddir yn y wybodaeth arall i'w chyhoeddi gyda'r datganiadau ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Er nad oes unrhyw ofynion deddfwriaethol ar Gyngor Celfyddydau Cymru i baratoi Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff, mae'r Cyngor wedi paratoi'r adroddiad, ac yn fy marn i, mae'r rhan ohono y mae'n ofynnol i'w harchwilio fel arfer wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chanllawiau Trysorlys EF.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad, mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr 'Adroddiad ar Berfformiad ac Adolygiad Gweithredol' a'r Adroddiad Atebolrwydd (ac eithrio'r Datganiad Llywodraethu a'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff) ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Adroddiad ar Berfformiad ac Adolygiad Gweithredol a'r Adroddiad Atebolrwydd wedi'u paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth y corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad ac Adolygiad Gweithredol, yr Adroddiad Atebolrwydd na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol i'm harchwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd â hwy gan fy nhîm;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a bennwyd gan Weinidogion Cymru o ran y gydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynnyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- rheolaethau mewnlol sy'n angenrheidiol ym marn y Swyddog Cyfrifyddu i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall; ac
- asesu gallu'r corff i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel sy'n gymwys, materion yn ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio sail gyfrifyddu busnes hyfyw oni thychia'r Swyddog Cyfrifyddu na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y corff yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Siarter Frenhinol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau yw afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Rwyf yn llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, fel y'u nodir uchod, er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, archwilydd mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n ymwneud â:
 - › chanfod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o beidio â chydymffurfio;
 - › canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a ydynt yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, a amheuir neu a honnir; ac
 - › y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau mewn perthynas â thwyll neu beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau;
- fel tîm archwilio, ystyried sut a phryd y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw arwyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y potensial am dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabyddiaeth referniw, cydnabyddiaeth gwariant a phostio dyddlyfrau anarferol;
- sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Celfyddydau Cymru;
- cael dealltwriaeth o berthnasoedd â phartïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi'r dogfennau ategol i asesu eu cydymffurfiaeth â'r deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr am ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â risg twyll a achosir gan reolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n dangos rhagfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu y tu hwnt i hynt arferol busnes.

Hefyd cyfleais y deddfau a rheoliadau perthnasol a ganfuwyd ynghyd â'r risgiau twyll posibl i'r tîm archwilio cyfan ac arhosais yn wylidwrus am unrhyw arwyddion o dwyll neu achosion o beidio â chydymffurfio â'r deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Ceir effaith ar y graddau mae fy ngweithdrefnau yn gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Celfyddydau Cymru, a natur, amseriad a maint y gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'r hadroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwyf yn cael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymysg materion eraill, maint ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau arwyddocaol yr archwiliad, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol o ran rheolaeth fewnol a ganfyddaf yn ystod fy archwiliad.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw arsylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
24 Hydref 2024

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw hygyrdded gwefan Cyngor Celfyddydau Cymru a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

Cyfieithiad Cymraeg

Rwyf wedi ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol hyn yn eu ffurf wreiddiol. Mae'r fersiwn hon yn gyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad hyn.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Y Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol Datganiad o Weithgareddau Ariannol

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

		Cronfeydd anghyfngedig £'000	Cronfeydd cyfyngedig £'000	2023/24 Cyfanswm £'000	2022/23 Cyfanswm £'000
INCWM	Nodyn				
Rhoddion:					
Cymorth grant oddi wrth Lywodraeth Cymru		33,114	600	33,714	32,891
Grantiau a rhoddion eraill	3	-	9,549	9,549	28,141
		<u>33,114</u>	<u>10,149</u>	<u>43,263</u>	<u>61,032</u>
Incwm o weithgareddau elusennol:					
Gwasanaethau a nawdd	4	177	-	177	151
Incwm o fuddsoddiadau:					
Llog banc		80	28	108	18
Incwm arall	5	32	-	32	15
Cyfanswm incwm		<u>33,403</u>	<u>10,177</u>	<u>43,580</u>	<u>61,216</u>
GWARIANT					
Gweithgareddau elusennol	6	31,881	11,492	43,373	60,891
Costau llywodraethu	8	84	-	84	78
Llog banc a ildwyd i Gronfa Gyfunol Cymru		80	-	80	8
Cyfanswm gwariant		<u>32,045</u>	<u>11,492</u>	<u>43,537</u>	<u>60,977</u>
Incwm/(gwariant) net		1,358	(1,315)	43	239
Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd	13	(528)	528	-	-
Symudiad net mewn cronfeydd		<u>830</u>	<u>(787)</u>	<u>43</u>	<u>239</u>
Cysoni cronfeydd					
Balansau cronfeydd a ddygwyd ymlaen	13	1,102	1,556	2,658	2,419
Cyfanswm yr arian a gariwyd ymlaen		<u>1,932</u>	<u>769</u>	<u>2,701</u>	<u>2,658</u>

Nid oes unrhyw enillion na cholledion ac eithrio'r rhai a ddangosir uchod.

Nid oes unrhyw weithgareddau sydd wedi peidio ac ni chafwyd unrhyw gaffaeliadau yn ystod y flwyddyn.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 128 i 153 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Y Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol Mantolen

ar 31 Mawrth 2024


		31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2023 £'000
Asedau sefydlog	Nodyn		
Asedau sefydlog anniriaethol	9a	2	4
Asedau sefydlog diriaethol	9b	199	130
Cyfanswm asedau sefydlog		201	134
Asedau anghyfredol			
Dyledwyr	10a	-	8,570
Asedau cyfredol			
Grantiau a dalwyd ymlaen llaw		120	-
Dyledwyr	10b	16,227	16,768
Arian parod a chyfwerth ag arian parod		1,566	1,491
Cyfanswm asedau cyfredol		17,913	18,259
Rhwymedigaethau: yn ddyledus o fewn blwyddyn			
Credydwyr	11a	(15,308)	(15,534)
		(15,308)	(15,534)
Asedau cyfredol net		2,605	2,725
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		2,806	11,429
Credydwyr: yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn			
Credydwyr	11b	(105)	(8,771)
Asedau net		2,701	2,658
Arian yr elusen			
Cronfeydd anghyfyngedig	13	1,932	1,102
Cronfeydd cyfyngedig	13	769	1,556
		2,701	2,658

Mae'r nodiadau ar dudalennau 128 i 153 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol eu cymeradwyo gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'u llofnodi ar ei ran gan



Dafydd Rhys
Swyddog Cyfrifyddu
18 Hydref 2024



Maggie Russell
Cadeirydd
18 Hydref 2024

Cyngor Celfyddydau Cymru

Y Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol Datganiad Llifau Arian Parod

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

	Nodyn	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu	15a	172	55
Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi	15b	28	10
All-lif arian parod net cysylltiedig ag asedau cyfalaf	15c	(125)	(99)
Newid mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn		75	(34)
Arian parod a chyfwerth ag arian parod a ddygwyd ymlaen		1,491	1,525
Arian parod a chyfwerth ag arian parod a gariwyd ymlaen		1,566	1,491

Mae'r nodiadau ar dudalennau 128 i 153 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Y Cyfrif Gweithgareddau Cyffredinol Nodiadau sy'n rhan o'r Datganiad Ariannol

am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024

1. Polisiau cyfrifyddu

a. Sail y paratoi

Paratoir y datganiadau ariannol hyn ar sail busnes hyfyw ac o dan y confensiwn cost hanesyddol a addasir i gynnwys rhai asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r Cyngor ar sail cost gyffredol. Fe'u paratowyd yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru a bodlonant ofynion Deddfau Elusennau 2006, 2011 a 2016, y Datganiad o Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) a gyhoeddwyd ar 16 Gorffennaf 2014 a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102). Yn ogystal â chydymffurfio â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, rhoddir ystyriaeth i ofynion *Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth* a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi i'r graddau ei fod yn egluro neu'n adeiladu ar ofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir. Nodir isod grynodedb o'r prif bolisiau cyfrifyddu sydd wedi'u cymhwyso'n gyson.

Effaith safonau nad ydynt mewn grym eto

Caiff cymhwyso unrhyw safonau cyfrifyddu newydd neu ddiwygiedig ei lywodraethu pan gânt eu mabwysiadu gan y Comisiwn Elusennau a'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Mae'r Cyngor yn cymhwyso newidiadau i safonau pan ddônt i rym. Nid oes unrhyw effeithiau perthnasol hysbys o newidiadau i safonau cyfrifyddu a gyhoeddwyd ac nad ydynt mewn grym eto ar y datganiadau ariannol yn y cyfnod cymhwyso cyntaf.

b. Incwm

Cydnabyddir cymorth grant gan Lywodraeth Cymru yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail dderbyniadwy.

Cydnabyddir yr holl incwm arall pan fydd gan y Cyngor hawl i'r arian, bydd unrhyw amodau perfformiad cysylltiedig wedi'u bodloni, mae'n debygol y bydd yr incwm yn dod i law y Cyngor, a gellir mesur y swm yn ddibynadwy. Trinnir grantiau cyfalaf sy'n dderbyniadwy fel incwm.

Ni chofnodir unrhyw incwm heb wariant yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

c. Dosbarthu arian y Loteri

Nid yw'r datganiadau ariannol hyn yn ymdrin â swyddogaeth y Cyngor o ran dosbarthu arian y Loteri y paratowyd datganiadau ariannol ar wahân ar ei chyfer yn unol â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Â'r Cyngor i gostau sy'n cynnal ei swyddogaeth gweithgareddau cyffredinol a'i swyddogaeth o ran dosbarthu arian y Loteri. Yn unol â'i Gyfarwyddiadau Ariannol mae'r Cyngor yn dosrannu costau anuniongyrchol yn briodol rhwng y ddau faes gweithgarwch hyn gan gyfeirio at yr amser a dreuliwyd ar y gweithgareddau priodol neu'r adnoddau perthnasol a ddefnyddiwyd ganddynt.

Fel arfer caiff y dosraniadau eu hadolygu pob dwy flynedd a phryd bynnag y ceir newid arwyddocaol i'r strwythur staff neu'r rhaglenni gweithgareddau.

d. Gwariant

Rhoddir cyfrif am bob gwariant ar sail croniadau ac mae wedi'i ddsbarthu o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Lle na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol maent wedi'u dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

e. Grantiau a ddyfarnwyd

Ceir gwariant cymhorthdal ar ffurf grantiau a gynigir yn ffurfiol i sefydliadau a gyllidir gan y Cyngor. Caiff grantiau eu cynnig i gynnal rhaglen o weithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer blwyddyn ariannol benodol, neu sy'n cychwyn ynddi, a gan amlaf, cânt eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y flwyddyn honno.

Ni chaiff blaenymrwymadau a wneir yn y flwyddyn sy'n gysylltiedig â gweithgarwch y flwyddyn nesaf, fel y'u datgelir yn nodyn 17, eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Ni ellir cydnabod y cymorth grant i gyflawni'r ymrwymadau hyn nes ei fod wedi dod i law, felly nid ydym wedi gallu cymhwyso holl egwyddorion paragraff 7 o'r Datganiad Arferion a Argymhellir. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn credu y byddai cynnwys y blaenymrwymadau'n rhoi darlun gwir a theg o'r ffordd y defnyddir adnoddau'r Cyngor.

Caiff grantiau heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn eu dangos fel credydwy'r yn y Fantolen. Caiff unrhyw daliadau ymlaen llaw a wnaed mewn perthynas â grantiau a gymeradwywyd sy'n gysylltiedig â gweithgareddau yn y flwyddyn nesaf eu dangos yn y Fantolen fel asedau cyfredol.

Rhestrir yr holl grantiau a gynigiwyd yn yr atodiad i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

f. Gwasanaethau a nawdd

Mae gwasanaethau a nawdd yn cynnwys y costau uniongyrchol, gan gynnwys staff a dibrsiad, y gellir eu priodoli i weithgareddau elusennol.

g. Dyrannu costau gweithredu

Mae costau gweithredu wedi cael eu dyrannu yn y lle cyntaf rhwng gweithgareddau elusennol a llywodraethu. Mae costau gweithredu sy'n gysylltiedig â gweithgareddau elusennol wedi cael eu dosrannu i adlewyrchu'r amser mae staff yn ei dreulio wrth ddarparu gweithgareddau uniongyrchol ac i gynorthwyo â'r gwaith o'u darparu. Mae dyraniad a dadansoddiad y costau hyn yn nodiadau 6 a 7.

h. Costau llywodraethu

Mae costau llywodraethu yn cynnwys pob cost sy'n ymwneud ag atebolrwydd cyhoeddus y Cyngor fel elusen a'i gydymffurfiaeth â rheoleiddio ac arferion da. Dadansoddir y costau hyn yn nodyn 8.

i. Arian tramor

Caiff arian refeniw a gafwyd a gwariant yr aed iddo mewn arian tramor eu trosi yn unol â'r gyfradd gyfnewid oedd yn weithredol ar adeg y trafodyn. Caiff balansau a ddelir mewn arian tramor eu trosi yn unol â'r gyfradd oedd yn weithredol ar ddyddiad y Fantolen. Caiff trafodion a balansau a gwmpesir gan flaengontractau eu trosi yn unol â chyfradd y contract.

j. Cydnabod rhwymedigaethau

Cydnabyddir rhwymedigaethau pan fo rhwymedigaeth yn codi i drosglwyddo buddion economaidd o ganlyniad i drafodion neu ddigwyddiadau yn y gorffennol.

k. Cyfrifyddu cronfeydd

Cronfeydd cyfyngedig yw'r rheiny sydd i gael eu defnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol a orfodir gan roddwyr neu sydd wedi'u codi gan y Cyngor at ddibenion penodol. Mae'r gost o godi a gweinyddu cronfeydd o'r fath wedi'i chodi ar y gronfa benodol. Nodir amcan a defnydd pob cronfa gyfyngedig yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Cronfeydd anghyfyngedig yw'r rheiny sydd ar gael i'w defnyddio yn ôl disgrisiwn y Cyngor i hyrwyddo amcanion ei siarter ac nad ydynt wedi'u dynodi at ddibenion eraill.

Lle dyrennir costau cynnal i weithgareddau elusennol cyfyngedig trosglwyddir swm o'r cronfeydd anghyfyngedig i dalu'r costau hyn.

l. Asedau sefydlog

Mae'r Cyngor yn berchen ar ddau eiddo rhydd-ddaliadol, Theatr Sherman a Stiwdio Rubicon Dance, sydd wedi'u gosod ar brydlesi hir am rent rhad i denantiaid na chânt eu rheoli gan y Cyngor a heb unrhyw ddarpariaeth i'r Cyngor eu hailfeddiannu. Ar sail cyngor gan syrfewyr siartredig allanol ac annibynnol, bernir bod gwerth gweddilliol y buddiannau rhydd-ddaliadol hyn yn fach iawn felly caiff yr asedau hyn eu dal yn y cyfrifon ar ddim gwerth.

Trinnir costau datblygu gwefan, yn unol â FRS 102, fel asedau sefydlog diriaethol.

Trinnir trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol fel asedau sefydlog anniriaethol os cwmpasant fwy na blwyddyn.

Heblaw am eiddo rhydd-ddaliadol, caiff yr holl asedau sefydlog diriaethol ac anniriaethol eu cynnwys ar gost hanesyddol llai lwfans am ddibrisiad ac amorteiddiad. Ym marn y Cyngor, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng y gwerth ar bapur a gwerth y farchnad.

m. Amortisation and depreciation

Caiff asedau unigol sy'n costio £1,000 neu fwy eu cyfalafu a darperir blwyddyn gyfan o amorteiddiad neu ddibrisiad ym mlwyddyn eu caffael. Darperir amorteiddiad ar asedau sefydlog anniriaethol a dibrisiad ar asedau sefydlog diriaethol ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu cost neu brisiad pob ased i'w werth gweddilliol ar sail linol dros ei oes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

Trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol	dros 3 blynedd
Gwelliannau prydlesol	dros gyfnod y brydles
Celfi, gosodiadau a ffitiadau	dros 10 mlynedd
Offer	dros 4 blynedd
Costau datblygu gwefan	dros 3 blynedd
System gyfrifiadurol	dros 3 blynedd

n. Prydlesi

Caiff costau prydlesi gweithredu eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ar sail linol dros oes y brydles.

o. Pensiynau

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994 sy'n darparu buddion diffiniedig i gyflogeion y Cyngor. Caiff costau cyfraniadau'r Cyngor eu codi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol fel y gellir lledaenu cost pensiynau dros oes waith y cyflogeion.

Mae'r Cynllun yn gynllun buddion diffiniedig a gyllidir a hefyd yn gynllun cyflogwyr lluosog lle na all y cyflogwyr sy'n cyfranogi nodi eu cyfrannau o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig, yn unol â FRS 102. Mae'r Cyngor wedi gwneud taliadau i gyllido diffyg sy'n gysylltiedig â gwasanaeth a roddwyd. Os oes angen rhagor o daliadau tuag at y diffyg, yn dilyn ailbrisiadau yn y dyfodol, bydd y Cyngor yn cydnabod darpariaeth ar gyfer gwerth presennol cyfraniadau sy'n daladwy yn unol â thelerau unrhyw gytundeb cyllido perthnasol. Caiff pob cyfraniad tuag at y diffyg ei godi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Mae gan y Cyngor hefyd gynllun cyfraniadau diffiniedig, Pensiwn y Bobl, fel dewis amgen i ddiwallu anghenion deddfwriaeth Cofrestru Awtomatig. Rhoddir cyfrif am y cynllun yn unol â FRS 102.

p. Trethiant

Caiff Treth Ar Werth nad oes modd ei hadennill sy'n deillio o wariant ar weithgareddau nad ydynt yn rhai busnes ei chodi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol neu ei chyfalafu fel ased sefydlog lle bo'n berthnasol.

q. Offerynnau ariannol

Asedau ariannol: Nid yw dyledwyr masnachol yn cario unrhyw log a chânt eu datgan ar eu gwerth nominal fel y'i gostyngir gan lwfansau priodol ar gyfer symiau amcangyfrifedig nad oes modd eu hadennill. Mae arian parod yn cynnwys arian mewn llaw ac arian yn y banc ac arian wedi'i gadw ar adnau tymor byr ar delerau sy'n caniatáu ei gael ar unrhyw adeg.

Rhwymedigaethau ariannol: Nid yw credydwyr masnachol yn cario llog a chânt eu datgan ar eu gwerth nominal.

2. Gweithgareddau cyffredinol a dosbarthu arian y Loteri: incwm cyfunol a gwariant elusennol ar y celfyddydau

Dengys y cyfrif dosbarthu arian y Loteri sydd ar wahân mai £17,234,000 (2022/23: £17,681,000) oedd cyfran y Cyngor o'r arian oddi wrth y Loteri Genedlaethol yn 2023/24. Ar gyfer 2023/24, cyfanswm cyfunol yr incwm o weithgareddau cyffredinol a'r Loteri oedd £62,343,000 (2022/23: £79,562,000). Ar gyfer 2023/24, cyfanswm cyfunol y gwariant elusennol uniongyrchol ar y celfyddydau oedd £60,421,000 (2022/23: £78,113,000).

3. Incwm

Rhoddion: Grantiau a rhoddion eraill

	Cronfeydd anghyfyngedig £'000	Cronfeydd cyfyngedig £'000	2023/24 Cyfanswm £'000	2022/23 Cyfanswm £'000
Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau (nodyn 18):				
Grant gan Lywodraeth Cymru	-	1,000	1,000	1,000
Grant gan y Loteri i Gyngor Celfyddydau Cymru	-	1,000	1,000	1,000
Incwm arall	-	23	23	22
Grantiau'r flwyddyn flaenorol nad oedd eu hangen mwyach neu a ad-dalwyd	-	1	1	12
Llywodraeth Cymru ar gyfer Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru	-	5,073	5,073	-
Grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer theatrau	-	1,350	1,350	24,100
Cyfraniad Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau eraill	-	1,014	1,014	1,816
Grantiau i Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru	-	79	79	72
Iechyd Cyhoeddus Cymru	-	9	9	-
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	-	-	-	50
Ymddiriedolaeth Eirian Llywd	-	-	-	4
Cyfoeth Naturiol Cymru (ar gyfer y rhaglen Natur Greadigol)	-	-	-	65
	-	9,549	9,549	28,141

4. Incwm o weithgareddau elusennol – Gwasanaethau a nawdd

	Cronfeydd anghyfyngedig £'000	Cronfeydd cyfyngedig £'000	2023/24 Cyfanswm £'000	2022/23 Cyfanswm £'000
Cynllun Noson Allan: – cyfraniadau gan leoliadau/hyrwyddwyr	146	-	146	116
Cynllun Casglu – ffioedd orielau	30	-	30	29
Incwm arall	1	-	1	6
	177	-	177	151

5. Incwm arall

	Cronfeydd anghyfyngedig £'000	Cronfeydd cyfyngedig £'000	2023/24 Cyfanswm £'000	2022/23 Cyfanswm £'000
Enillion o werthu asedau sefydlog	3	-	3	-
Cyfraniad o gyfrif Dosbarthu Arian y Loteri: am ddefnyddio asedau sefydlog	29	-	29	15
	32	-	32	15

6. Gwariant – Gweithgareddau elusennol

	Gweithgareddau uniongyrchol £'000	Arian grant ¹ £'000	Costau cynnal ² £'000	2023/24 Cyfanswm £'000	2022/23 Cyfanswm £'000
Rhoi grantiau a datblygu'r celfyddydau	1,348	33,484	2,248	37,080	56,409
Rhaglen <i>Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau</i> (nodyn 18)	1,266	1,514	-	2,780	2,214
Strategaeth y celfyddydau	1,516	-	98	1,614	593
Rhyngwladol	862	-	56	918	936
Gwasanaethau: <i>Noson Allan a'r Cynllun Casglu</i>	594	-	38	632	506
Eirioli ac ymchwil	328	-	21	349	233
	5,914	34,998	2,461	43,373	60,891
O gronfeydd anghyfyngedig				31,881	31,337
O gronfeydd cyfyngedig				11,492	29,554
				43,373	60,891

¹ Arian grant

	I sefydliadau £'000	I unigolion £'000	2023/24 Cyfanswm £'000	2022/23 Cyfanswm £'000
O gronfeydd anghyfyngedig				
Portffolio Celfyddydol Cymru	26,885	-	26,885	27,184
Dyfarniadau strategol	10	37	47	452
O gronfeydd cyfyngedig				
Portffolio Celfyddydol Cymru	300	-	300	300
<i>Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau</i>	1,514	-	1,514	1,209
Dyfarniadau strategol – ar gyfer datblygu Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru	4,067	-	4,067	-
Dyfarniadau strategol – grant cyfalaf ar gyfer aiddatblygu Theatr Clwyd	-	-	-	23,500
Dyfarniadau strategol – grantiau cyfalaf ar gyfer theatrau	1,350	-	1,350	600
Dyfarniadau strategol – arall	816	19	835	1,241
Gwobrau coffa	-	-	-	16
	34,942	56	34,998	54,502

Rhestrir yr holl grantiau yn yr atodiadau i'r Adroddiad Blynyddol hwn.

² Costau cynnal

	Costau gros £'000	Didynnu taliadau a ailgodwyd ar Gronfa Dosbarthu Arian y Loteri £'000	2023/24 Swm net a godir ar Weith-gareddau Cyffredinol £'000	2022/23 Swm net a godir ar Weith-gareddau Cyffredinol £'000
Staff a chostau cysylltiedig	3,870	1,986	1,884	1,416
Pensiynau	-	-	-	59
Adolygiad sefydliadol	16	8	8	-
Seilwaith	652	319	333	302
Costau rhedeg swyddfa	18	9	9	7
Ffioedd proffesiynol a hyrwyddo	326	224	102	80
TAW nad oes modd ei hadennill	134	70	64	75
Amorteiddiad a dibrisiad	61	-	61	31
	5,077	2,616	2,461	1,970

7. Costau staff

a. Mae cyfanswm costau staff yn cynnwys:

	Cyflogwyd yn barhaol £'000	Arall £'000	Costau gros £'000	Didynnu taliadau a ailgodwyd ar Gronfa Dosbarthu Arian y Loteri £'000	2023/24 Swm net a godir ar Weithgareddau Cyffredinol £'000	2022/23 Swm net a godir ar Weithgareddau Cyffredinol £'000
Cyflogau	3,421	922	4,343	1,251	3,092	2,795
Costau nawdd cymdeithasol	412	98	510	150	360	314
Costau pensiwn arall	569	141	710	206	504	499
Costau diswyddo	671	-	671	328	343	-
Ardoll brentisiaethau	7	-	7	-	7	5
Costau asiantaeth	-	9	9	4	5	2
	5,080	1,170	6,250	1,939	4,311	3,615

Caiff costau staff eu corffori yn y datganiadau ariannol fel a ganlyn

A godir ar Weithgareddau Uniongyrchol (nodyn 6)	2,466	-	2,466	2,243
A godir ar Gostau Cynnal (nodyn 6)	3,735	1,922	1,813	1,340
A godir ar Lywodraethu (nodyn 8)	49	17	32	32
	6,250	1,939	4,311	3,615

Nifer gyfartalog y staff (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn oedd:

Ar weithgareddau elusennol:

	Cyflogwyd yn barhaol	Arall	Ar draws y Cyngor cyfan	Ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri	2023/24 Ar Weithgareddau Cyffredinol	2022/23 Ar Weithgareddau Cyffredinol
a godir yn uniongyrchol	9	11	21	-	21	20
a ailgodwyd	27	4	31	-	31	32
I gynorthwyo â'n gweithgareddau elusennol	28	6	34	25	9	9
	65	21	86	25	61	61

Cyfansoddiad y staff ar 31 Mawrth (cyfwerth ag amser llawn - y Cyngor cyfan)

	2024			2023		
	Gwryw	Benyw	Cyfanswm	Gwryw	Benyw	Cyfanswm
Uwch Tîm Arwain	2	3	5	2	3	5
Rheolwyr Portffolio/Penaethiaid Adrannau	7	10	17	8	9	17
Uwch Swyddogion	14	22	36	13	22	35
Swyddogion	2	9	11	3	9	12
Cydgysylltwyr Timau/Cynorthwywyr Personol	3	15	18	2	16	18
	28	59	87	28	59	87
	32%	68%		32%	68%	

Taliadau yn ôl bandiau

Heblaw aelodau'r Uwch Tîm Arwain a restrir yn nodyn 7b, dyma nifer y cyflogeion (y Cyngor cyfan) a gafodd gydnabyddiaeth ariannol am y flwyddyn, ac eithrio cyfraniadau pensiwn gan y cyflogwr, gwerth mwy na £60,000:

£60,000 to £69,000

£70,000 to £79,000

	2023/24	2022/23
£60,000 to £69,000	-	1
£70,000 to £79,000	1	-

Dyma ystod y gydnabyddiaeth ariannol flynyddol (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth (y Cyngor cyfan):

Y Prif Weithredwr yw'r aelod staff sy'n cael y cyflog mwyaf.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Prif Weithredwr codiad cyflog o 5% (2022/23: no change). Cafodd y staff cyfan godiad cyflog o 5% hefyd (2022/23: 4%).

Dyma gydnabyddiaeth ariannol flynyddol (cyfwerth ag amser llawn) y cyflogeion a'r cymarebau rhwng pob un o'r rheiny a chyflog y Prif Weithredwr ar 31 Mawrth (y Cyngor cyfan):

Canradd 25

Canradd canolrifol (50)

Canradd 75

	2024	2023
Dyma ystod y gydnabyddiaeth ariannol flynyddol (cyfwerth ag amser llawn) ar 31 Mawrth (y Cyngor cyfan):	£26,227 to £106,922	£25,026 to £101,830
Y Prif Weithredwr yw'r aelod staff sy'n cael y cyflog mwyaf.		
Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Prif Weithredwr codiad cyflog o 5% (2022/23: no change). Cafodd y staff cyfan godiad cyflog o 5% hefyd (2022/23: 4%).		
Dyma gydnabyddiaeth ariannol flynyddol (cyfwerth ag amser llawn) y cyflogeion a'r cymarebau rhwng pob un o'r rheiny a chyflog y Prif Weithredwr ar 31 Mawrth (y Cyngor cyfan):		
Canradd 25	£32,915 1:3.2	£31,348 1:3.2
Canradd canolrifol (50)	£47,861 1:2.2	£45,582 1:2.2
Canradd 75	£47,861 1:2.2	£45,582 1:2.2

Dim ond cyflog yw'r gydnabyddiaeth ariannol flynyddol. Ni thalwyd unrhyw fuddion ac ni thalwyd unrhyw gyflog ar sail perfformiad.

Cynlluniau iawndal – pecynnau ymadael (Cyngor cyfan)

Band cost y pecyn ymadael	Nifer y diswyddiadau gwirfoddol		Nifer yr ymadawiadau eraill a gytunwyd		Cyfanswm y pecynnau ymadael yn ôl band cost	
	2023/24	2022/23	2023/24	2022/23	2023/24	2022/23
£10,000 to £24,999	-	-	2	-	2	-
£25,000 to £49,999	1	-	4	-	5	-
£50,000 to £99,999	-	-	4	-	4	-
£100,000 to £149,999	-	-	2	-	2	-
Cyfanswm y pecynnau ymadael	1	-	12	-	13	-
Cyfanswm y gost (£'000)	45	-	735	-	780	-

Mae pecynnau ymadael yn cynnwys taliadau diswyddo, a lle bo'n berthnasol, cyflog contractiol yn lle rhybudd, tâl gwyliau cronrus a chyflog cronrus ar gyfer oriau dros ben sy'n ddyledus ar ddyddiad terfynu'r swydd.

Pennwyd taliadau diswyddo yn unol â darpariaethau polisi diswyddo'r Cyngor. Mae'r Cyngor fel arfer yn talu costau ymadael pan ddaw cyflogaeth i ben ond mae'n darparu ar gyfer y costau ymadael llawn ar y pwynt lle mae gwybodaeth fanwl ddigonol ar gael i wneud hynny.

Roedd yr holl 'ymadawiadau eraill a gytunwyd' yn ymwneud â cheisiadau am ddiswyddo lle, yn unol â pholisi diswyddo'r Cyngor, diflannodd swyddi'r cyflogeion yn y strwythur newydd, neu cafodd y swyddi eu llenwi gan gyflogeion eraill a fyddai wedi cael eu diswyddo'n orfodol fel arall. Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng hawl gwirfoddolwyr i iawndal a hawl y rhai a gaiff eu diswyddo'n orfodol.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru arian i'r Cyngor i dalu'r pecynnau ymadael yn llawn. Rhannwyd yr arian hwn a'r costau cysylltiedig rhwng cyfrifon gweithrediadau cyffredinol a dosbarthu arian loteri y Cyngor. Caiff 51% ei nodi yn y datganiadau ariannol hyn mewn incwm oddi wrth grantiau a rhoddion eraill, ac o gostau staff.

b. Y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr – yr Uwch Tîm Arwain – sy'n gyfrifol am gyfarwyddo gweithgareddau'r Cyngor. Roedd eu gwir daliadau a'u buddion pensiwn fel y'u dangosir yn y tablau canlynol.

Mae swm y buddion pensiwn am y flwyddyn sy'n cyfrannu at gyfanswm ffigurau unigol cydnabyddiaeth ariannol yn cael ei gyfrifo mewn ffordd debyg i'r dull a ddefnyddir i ddeillio gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth, ac wedi'i seilio ar wybodaeth a gafwyd oddi wrth actiwari Cynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994.

Dyma sut y cyfrifir gwerth buddion pensiwn:

(gwir gynnydd yn y pensiwn* x 20) + (gwir gynnydd mewn unrhyw gyfandaliad) - (cyfraniadau a wnaed gan yr aelod)

*gan eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu leihad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid swm yw hwn a dalwyd i unigolyn gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn, ond cyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn, e.e. newidiadau yng nghyflog yr unigolyn, a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol at y cynllun pensiwn o'i gyflog ai peidio, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn gyffredinol.

Cyfanswm ffigurau unigol cydnabyddiaeth ariannol yr Uwch Tîm Arwain:

Enw Swydd	2023/24			2022/23		
	Band taliadau £'000	Buddion pensiwn £'000	Cyfanswm unigol cydnabyddiaeth ariannol £'000	Band taliadau £'000	Buddion pensiwn £'000	Cyfanswm unigol cydnabyddiaeth ariannol £'000
Dafydd Rhys Prif Weithredwr o 17 Hydref 2022 Cyfwerth â blwyddyn lawn	105-110	24	130-135	45-50 100-105	11	55-60
Michael Elliott¹ Prif Weithredwr Dros Dro o 7 Mawrth 2022 i 1 Tachwedd 2022 Cyfwerth â blwyddyn lawn	Amh.	Amh.	Amh.	65-70 100-105	-	65-70
Richard Nicholls² Cyfarwyddwr Gweithrediadau hyd 6 Ebrill 2024	105-110	16	120-125	80-85	17	95-100
Diane Hebb Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau	85-90	(18)	65-70	80-85	(35)	45-50
Rebecca Nelson Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes hyd 2 Awst 2024	85-90	13	95-100	80-85	13	90-95
Lleucu Siencyn³ Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau o 9 Mai 2022 i 8 Ebrill 2024 Cyfwerth â blwyddyn lawn	125-130	19	145-150	65-70 70-75	14	80-85

¹ Dewisodd y Prif Weithredwr Dros Dro beidio ag ymuno â chynllun pensiwn ac nid oedd unrhyw reidrwydd i'w gofrestru'n awtomatig.

² Mae cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwr Gweithrediadau'n cynnwys iawndal gwerth £21,373 am goll'i ei swydd yn 2023/24.

³ Mae cydnabyddiaeth Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau'n cynnwys iawndal gwerth £45,427 am goll'i ei swydd yn 2023/24.

Buddion pensiwn yr Uwch Tîm Arwain:

Enw Swydd	2023/24 £'000	2023/24 £'000	2023/24 £'000	2022/23 £'000	2023/24 £'000
	Gwir gynnydd yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig yn 65 oed	Cyfanswm pensiwn cronedig yn 65 oed ar 31/03/24, neu ddyddiad ymadael os yw'n gynharach, a chyfandaliad cysylltiedig	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ¹ ar 31/03/24	Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/23, neu ddyddiad ymadael os yw'n gynharach	Gwir gynnydd ² yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod
Dafydd Rhys Chief Executive	Pensiwn 0-2.5 Cyfandaliad 2.5-5	Pensiwn 0-5 Cyfandaliad 5-10	32	9	15
Richard Nicholls Cyfarwyddwr Gweithrediadau hyd 6 Ebrill 2024	Pensiwn 0-2.5 Cyfandaliad 2.5-5	Pensiwn 0-5 Cyfandaliad 5-10	30	20	3
Diane Hebb Cyfarwyddwr Ymgysylltu â'r Celfyddydau	Pensiwn (2.5)-0 Cyfandaliad (2.5)-0	Pensiwn 25-30 Cyfandaliad 75-80	428	390	(15)
Rebecca Nelson Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Busnes hyd 2 Awst 2024	Pensiwn 0-2.5 Cyfandaliad 0-2.5	Pensiwn 5-10 Cyfandaliad 15-20	38	28	1
Lleucu Siencyn Cyfarwyddwr Datblygu'r Celfyddydau hyd 8 Ebrill 2024	Pensiwn 0-2.5 Cyfandaliad 2.5-5	Pensiwn 0-5 Cyfandaliad 5-10	18	7	5

¹ **Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod** – Ystyr Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafol buddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd gan actiwari. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol a ddelir i'w briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymdrin â'r buddion mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w holl aelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn berthnasol iddo. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fudd pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fudd pensiwn ychwanegol a gronnodd yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Caiff Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod eu cyfrifo yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Gyfadran Actiwariaid ac nid ydynt yn cymryd i ystyriaeth unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawli'r buddion pensiwn.

² **Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod** – Dyma'r newid i'r Gwerth heb chwyddiant, cyfraniadau cyflogai (gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â phrynu blynyddoedd ychwanegol) a thaliadau trosglwyddo i mewn.

Caiff y Cadeirydd, gyda chymeradwyaeth y Comisiwn Elusennau, gydnabyddiaeth ariannol am ei wasanaethau ond ni chaiff unrhyw daliadau bonws ac nid yw'n aelod o'r cynllun pensiwn. Nid yw Aelodau eraill o'r Cyngor nac Aelodau o'r Pwyllgorau yn cael unrhyw dâl am eu gwasanaethau. Mae costau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2023/24 yn cynnwys swm crynswth o £7,165 (2022/23: £3,035) a ad-dalwyd i 15 (2021/23: 11) o aelodau'r Cyngor am gostau teithio a chynhaliadau yr aed iddynt ar fusnes y Cyngor.

Roedd cyfanswm y gwir daliadau i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cynnwys:

Cadeiryddion¹

Cadeirydd (ers 1 Ebrill 2023) – Maggie Russell

Cyflog

Cadeirydd (hyd 31 Mawrth 2023) – Phil George

Cyflog

Cadeirydd dros dro (o 1 Hydref 2022 i 31 Mawrth 2023) – Kate Eden

Cyflog

Cyfanswm y Cadeiryddion

Cyflog

2023/24 £	2022/23 £
43,810	-
-	25,556
-	17,524
43,810	43,080

¹ Arhosodd Phil George yn ei swydd hyd ddiwedd ei gyfnod swydd ar 31 Mawrth 2023. Cafodd daliadau am ei wasanaethau hyd Hydref 2022 pan benodwyd Kate Eden yn Gadeirydd Dros Dro am weddill y flwyddyn ariannol ddiwethaf oherwydd ei iechyd gwael.

Prif Weithredwyr

Prif Weithredwr (ers 17 Hydref 2022) – Dafydd Rhys

Cyflog

Cyfraniad pensiwn y cyflogwr

Cyn Brif Weithredwr Dros Dro (o 7 Mawrth 2022 i 1 Tachwedd 2022) – Michael Elliott

Cyflog

Cyfanswm y Prif Weithredwyr

Cyflog

Cyfraniad pensiwn y cyflogwr

106,922	46,721
21,277	9,746
128,199	56,485
-	65,643
106,922	112,364
21,277	9,764
128,199	122,128

Caiff 66% (2022/23: 66%) o daliadau'r Cadeirydd a 72% (2022/23: 72%) o daliadau'r Prif Weithredwyr eu codi yn y datganiadau ariannol hyn a chaiff y gweddill eu codi ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

Costau teithio a chynhaliaeth yr aed iddynt ac a ad-dalwyd ar fusnes y Cyngor:

Cadeiryddion

Prif Weithredwyr

2023/24 £	2022/23 £
1,223	593
12,037	11,050

Caiff 51% (2022/23: 51%) o dreuliau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwyr eu codi yn y datganiadau ariannol hyn a chaiff y gweddill eu codi ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

- c. Mae'r rhan fwyaf o'r cyflogeion yn aelodau o Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r gronfa yn gynllun buddion diffiniedig. Mae hefyd yn gynllun cyflogwr lluosog felly ni all y Cyngor nodi ei gyfran o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol. Felly rhoddwyd cyfrif am y cynllun fel pe bai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig, yn unol â FRS 102.

Fel arfer cynhelir prisiad actiwaraid annibynnol o Bensiwn Ymddeol Cyngor y Celfyddydau bob tair blynedd. Daeth y prisiad diweddaraf, fel ar 31 Mawrth 2022, i rym ar 1 Ebrill 2023. Dangosodd fod gan Bensiwn Ymddeol Cyngor y Celfyddydau ddiffyg cyllid mewn perthynas â'i amcan cyllido statudol.

Cyflwynodd y prisiad gyfraddau cyfrannu cyffredin newydd i'r Cyngor o ran cronni buddion. Mae'n rhagdybio hefyd gofyniad parhaus bod lefel sylfaenol o daliadau yn cael eu gwneud pob blwyddyn tuag at y diffyg, ar gyfradd a argymhellir gan actiwari'r cynllun, hyd 31 Mawrth 2034. Gall cyflogwyr sy'n cyfranogi talu cyfraniadau ar raddfa uwch neu dalu cyfandaliadau ychwanegol ar unrhyw adeg cyn y dônt yn ddyledus os dymunant.

Gan dybio y byddai'r symiau a argymhellwyd yn cael eu talu i'r Cynllun, roedd yr actiwari o'r farn y gellid disgwyl i'r amcan cyllido statudol ar 31 Mawrth 2022 gael ei gyflawni erbyn diwedd y cyfnod a nodwyd yn y cynllun adfer.

Cynhaliwyd y prisiad at ddibenion adran 179 o Ddeddf Pensiynau 2004. Dyma'r prif ragdybiaethau ariannol (heb chwyddiant prisiau) a ddefnyddiwyd:

Cyfradd disgownt net cyn ymddeol (cyn iawndal 2009)	-2.39% y flwyddyn .
Cyfradd disgownt net cyn ymddeol (ar ôl iawndal 2009)	-0.68% y flwyddyn
Cyfradd disgownt net ar gyfer buddion cyn 1997 yn y taliad (pensiynwyr cyfredol)	1.95% y flwyddyn
Cyfradd disgownt net ar gyfer buddion cyn 1997 yn y taliad (pensiynwyr y dyfodol)	1.65% y flwyddyn
Cyfradd disgownt net ar gyfer buddion ar ôl 1997 yn y taliad (pensiynwyr cyfredol)	-0.25% y flwyddyn
Cyfradd disgownt net ar gyfer buddion ar ôl 1997 yn y taliad (pensiynwyr y dyfodol)	-0.65% y flwyddyn
Hirhoedledd	S3PMA (ar gyfer bywyd cyntaf gwrywod), S3PFA (ar gyfer bywyd cyntaf menywod), S3DMA (ar gyfer ail fywyd gwrywod) a SDFA (ar gyfer ail fywyd menywod), ymhob achos â gwelliannau yn y dyfodol yn unol â model 2019 yr Ymchwiliad Parhaus i Farwolaethau (CMI), gyda chyfradd gwelliant hirdymor o 1.5%/1.25% i wrywod/menywod, a pharamedr llyfnhau craidd o 7.5
Buddion dibynnol	Tybir bod 85% (gwrywod) neu 75% (benywod) yn briod ar adeg ymddeol. Tybir bod benywod 3 blynedd yn iau.

Dyma'r cyfraniadau gan y Cyngor a'i gyflogeion:

	Cyngor		Cyflogeion	
	2023/24	2022/23	2023/24	2022/23
I'r holl staff	19.9%	20.9%	6.0%	6.0%

Yn ogystal, talodd y Cyngor gyfandaliad o £115,900 yn 2022/23 a chytunwyd gyda'r actiwariad na fyddai angen gwneud mwy o daliadau at y diffyg cyn yr ailbrisiad nesaf. Cyfrannodd cyfrif Dosbarthu Arian Loteri y Cyngor £56,550 i'r taliad at y diffyg hwnnw.

Nid oes newid i gyfraddau cyfrannu'r Cyngor a'r cyflogeion ers 31 Mawrth 2024.

Hefyd, talodd y Cyngor 0.2% (2022/23: 0.1%) o gyflog pensynadwy mewn perthynas â phob aelod sicrwydd bywyd yn unig.

O dan ddeddfwriaeth Cofrestru Awtomatig mae'n ofynnol i bob cyflogai cymwys ymaelodi â chynllun pensiwn cymwys, oni fo'n optio allan yn ffurfiol. Mae gennym gynllun cyfraniadau diffiniedig, Pensiwn y Bobl, fel dewis amgen i gyflogeion nad ydynt yn aelodau o Bensiwn Ymddeol Cyngor y Celfyddydau. Cyfrannodd y Cyngor 5% a'r cyflogai 3% yn ystod y flwyddyn. Mae'n bosibl y bydd y cyfraddau hyn yn newid yn y dyfodol, yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth.

8. Adnoddau a wariwyd Costau llywodraethu

	Costau gros £'000	Didynnu taliadau a ailgodwyd ar Ddosbarthu Arian y Loteri £'000	2023/24 Swm net a godwyd ar Weith- gareddau Cyffredinol £'000	2022/23 Swm net a godwyd ar Weith- gareddau Cyffredinol £'000
Cydnabyddiaeth ariannol y Cadeirydd	49	17	32	32
Cydnabyddiaeth ariannol yr archwilydd – Archwilio	68	32	36	30
Archwilio mewnol	18	9	9	13
Ffioedd cyfreithiol ac ymgynghoriaeth	2	1	1	1
Cyfarfodydd y Cyngor, gan gynnwys teithio a chynhaliaeth	9	3	6	2
	146	62	84	78

9. Asedau sefydlog

a. Asedau sefydlog anniriaethol	Trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol £'000
Cost ar 1 Ebrill 2023	301
Ychwanegiadau	-
Gwarediadau	(73)
Cost ar 31 Mawrth 2024	228
Amorteiddiad ar 1 Ebrill 2023	297
Tâl a godwyd am y flwyddyn	2
Gwarediadau	(73)
Amorteiddiad ar 31 Mawrth 2024	226
Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2024	2
Gwerth net ar bapur ar 1 Ebrill 2023	4

b. Asedau sefydlog diriaethol	Addasiadau i eiddo prydlesol £'000	System gyfrifiadurol, celfi ac ati £'000	Gwefan £'000	Cyfanswm £'000
Cost ar 1 Ebrill 2023	107	851	95	1,053
Ychwanegiadau	-	29	99	128
Gwarediadau	-	(336)	-	(336)
Cost ar 31 Mawrth 2024	107	544	194	845
Dibrisiad ar 1 Ebrill 2023	107	721	95	923
Tâl a godwyd am y flwyddyn	-	59	-	59
Gwarediadau	-	(336)	-	(336)
Dibrisiad ar 31 Mawrth 2024	107	444	95	646
Gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2024	0	100	99	199
Gwerth net ar bapur ar 1 Ebrill 2023	0	130	0	130

Mae'r amorteiddiad a dibrisiad a godwyd wedi'u dyrannu i weithgareddau elusennol o dan gostau cynnal (nodyn 6).

- c. Cynrychiola'r gwerth net ar bapur ar 31 Mawrth 2024 yr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i gynnal ei weithgareddau elusennol.

Mae eiddo rhydd-ddaliadol y Cyngor yng Nghaerdydd, Theatr Sherman a Stiwdio Rubicon Dance, wedi'u gosod ar brydlesi hir am rent rhad i denantiaid na chânt eu rheoli gan y Cyngor a heb ddarpariaethau naill ai i adolygu'r rhent neu ailfeddiannu'r eiddo gan y Cyngor.

Prynwyd Theatr Sherman gan hen Gyngor Celfyddydau Cymru, isadran o Gyngor Celfyddydau Prydain, ym mis Medi 1987 am £897,000 a chafodd ei gosod ar unwaith am gyfnod o 125 o flynyddoedd. Pan ddiddymwyd Cyngor Celfyddydau Prydain ym mis Mawrth 1994, trosglwyddwyd y buddiant rhyddfrefniol i Gyngor Celfyddydau Cymru a oedd newydd ei ffurfio.

Prynwyd Stiwdio Rubicon Dance gan hen Gyngor Celfyddydau Cymru ym mis Chwefror 1988 am £11,315 ac yn ddarostyngedig i brydles o 999 o flynyddoedd oedd yn bodoli eisoes ac a ddechreuasai ar 1 Ionawr 1986. Trosglwyddwyd y buddiant rhyddfrefniol i Gyngor Celfyddydau Cymru ym mis Mawrth 1994.

Roedd y prisiad allanol, annibynnol diweddaraf o eiddo rhyddfrefniol y Cyngor fel ar 31 Mawrth 2004. Fe'i gwnaed gan Elizabeth Hill, Aelod o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, dros ac ar ran Cooke ac Arkwright, Syrfewyr Siartredig. Oherwydd effaith y prydlesi, barn y syrfëwr oedd nad oedd dim gwerth neu werth nominal yn unig i'r buddiannau rhyddfrefniol, felly caiff yr asedau hyn eu dal yn y cyfrifon ar ddim gwerth.

Nid yw'r Cyngor o'r farn bod angen gwneud prisiad arall nes y bydd lleihad sylweddol yn hyd y prydlesi sy'n weddill neu eu bod yn cael eu terfynu'n gynt.

10. Dyledwyr

	2023/24 £'000	2022/23 £'000
a. Dyledwyr: yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn		
Llywodraeth Cymru – cyllid cyfalaf ar gyfer ailddatblygu Theatr Clwyd	0	8,570
	0	8,570
b. Dyledwyr: yn ddyledus o fewn blwyddyn		
Llywodraeth Cymru – cymorth grant	500	583
Llywodraeth Cymru – cyllid cyfalaf ar gyfer ailddatblygu Theatr Clwyd	10,030	13,766
Llywodraeth Cymru – ar gyfer Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru	2,664	-
Llywodraeth Cymru – cronfeydd eraill	1,026	394
Cynllun Casglu benthyciadau ¹	133	119
Dyledwyr masnachol	133	119
Dyledwyr eraill	829	924
	15,606	16,169
<i>Didynnu Darpariaeth benodol ar gyfer dyledion amheus</i>	-	-
<i>Is-gyfanswm: Dyledwyr</i>	15,606	16,169
Rhagdaliadau	190	286
	15,796	16,455
Yn ddyledus o gronfa dosbarthu arian y Loteri am gostau yr ailgodir tâl amdanynt:		
Dosraniadau costau	431	313
	16,227	16,768

¹ Cynllun benthyciadau heb log y Cyngor yw'r Cynllun Casglu, sydd ar gael i'r cyhoedd i'w cynorthwyo i brynu gweithiau celf a chrefft cyfoes o'r orielau sy'n cymryd rhan ledled Cymru. Ad-delir benthyciadau rhwng £50 a £5,000 drwy randaliadau misol dros gyfnod heb fod yn fwy na blwyddyn.

11. Credydwyr

	2023/24 £'000	2022/23 £'000
a. Credydwyr: yn ddyledus o fewn blwyddyn		
Grantiau sy'n daladwy – cyllid cyfalaf ar gyfer ailddatblygu Theatr Clwyd	10,030	13,766
Grantiau sy'n daladwy – ar gyfer Oriol Celf Gyfoes Genedlaethol i Gymru	2,656	-
Grantiau sy'n daladwy – arall	1,369	1,444
Trethi a nawdd cymdeithasol	138	118
Credydwyr masnachol	272	148
Credydwyr eraill	195	109
Croniadau ac incwm gohiriedig	648	249
	15,308	15,534
b. Credydwyr: yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn		
Grantiau sy'n daladwy – cyllid cyfalaf ar gyfer ailddatblygu Theatr Clwyd	-	8,570
Grantiau sy'n daladwy – arall	105	201
	105	8,771

12. Rhwymedigaeth wrth gefn

Mae'r Cyngor yn gyflogwr sydd wedi'i dderbyn i Gynllun Ymddeol Cyngor y Celfyddydau 1994. Mae'r Cynllun yn gynllun buddion diffiniedig a gyllidir cyflogwyr lluosog lle na all y cyflogwyr sy'n cyfranogi nodi eu cyfrannau o'r asedau a rhwymedigaethau sylfaenol.

Pe bai cyflogwr yn tynnu'n ôl, byddai'r ddyled a gâi ei hysgogi o dan adran 75 o Ddeddf Pensiynau 1995 yn cael ei chyfrifo gan ddefnyddio diffyg solfedd y Cynllun cyfan, nid cyfran asedau a rhwymedigaethau'r cyflogwr ei hun. Hefyd, pe câi'r Cynllun ei ddirwyn i ben, gan mai trefniant "y dyn olaf ar ei draed" yw'r Cynllun, byddai'r holl gyflogwyr yn atebol ar y cyd ac yn unigol am gyfanswm y diffyg yn y Cynllun.

13. Datganiad o gronfeydd

	Ar 1 Ebrill 2023 £'000	Adnoddau i mewn £'000	Adnoddau a wariwyd £'000	Trosglwyd- diadau £'000	Ar 31 Mawrth 2024 £'000
Cronfeydd incwm anghyfyngedig					
Cronfa gyffredinol	1,102	33,403	(32,045)	(528)	1,932
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig	1,102	33,403	(32,045)	(528)	1,932
Cronfeydd cyfyngedig					
Incwm					
Llywodraeth Cymru at weithgarwch celfyddydol penodol	4	8,037	(8,556)	519	4
Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau	1,337	2,048	(2,780)	-	605
Arts Council England (ar gyfer Hynt)	41	-	(41)	2	2
Gwobrau coffa Eirian Llwyd	-	-	-	-	-
Cyfoeth Naturiol Cymru (Incwm cyfyngedig arall)	-	9	(10)	1	0
Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol	23	-	(24)	1	0
Gweithgareddau Celfyddydau Rhyngwladol Cymru	69	79	(81)	5	72
	1,474	10,173	(11,492)	528	683
Cyfalaf					
Cronfa Goffa Alun Llywelyn Williams (incwm i ddarparu bwrsari i artist ifanc)	13	1	-	-	14
Cronfa Goffa Brian Ross (incwm i ddarparu bwrsari i artist gweledol ifanc)	69	3	-	-	72
	82	4	-	-	82
Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig	1,556	10,177	(11,492)	528	769
Cyfanswm cronfeydd	2,658	43,580	(43,537)	0	2,701

Caiff Cronfeydd Coffa Alun Llywelyn Williams a Brian Ross eu cynrychioli gan arian yn y banc ac maent yn y cyfanswm o £1,566,000 a ddangosir ar y Fantolen.

14. Dadansoddiad o asedau net rhwng mathau o gronfeydd

Cynrychiolir balansau cronfeydd ar 31 Mawrth 2024 gan:	Cronfeydd anghyfyngedig £'000	Cronfeydd cyfyngedig £'000	Cyfanswm £'000
Asedau sefydlog	201	-	201
Asedau cyfredol	5,786	12,127	17,913
Credydwyr: yn ddyledus o fewn blwyddyn	(4,037)	(11,271)	(15,308)
Credydwyr: yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	(18)	(87)	(105)
Cyfanswm asedau net	1,932	769	2,701

15. Gwybodaeth am lifau arian

	2023/24 £'000	2022/23 £'000
a. Llifau arian o weithgareddau gweithredu		
Adnoddau i mewn/(allan) net	43	239
Llog banc a dderbyniwyd (net o'r ildiad)	(28)	(10)
Amorteiddiad a dibrsiad (nodyn 9)	61	32
(Gwarged)/Diffyg ar werthu asedau sefydlog	(3)	-
(Cynnydd)/Gostyngiad yn y grantiau a dalwyd ymlaen llaw	(120)	-
(Cynnydd)/Gostyngiad yn y dyledwyr	9,111	(22,576)
Cynnydd/(Gostyngiad) yn y credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(226)	13,629
Cynnydd/(Gostyngiad) yn y credydwyr sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	(8,666)	8,741
Mewnlif (all-lif) arian parod net o weithgareddau gweithredu	172	55
b. Llifau arian o weithgareddau buddsoddi		
Llog banc a dderbyniwyd	108	18
Llog banc a ildwyd i Gronfa Gyfunol Cymru	(80)	(8)
Mewnlif arian parod net o weithgareddau buddsoddi	28	10
c. Llifau arian cysylltiedig ag asedau cyfalaf		
Taliadau i gaffael asedau sefydlog anniriaethol (nodyn 9a)	0	(4)
Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol (nodyn 9b)	(128)	(95)
(Gwarged)/Diffyg ar werthu asedau sefydlog	3	-
Mewnlif/(all-lif) arian parod net cysylltiedig ag asedau cyfalaf	(125)	(99)

16. Ymrwymiadau o ran prydlesi gweithredu

Ar 31 Mawrth 2024 roedd gan y Cyngor yr ymrwymiadau canlynol o ran taliadau yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu nad oedd modd eu diddymu:

	Tir ac adeiladau		Offer	
	2024 £'000	2023 £'000	2024 £'000	2023 £'000
Cyfanswm sy'n ddyledus				
o fewn blwyddyn	56	144	2	2
rhwng blwyddyn a phum mlynedd	264	516	-	2
ar ôl pum mlynedd	-	106	-	-
	320	766	2	4

Cafodd taliadau prydlesi gwerth £130,000 eu cydnabod fel treuliau yn ystod y flwyddyn (2022/23: £155,000). Caiff 51% (2022/23: 51%) o'r costau eu codi yn y datganiadau ariannol hyn a'r gweddill ar weithgareddau dosbarthu arian y Loteri.

17. Blaenymrwymiadau

	2024 £'000	2023 £'000
Grantiau		
Blaengyllido – grantiau a gynigiwyd yn ffurfiol	25,123	27,180

Mae'r blaengyllido ar 31 Mawrth 2024 yn cynrychioli dyraniadau i sefydliadau a ariennir yn aml-flwyddyn ar gyfer 2024/25.

18. Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

Mae Rhaglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau wedi'i bwriadu i:

- wella cyrhaeddiad addysgol
- adeiladu system addysg a fydd yn cyfrannu'n uniongyrchol i economi gryfach, mwy o arloesi, mwy o greadigrwydd, ac i gyfalaf diwylliannol y genedl
- creu newid sylweddol yn ystod ac ansawdd y cyfleoedd a roddir i blant a phobl ifanc ymgysylltu â'r celfyddydau a diwylliant a dysgu amdanynt

Cafodd y cam cyntaf, o 2015 i 2020, ei ariannu gan gyd-fuddsoddiad o £20 miliwn gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, gan weithio â'r consortia addysg rhanbarthol, ysgolion, awdurdodau lleol a'r sector celfyddydol a diwylliannol ehangach. Mae'r Rhaglen yn gofyn am ymgyfranogiad gweithredol artistiaid, gweithwyr creadigol proffesiynol a sefydliadau ym meysydd y celfyddydau, diwylliant a threftadaeth gan weithio mewn partneriaeth ag athrawon ac ysgolion.

Estynnwyd y rhaglen am ddwy flynedd o 2020 i 2022 ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi estyniad pellach am dair blynedd arall hyd 2025.

Daw buddsoddiad y Cyngor o gronfeydd y Loteri. Rhoddir cyfrif am hyn, ynghyd â chyfraniad Llywodraeth Cymru a holl wariant y Rhaglen, yn y datganiadau ariannol hyn. Cytunwyd ar y dull hwn gydag archwilwyr allanol y Cyngor a'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Incwm		
Grant gan Lywodraeth Cymru	1,000	1,000
Grant Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru	1,000	1,000
Ad-dalu grantiau'r flwyddyn flaenorol	1	0
Incwm partneriaeth	23	22
Llog banc	24	10
	2,048	2,032
Gwariant		
Ysgolion Creadigol Arweiniol	1,639	1,642
Rhaglen y celfyddydau ac addysg	8	3
Traws-raglen y celfyddydau a dysgu creadigol	512	14
Costau rheoli canolog	621	555
	2,780	2,214

19. Offerynnau ariannol

Mae Safon Adrodd Ariannol 102 yn ei gwneud yn ofynnol datgelu'r rôl a fu gan offerynnau ariannol yn ystod y cyfnod wrth greu neu newid y risgiau mae'r Cyngor yn eu hwynebu wrth gyflawni ei swyddogaethau.

Risg hylifedd – Yn 2023/24 deilliai £42,151,000 neu 97% o incwm y Cyngor o Lywodraeth Cymru (2022/23: £59,807,000 neu 98%). O'r incwm sy'n weddill, deilliai £1,000,000 neu 2% o gyfrif Dosbarthu Arian Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y Rhaglen *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau* (2022/23: £1,000,000 neu 1%) a deilliai £429,000 neu 1% o incwm o fuddsoddiadau ac incwm amrywiol (2022/23: £409,000 neu 1%). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau cyffredinol yn agored i unrhyw risg sylweddol o ran hylifedd, ac mae'n fodlon bod incwm y dyfodol yn ddigon i gyflawni ei ymrwymadau.

Risg cyfraddau llog – Caiff balansau arian a dynnir i lawr oddi wrth Lywodraeth Cymru i dalu ymrwymadau grant a chostau gweithredu eu cadw mewn cyfrif banc cyfradd amrywiol sy'n caniatáu cael yr arian ar unrhyw adeg. Ar gyfartaledd 3.18% oedd y gyfradd llog yn y flwyddyn (2022/23: 0.88%). Balans arian parod anghyfyngedig i bob pwrpas ar ddiwedd y flwyddyn oedd £384,000 (2023: £279,000). Nid yw'r Cyngor o'r farn bod ei weithgareddau cyffredinol yn agored i risgiau sylweddol o ran cyfraddau llog.

Risg arian tramor – Nid yw gweithgareddau cyffredinol y Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran cyfnewid arian tramor.

Risg llif arian – Nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran llif arian.

Risg credyd – Nid yw'r Cyngor yn agored i unrhyw risgiau sylweddol o ran credyd gan fod y rhan fwyaf o ddyledwyr yn ymwneud ag incwm o Lywodraeth Cymru.

20. Treth Gorfforaethol

Mae'r Cyngor yn gorff elusennol a noddir gan Lywodraeth Cymru ac felly mae'n cael ei eithrio rhag Treth Gorfforaethol o dan Adran 505 o Ddeddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988.

21. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Awdurdodi'r datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifyddu ar yr un dyddiad ag yr ardystiodd Archwilydd Cyffredinol Cymru hwy.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau perthnasol yn y cyfnod ar ôl y fantolen hyd at y dyddiad y cafodd y datganiadau cyfrifyddu eu hawdurdodi gan y Swyddog Cyfrifyddu a fyddai wedi golygu bod rhaid addasu'r cyfrifon.

22. Trafodion â phartion cysylltiedig

Cyrff cyhoeddus

Corff a noddir gan Lywodraeth Cymru yw'r Cyngor.

Ystyrir Senedd Cymru/Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn ni chafodd y Cyngor unrhyw drafodion perthnasol â Senedd Cymru/Llywodraeth Cymru ar wahân i'r cymorth grant a ddatgelwyd yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol a'r grantiau cyfyngedig a ddatgelwyd yn nodyn 3.

Unigolion

Ymgwymerodd aelodau o'r Cyngor, o'r Pwyllgorau, o'r staff neu bartion cysylltiedig eraill (sef perthnasau agos) â thrafodion ariannol (a restrir isod) â'r Cyngor yn ystod y flwyddyn.

Lle'r oedd yr unigolion a/neu berthnasau agos iddynt yn aelodau o Fyrddau Rheoli (neu eu cyfateb) neu'n uwch gyflogeion mewn sefydliadau a gafodd gynnig grantiau neu daliadau eraill gan y Cyngor yn 2023/24, ym mhob achos o'r fath, yn unol â Chod Ymarfer Gorau'r Cyngor, gadawodd yr unigolyn dan sylw unrhyw gyfarfod lle cafwyd trafodaeth neu benderfyniad ynghylch cyllid.

O dan God Ymarfer Gorau'r Cyngor, bernir bod buddiant yn parhau am flwyddyn o leiaf ar ôl i'r unigolyn adael y swydd a greodd y buddiant. Adlewyrchir y polisi hwn yn y datgeliadau canlynol.

Cofnodir trafodion â'r Cyngor fel un o ddsbarthwyr arian y Loteri yn y nodyn cyfatebol i'r Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri ar wahân.

Aelod Rôl	Sefydliad	Trafodyn Taladwy 2023/24 (Nifer)	Cyfanswm gwerth 2023/24 £	Cyfanswm y balans oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2024 ¹ £
Elen ap Robert				
Cadeirydd	Eisteddfod Genedlaethol	Grant (0)	Dim	1,500
Aelod o'r Bwrdd	Opera Cenedlaethol Cymru	Grantiau (2)	4,652,609	Dim
Devinda De Silva				
Aelod o'r Bwrdd	Celfyddydau Anabledd Cymru	Grant (1)	169,746	Dim
Aelod o'r Bwrdd	Dirty Protest	Grantiau (0)	Dim	617
Kate Eden (hyd Medi 2023)				
Aelod o'r Cyngor	Prifysgol Aberystwyth	Grant (5) Anfoneb (3)	1,432,574 4,787	453,266 720
Ruth Fabby				
Aelod o'r Bwrdd	Arts Marketing Association	Anfoneb (6)	6,043	Dim
Emily Hutchings				
Cyflogaeth	Chapter	Grant (6) Anfoneb (3)	698,093 999	24,602 Dim
Cyflogaeth	Theatr Sherman	Grant (3) Anfoneb (5)	1,162,359 2,610	Dim Dim
Gwennan Mair Jones				
Aelod o'r Bwrdd Drama	Eisteddfod Genedlaethol	Grant (0)	Dim	1,500
Cyflogaeth	Theatr Clwyd	Grant (3) Anfoneb (1)	1,857,044 780	10,031,055 Dim
Tafsila Khan				
Aelod o'r Bwrdd	Taking Flight Theatre	Anfoneb (2)	1,200	Dim
Aelod o'r Bwrdd	Fio	Grant (0)	Dim	500
Aelod o'r Bwrdd	National Theatre Wales	Grant (2) Anfoneb (6)	1,648,436 6,480	Dim Dim
Cyflogaeth	Canolfan Mileniwm Cymru	Grant (4) Anfoneb (2)	3,937,387 3,720	Dim Dim
Keith Murrell				
Aelod o'r Cyngor	The Successors of the Mandique	Anfoneb (1)	1,200	Dim
Victoria Provis				
Aelod o'r Cyngor	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Anfoneb (10)	3,881	Dim
Prue Thimbleby				
Cyflogaeth	Bwrdd Iechyd Bae Abertawe	Grant (0)	Dim	25,000
Dr Sarah Younan				
Gwirfoddolwr	Watch Africa Cymru	Grant (0)	Dim	1,000
Cyflogaeth	Amgueddfa Genedlaethol Cymru	Anfoneb (1)	812	Dim

Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgorau Rôl	Sefydliad	Trafodyn Taladwy 2023/24 (Nifer)	Cyfanswm gwerth 2023/24 £	Cyfanswm y balans oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2024 ¹ £
Ruth Cayford				
Aelod o'r Cyngor	Cyngor Caerdydd	Anfoneb (1)	300	Nil
Jayne Woods				
Aelod o'r Cyngor	Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant	Anfoneb (10)	3,881	Nil

Aelodau o'r Uwch Tîm Arwain Rôl	Sefydliad	Trafodyn Taladwy 2023/24 (Nifer)	Cyfanswm gwerth 2023/24 £	Cyfanswm y balans oedd yn ddyledus ar 31 Mawrth 2024 ¹ £
Dafydd Rhys				
Cyn gyflogaeth (hyd Awst 2022)	Prifysgol Aberystwyth	Grant (5) Anfoneb (3)	1,432,574 4,787	453,266 720
Lleucu Siencyn				
Cyn gyflogaeth (hyd Ebrill 2022)	Llenyddiaeth Cymru	Grant (2)	761,685	31,407

¹ Gall cyfanswm y balans oedd yn ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn gynnwys symiau o ran grantiau a ddyfarnwyd mewn blynyddoedd blaenorol ond nas talwyd eto.

Datganiadau Ariannol

Dosbarthu Arian y Loteri

Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 35 o Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 (fel y'i diwygiwyd) mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi am bob blwyddyn ariannol ddatganiad cyfrifon ar gyfer ei weithgareddau dosbarthu arian y Loteri ar y ffurf ac ar y sail a benderfynwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Paratwir y cyfrifon ar sail cronadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Cyngor ac o'i incwm a'i wariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a llifau arian am y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol:

- cadw at y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a gweithredu polisiau cyfrifyddu addas ar sail gyson;
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol; a
- pharatoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddu Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Cyngor. Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion cywir a thros ddiogelu asedau'r Cyngor, yn y ddogfen Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a *Managing Public Money* a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi.

A finnau'n Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd pob cam y dylaswn ei gymryd i beri fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol a sefydlu bod archwilydd y Cyngor yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes dim gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n cadarnhau bod, hyd y gŵyr, yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd + ac yn ddealladwy. Mae'n cymryd cyfrifoldeb dros yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r farn sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Cymeradwywyd ar ran y Cyngor:



Dafydd Rhys
Swyddog Cyfrifyddu
18 Hydref 2024



Maggie Russell
Cadeirydd
18 Hydref 2024

Tystysgrif ac Adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Ddau Dŷ'r Senedd ac Aelodau o Senedd Cymru

Barn ar y datganiadau ariannol

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys

- Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2024;
- Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o'r Llifau Arian a Datganiad o'r Newidiadau mewn Cronfeydd wrth gefn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; a'r
- nodiau cysylltiedig, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru ar 31 Mawrth 2024 a'i wariant net cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dani.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Sail barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU), y ddeddfwriaeth berthnasol a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Ceir disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn yr adran ar gyfrifoldebau'r Archwilydd am yr archwiliad o'r datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae'r safonau hynny'n ei gwneud yn ofynnol imi a'm staff gydymffurfio â *Safon Foesebol Ddiwygiedig 2019* y Cyngor Adrodd Ariannol. Rwyf yn annibynnol ar Gyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig. Mae fy staff a finau wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn.

Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i fy marn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes hyfyw

O archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnydd Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru o sail gyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith rwyf wedi ei wneud, nid wyf wedi canfod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amgylchiadau a all, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol dros allu Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu o ran busnes hyfyw wedi'u disgrifio yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Caiff cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw ei fabwysiadu ar gyfer Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru gan roi sylw i'r gofynion a nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r dull cyfrifyddu ar sail busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle y rhagwelir y bydd y gwasanaethau a ddarparant yn parhau i'r dyfodol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol na'm tystysgrif ac adroddiad fel archwilydd ohonynt. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn fy nhystysgrif, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad o ran sicrwydd arni.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, o wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol, neu fy ngwybodaeth a gefais yn yr archwiliad, neu'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i cham-ddatgan yn berthnasol.

Os wyf yn canfod anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw'n achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os, ar sail y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, y dof i'r casgliad bod yna gamddatganiad perthnasol o'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol imi adrodd yn ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd yn y cyswllt hwn.

Opinion on other matters

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi yn briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

Yn fy marn, ar sail y gwaith a gyflawnwyd yn ystod yr archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a wnaed o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc.1993; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion yr wyf yn cyflwyno adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a dealltwriaeth o Gyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad ar Berfformiad na'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi mewn perthynas â'r materion canlynol a adroddaf wrthy ch os, yn fy marn i:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan Gyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru neu na chafwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nas ymwelwyd â hwy gan fy staff; neu
- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio'n gyson â'r cofnodion a ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw rhai datgeliadau o gydnabyddiaeth a ragnodir gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi wedi'u gwneud neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w archwilio yn gyson â'r cofnodion a ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi.

Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- rhoi i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol fynediad at yr holl wybodaeth y mae'r rheolwyr yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r gwaith o baratoi'r datganiadau ariannol, megis cofnodion, dogfennaeth a materion eraill;
- rhoi i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol wybodaeth ychwanegol ac esboniadau y mae eu hangen ar gyfer ei archwiliad;
- rhoi i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol fynediad digyfyngiad at bobl yng Nghyngor Celfyddydau Cymru y mae'r archwilydd yn penderfynu bod angen cael tystiolaeth archwilio oddi wrthynt;
- sicrhau bod y rheolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ar waith er mwyn galluogi'r gwaith o baratoi datganiad ariannol sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall;
- paratoi datganiadau ariannol sydd yn rhoi darlun gwir a theg ac wedi'u paratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993;
- paratoi'r adroddiad blynyddol, sy'n cynnwys yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff, wedi'i baratoi yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993; ac
- asesu gallu Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, materion yn ymwneud â busnes hyfyw a defnyddio sail gyfrifyddu busnes hyfyw oni bai bod y Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Cyfrifoldeb yr archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio ac ardystio'r datganiadau ariannol ac adrodd arnynt yn unol â Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Y graddau yr ystyriwyd y gallai'r archwiliad ganfod achosion o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau gan gynnwys twyll

Rwyf yn llunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, fel y'u nodir uchod, er mwyn canfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll. Mae'r graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll, wedi'u nodi isod.

Canfod ac asesu risgiau posibl yn gysylltiedig ag achosion o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll

Wrth ganfod ac asesu'r risgiau o gamddatganiadau perthnasol mewn perthynas â pheidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, gan gynnwys twyll:

- ystyriais natur y sector, amgylchedd rheoli a pherfformiad gweithredol gan gynnwys dyluniad polisiau cyfrifyddu Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru;
- holais y rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cyngor Celfyddydau Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol mewn perthynas â pholisiau a gweithdrefnau Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru sy'n ymwneud â:
 - › chanfod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau;
 - › canfod ac ymateb i risgiau twyll; ac
 - › y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau mewn perthynas â thwyll neu beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau allweddol sy'n cynnwys rheolaethau Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru mewn perthynas â chydymffurfiaeth Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru â Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993, Rheoli Arian Cyhoeddus a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru;

- holais y rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Cyngor Celfyddydau Cymru a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a ydynt:
 - › yn ymwybodol o unrhyw enghreifftiau o beidio â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau;
 - › yn gwybod am unrhyw dwyll gwirioneddol, a amheuir neu a honnir;
- trafodais ymysg y tîm ymgysylltu ynghylch sut a phryd y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw arwyddion posibl o dwyll.

O ganlyniad i'r gweithdrefnau hyn, ystyriais y cyfleoedd a'r cymhellion ar gyfer twyll a all fodoli yng Nghyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru. Nodais y potensial mwyaf am dwyll yn y meysydd canlynol: cydnabyddiaeth refeniw, postio dyddlyfrau anarferol, trafodion cymhleth a rhagfarn yn amcangyfrifon rheolwyr. Yn gyffredin â'r holl archwiliadau a gyflawnwyd o dan Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU, mae'n ofynnol imi gyflawni gweithdrefnau penodol i ymateb i'r risg y bydd rheolwyr yn diystyru rheolaethau.

Cefais ddealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu ynddynt. Canolbwyntiais ar y deddfau a rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyfrif Dosbarthu Arian y Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru. Roedd y deddfau a rheoliadau allweddol a ystyriais yn y cyddestun hwn yn cynnwys Deddf y Loteri Genedlaethol etc. 1993, Rheoli Arian Cyhoeddus, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, cyfraith cyflogaeth, deddfwriaeth pensiynau a deddfwriaeth trethi.

Ymateb yr archwiliad i risgiau a ganfuwyd

Er mwyn ymateb i'r risgiau a ganfuwyd a gododd o'r gweithdrefnau uchod:

- adolygais ddatgeliadau'r datganiadau ariannol a phrofi'r dogfennau ategol i asesu eu cydymffurfiaeth â'r deddfau a rheoliadau perthnasol a ddisgrifir uchod fel rhai sy'n cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol;
- holais y rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg am ymglyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- adolygais gofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Cyngor ac adroddiadau archwilio mewnol;
- wrth fynd i'r afael â risg twyll a achosir gan reolwyr yn diystyru rheolaethau, profais briodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; gan asesu a yw'r penderfyniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n dangos rhagfarn bosibl; a gwerthuso sail resymegol busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu hwnt i hynt arferol busnes; a
